

Sut mae Hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau

Datganiad

Datganiad

Cyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2026

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cwmpas yr Argymhellion.....	6
3. Yr Argymhellion ar Lythrennedd yn y Cyfryngau	13
4. Gweithredu'r argymhellion	70
5. Aseidiadau Effaith	74

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a ddiweddarwyd gan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, i nodi Argymhellion ar Llythrennedd yn y Cyfryngau ar gyfer gwasanaethau ar-lein ac eraill. Yn y ddogfen hon rydym yn nodi ein hystyriaethau llawn wrth ddatblygu'r argymhellion. Mae hyn yn cynnwys adborth gan randdeiliaid, ymateb a phenderfyniadau Ofcom yn dilyn ymgynghoriad mis Medi 2025 ar [Sut mae Hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau](#) a oedd yn nodi ein Hargymhellion drafft ar Llythrennedd yn y Cyfryngau ('yr argymhellion drafft') ar gyfer platfformau, darlledwyr a gwasanaethau ar-lein. Pan fyddwn yn cyfeirio at yr ymarfer hwn, rydym yn defnyddio'r term 'yr ymgynghoriad'. Ar gyfer gwasanaethau sy'n mabwysiadu'r argymhellion hyn, rydym wedi cynhyrchu dogfen symlach ar wahân, [Sut mae hybu llythrennedd yn y cyfryngau](#), sy'n nodi'r Argymhellion terfynol ar Llythrennedd yn y Cyfryngau ac sy'n cynnwys adran 'Cwestiynau ac Atebion'.
- 1.2 Rydym wedi datblygu argymhellion i helpu amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaethau i rymuso dinasyddion y DU, drwy ddarparu a hybu llythrennedd yn y cyfryngau drwy eu cynnyrch a'u gwasanaethau. Rydym hefyd yn annog darparwyr gwasanaethau i weithio gyda rhaglenni ategol sy'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymgysylltu'n feirniadol ac yn ddiogel â chynnwys.
- 1.3 Wrth gyrraedd yr argymhellion terfynol, rydym hefyd wedi nodi'r mathau o wasanaeth rydym yn disgwyl mabwysiadu'r argymhellion: mae gan ddarparwyr gwasanaethau ar-lein, darlledu a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys gyfrifoldeb a photensial penodol i gefnogi'r boblogaeth. Mae gan wasanaethau ar-lein berthynas â'u defnyddwyr sy'n ymwneud â lefel uchel o sylw, ac mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus berthynas â'u cynulleidfaoedd nhw sy'n ymwneud â lefel uchel o ymddiriedaeth. Mae hyn yn golygu, er y gall y ffordd maen nhw'n gwneud pethau fod yn wahanol, mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr mewn sefyllfa unigryw i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer eu defnyddwyr a'u cynulleidfaoedd.
- 1.4 Nid yw'r argymhellion statudol hyn yn rhwymol. O ganlyniad, gall darparwyr gwasanaethau weithio gyda ni i dreialu, arloesi ac ailadrodd eu dull o ymdrin ag Llythrennedd yn y Cyfryngau. Mae'r argymhellion yn darparu fframwaith sy'n cefnogi deialog agored am yr hyn sy'n gweithio a dull cyfranogol o reoleiddio, sy'n gallu arwain at ganlyniadau gwell o ran llythrennedd yn y cyfryngau ar draws y boblogaeth. Yn ein barn ni, gallai rhai darparwyr gwasanaethau wneud mwy, a dylent wneud hynny, felly nid ydym wedi argymhell dull gweithredu safonol. Ar ben hynny, efallai y bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, dros y blynyddoedd nesaf, ystyried unrhyw ofynion statudol sydd ganddynt o ran llythrennedd yn y cyfryngau.
- 1.5 Cawsom 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o bartion â diddordeb, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, darlledwyr, cyrff masnach, cymdeithas sifil, y byd academiaidd, y llywodraeth ac eraill. Cyhoeddir ymatebion nad ydynt wedi'u marcio fel rhai cyfrinachol ar ein gwefan. Fel rhan o'n hymgyngoriad, fe wnaethom gyflwyno'r argymhellion drafft i'r panel cynghori ar Llythrennedd yn y Cyfryngau ar 14 Hydref 2025, ac i'r rhai hynny a oedd yn bresennol yng Nghynhadledd Llythrennedd yn y Cyfryngau Ofcom ar 3 Rhagfyr 2025. Cafodd yr adborth a gafwyd yn y ddau ddogfyddiad ei drin fel ffynhonnell eilaidd a'i ddefnyddio i wirio synnwyr, rhoi cydestun, ac ychwanegu naws at themâu sy'n codi o'r ymatebion ysgrifenedig. Pan fyddwn yn cyfeirio at yr adborth hwn, rydym yn gwneud hynny ar sail heb ei briodoli.

- 1.6 Byddwn yn gweithio gyda'r sectorau hyn ac yn eu monitro'n agos i weld sut mae'r dull hwn yn gweithio, pa mor dda a chyson mae'r argymhellion hyn yn cael eu mabwysiadu, ac yn gwerthuso eu heffeithiau. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr gwasanaethau yn mabwysiadu'r argymhellion yn y ddogfen hon.

Sail gyfreithiol y gwaith hwn

- 1.7 Mae Adran 11(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf') yn gosod dyletswydd statudol ar Ofcom i hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni, ymysg pethau eraill, gymryd camau i greu neu i annog eraill i sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o natur deunydd sy'n cael ei gyhoeddi drwy gyfryngau electronig, sut mae'n cael ei ddewis a'i gyrchu, a'r offer sydd ar gael i'w reoli. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni annog y datblygiad a'r defnydd o dechnoleg hawdd ei defnyddio sy'n cefnogi rheolaeth defnyddwyr dros ddeunydd o'r fath sy'n cael ei gyhoeddi drwy gyfryngau electronig.
- 1.8 Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2003 yn ychwanegu eglurder a manylder at ein dyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu rheoleiddio. Ymysg pethau eraill, mae adran 11(1D) o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cyhoeddi datganiad sy'n argymhell ffyrdd y gallai eraill ddatblygu, cyflawni a gwerthuso gweithgareddau neu fentrau sy'n berthnasol i lythrennedd yn y cyfryngau mewn perthynas â gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio.¹
- 1.9 Mae adran 11(1D) yn canolbwyntio'n benodol ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio, ac mae adran 11(1) yn ymwneud â chyfryngau electronig yn ehangach. Mae adran 11(1E) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi datganiad o argymhellion ac unrhyw fersiynau diwygiedig mewn modd sy'n sicrhau bod y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio yn ymwybodol ohono.

Gwybodaeth am y ddogfen hon

- 1.10 Mae pum adran i'r ddogfen hon.
- Adran 1: Yn yr adran hon, rydym yn nodi beth yw'r Datganiad o Argymhellion, sut y gwnaethom ymgynghori ar yr argymhellion, sut y gwnaethom gyrraedd ein penderfyniadau a'r sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith hwn. Mae hefyd yn cynnwys yr adran hon ar sut i lywio drwy'r ddogfen hon.
 - Adran 2: Yn yr adran hon rydym yn nodi i bwy y mae'r argymhellion yn berthnasol a pham. Mae'r argymhellion wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o endidau sy'n creu ac yn dosbarthu cynnwys, neu'n galluogi i'r cynnwys hwnnw cael ei greu, ei gynnal a'i dosbarthu, drwy wasanaethau darlledu, ar-alw ac ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ffrydio. Mae argymhellion 1 i 6 yn berthnasol i'r holl wasanaethau sydd o fewn y cwmpas ar wahân i ddarlledwyr, ac mae argymhellion 7 i 10 yn berthnasol i bob gwasanaeth a darlledwr. Gall hyn newid wrth i ofynion rheoleiddio esblygu. Byddwn yn parhau i adolygu'r argymhellion a'u perthnasedd.
 - Adran 3: Yn yr adran hon rydym yn nodi geiriad y 10 argymhellion y buom yn ymgynghori arnynt, adborth rhanddeiliaid, ein hymateb i'r adborth hwnnw, a'r argymhellion terfynol. Rydym wedi

¹ Mae adran 11(3) o'r Ddeddf yn diffinio "gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio" fel (a) gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael ei reoleiddio neu (b) gwasanaeth chwilio sy'n cael ei reoleiddio, fel y diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.

adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac wedi manylu ar y prif bwyntiau drwyddynt draw. Er hwylustod, mae pob argymhelliad yn dilyn yr un fformat. Yng nghyswllt yr argymhellion yr ymgynghorwyd arnynt, rydym yn defnyddio'r term 'argymhelliad drafft', ac wrth gyfeirio at yr Argymhelliad ar Lythrennedd yn y Cyfryngau terfynol a gyhoeddwyd, rydym yn defnyddio'r term 'argymhelliad terfynol'.

- d) Adran 4: Yn yr adran hon rydym yn nodi'r ffyrdd y byddwn yn gweithredu'r argymhellion, ac unwaith eto, rydym yn rhoi manylion adborth rhanddeiliaid lle bo hynny'n berthnasol.
- e) Adran 5: Yn yr adran hon rydym yn nodi'r asesiad o'r effaith, yr asesiad o hawliau, yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

2. Cwmpas yr Argymhellion

- 2.1 Mae'r adran hon yn nodi ein cynigion ar gwmpas yr argymhellion, adborth gan randdeiliaid, ein hymateb a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rhoi'r argymhellion ar waith.

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

- 2.2 Yn yr ymgynghoriad, rydym yn nodi cynigion ynghylch i bwy y dylai'r argymhellion fod yn berthnasol. Mae'r cynigion hyn i'w gweld yn y blwch isod.

Pwy ddylai ddilyn yr argymhellion hyn?

Mae'r argymhellion arfaethedig wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o endidau sy'n ei gwneud hi'n bosib creu, cynnal a dosbarthu cynnwys a chyfryngau sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol yn y DU drwy lwyfannau darlledu, ar-alw ac ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ffrydio. Mae'r dull unedig hwn yn cydnabod bod pobl yn newid yn ddi-dor wrth ymgysylltu â chynnwys analog a digidol ar draws y gwasanaethau hyn.

Platfformau ar-lein yw penseiri offer ar-lein sy'n siapio profiadau defnyddwyr, ac mae darlledwyr yn ffynonellau newyddion, cynnwys a gwybodaeth ddylanwadol gyda'r gallu i gyrraedd mwy o bobl, sy'n golygu eu bod yn sianel hanfodol ar gyfer datblygu llythrennedd yn y cyfryngau ar raddfa fawr. Gall y darparwyr gwasanaethau hyn gyflawni mwy a mynd ymhellach, ac rydym yn gobeithio y byddant yn rhoi sylw i'r argymhellion arfaethedig hyn.

Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn cynnig bod darparwyr gwasanaethau'n gweithredu ar argymhellion mewn 10 maes, sydd wedi'u nodi isod. Mae Argymhellion arfaethedig 1-5 ac 8-10 ar gyfer pob gwasanaeth, mae Argymhelliad arfaethedig 6 ar gyfer platfformau ar-lein yn benodol, ac mae Argymhelliad arfaethedig 7 ar gyfer gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ffrydio yn benodol. Mae Ffigur 1 yn cyflwyno'r argymhellion lefel uchel, ac mae pob un ohonynt yn cael eu hategu gan argymhellion manylach a amlinellir ym Mhennod 4.

Gwasanaethau wedi'u Targedu

Mae'r argymhellion wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o endidau sy'n ei gwneud hi'n bosib creu, cynnal a dosbarthu cynnwys a chyfryngau sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol yn y DU drwy lwyfannau darlledu, ar-alw ac ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ffrydio.

- Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr megis cyfryngau cymdeithasol, VSPs, fforymau, apiau negeseuon, gemau ar-lein, a gwasanaethau chwilio;
- Gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ffrydio fel y PSBs, gan gynnwys eu gwasanaethau VoD, darlledwyr nad ydynt yn PSBs, VoD, gan gynnwys gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) a gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu cefnogi

gan hysbysebion (AVoD), sianeli teledu ffrydio am ddim sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion (FAST), a gwasanaethau ffrydio/ar-lein, gan gynnwys platfformau teledu, radio a sain ar-lein;

- c) Gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, fel sgwrsfotiau, apiau cymeriad deallusrwydd artiffisial, a chynhyrchwyr sain, delweddu a fideo, yn ogystal â mathau eraill o wasanaethau creu cynnwys deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn ail-lunio'r dirwedd ddigidol drwy awtomeiddio'r broses o greu cynnwys, personoli'r broses ddsbarthu a galluogi profiadau mwy rhyngweithiol a chynhwysfawr. Mae'r gwasanaethau hyn mewn sefyllfa dda i wreiddio arferion llythrennedd yn y cyfryngau yn gynnar wrth i'r dechnoleg barhau i ddatblygu, a
- d) Gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar gynnwys sy'n cyfuno, dosbarthu a chyhoeddi cynnwys² ar draws cymysgedd o wefannau, apiau, teledu a phlatfformau ar-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfryngwyr ar-lein neu lwyfannau teledu ar-lein. Mae newidiadau parhaus mewn arferion gwyllo a modelau busnes tuag at y gwasanaethau hyn a gwasanaethau eraill sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â'r rhai a ragwelir dros y blynyddoedd nesaf, yn tynnu sylw at yr angen cynyddol am gymorth cyson o ran llythrennedd yn y cyfryngau, ni waeth ble na sut mae pobl yn cael gafael ar gyfryngau.

Crynodeb o'r ymatebion

- 2.3 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei bod yn glir at bwy mae'r argymhellion wedi'u hanelu, ac mai nhw yw'r math iawn o sefydliadau.
- 2.4 Dywedodd rhai rhanddeiliaid o'r gymdeithas sifil a'r byd academiaidd y dylid cynnwys rhagor o wasanaethau yng nghwmpas yr argymhellion terfynol, er enghraifft:
 - Mae gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eisoes yn cael eu disgrifio o dan 'Gwasanaethau wedi'u Targedu', ond dylid cyfeirio atynt yn benodol o dan 'Pwy ddylai ddilyn yr argymhellion?' (Ad Association, Internet Matters)³
 - Cyrff anllywodraethol ac elusennau (Prifysgol Glasgow)⁴
 - Gwasanaethau deallusrwydd artiffisial technoleg addysg (Internet Matters)⁵
 - Cydweithrediadau ar draws sectorau diwydiant (FUNdamentally Children)⁶

² Mae cynnwys yn cyfeirio at unrhyw fath o wybodaeth, mynegiant neu ddeunydd creadigol sy'n cael ei gynhyrchu a'i rannu at ddibenion defnyddio, cyfathrebu neu ymgysylltu.

³ [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.1-2; [Internet Matters](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.2-3

⁴ [Prifysgol Glasgow](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.1

⁵ [Internet Matters](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.2-3

⁶ [FUNdamentally Children](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.1-2

- Cyrff safonau annibynnol (FUNdamentally Children)⁷
 - Gweithredwyr symudol (Cynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth (MILA))⁸
- 2.5 O fewn y cytundeb cyffredinol, cafwyd rhai ceisiadau am ragor o fanylion. Roedd hyn yn cynnwys yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain), Llywodraeth Cymru, Sefydliad Ffilm Prydain (BFI), ac S4C yn gofyn am eglurder ynghylch beth yw ‘cynulleidfaoedd sylweddol yn y DU’.⁹
- 2.6 Dywedodd un unigolyn y dylid ehangu cwmpas llythrennedd yn y cyfryngau i gynnwys cyfryngau a gynhyrchir gan y gynulleidfa yn ogystal â chyfryngau a ddefnyddir gan y gynulleidfa.¹⁰
- 2.7 Dywedodd VoiceBox, yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth a Sefydliad Addysgol yr Economist hefyd y dylid ychwanegu rhagor o enghreifftiau o wasanaethau sydd o fewn ac y tu allan i gwmpas yr argymhellion.¹¹
- 2.8 O ran a ddylai’r argymhellion fod yn berthnasol i bob sefydliad, dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr y dylai’r defnydd o’r argymhellion fod yn gymesur â maint sefydliad, gyda rhai yn gofyn am eglurder gan Ofcom ynghylch sut byddai cymesuredd yn cael ei gymhwyso.
- 2.9 Y prif reswm pam roedd rhanddeiliaid yn dadlau dros ddull cymesur oedd pryder y gallai mabwysiadu’r argymhellion fod yn feichus i ddarparwyr gwasanaethau llai. Er enghraifft, dywedodd REPHRAIN y gallai darparwyr gwasanaethau llai ddiodeff oherwydd diffyg adnoddau i weithredu’r argymhellion, a dywedodd MILA y dylai’r argymhellion gydnabod y bydd wahanol adnoddau ar gael gan ddarparwyr gwasanaethau o wahanol feintiau.¹² I fynd i’r afael â hyn, dywedodd REPHRAIN y dylai Ofcom ddarparu templedi neu adnoddau i gefnogi busnesau bach a chanolig â gweithredu.¹³
- 2.10 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylid disgwyl atebolrwydd cryfach gan sefydliadau mwy sydd â mwy o adnoddau a chyrhaeddiad. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth, Sefydliad Good Things, REPHRAIN, a’r Advertising Association/Media Smart y dylai defnydd llymch o’r argymhellion fod yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau sy’n fwy neu’n fwy niweidiol.¹⁴

⁷ [FUNdamentally Children](#), ymateb, tt.1-2

⁸ [Cynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth \(MILA\)](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.2

⁹ [Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman \(Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain\)](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.2; [Llywodraeth Cymru](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025; [Sefydliad Ffilm Prydain \(BFI\)](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.2-3; [S4C](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.2

¹⁰ Ymatebwr cyfrinachol

¹¹ [VoiceBox](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025 tt.2-3; [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.2; [The Sefydliad Addysgol yr Economist](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.2

¹² [Cynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth \(MILA\)](#), ymateb, t.2

¹³ [REPHRAIN](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.2

¹⁴ [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth](#), ymateb, t.2; [Sefydliad Good Things](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt. 1-2; [REPHRAIN](#), ymateb, t.2; [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, tt. 1-2

- 2.11 Dywedodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein, er gwaethaf cymesuredd, y dylid dal disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau llai fabwysiadu'r argymhellion, gan y bydd llinell sylfaen o arferion da ar draws pob gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod yr ecosystem y addas ar gyfer y dyfodol, a gall darparwyr gwasanaethau llai gael effaith eang o hyd.¹⁵
- 2.12 Dywedodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) y dylai'r holl argymhellion fod yn berthnasol i bob gwasanaeth, gyda'r cafeat y gellir teilwra'r gweithredu i ffocws a chapasiti pob sefydliad. Fe wnaethon nhw ddweud hefyd y dylid ehangu cwrmpas Argymhelliad 6 i ddarlledwyr a ffrydwyr yn ogystal ag i lwyfannau ar-lein.¹⁶
- 2.13 Dywedodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddorau Gwleidyddol Llundain), Mencap ac Internet Matters y dylid ehangu cwrmpas Argymhelliad 7 i gwmpasu pob gwasanaeth, yn hytrach na gwasanaethau darlledu a ffrydio yn unig. Dywedodd Internet Matters fod hyn yn bwysig o ystyried mai platfformau cyfryngau cymdeithasol yw'r brif ffynhonnell newyddion i lawer o bobl ifanc. Dywedodd Mencap fod platfformau cyfryngau cymdeithasol yn 'helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygyrdded gwybodaeth' drwy ddulliau megis 'darparu 'gwiriwr ffeithiau' ar gyfer cynnwys'.¹⁷

Adborth eilaidd am y digwyddiad

Dywedodd aelodau o'n panel cynghori ar Lythrennedd yn y Cyfryngau fod angen diffiniadau cliriach a geiriad tynnach ar draws nifer o argymhellion, gan ddweud fel arall y gallai termau megis "ystyrlon", "tryloyw" a "grymuso" gael eu dehongli'n anghyson gan y diwydiant.

Yn ein gweithdai cynhadledd, dywedodd cyfranogwyr hefyd y dylem fireinio'r diffiniadau o ran rhanddeiliaid a blaenoriaethu ymgysylltu ar draws ecosystem ehangach - gan gynnwys gwasanaethau gemau, siopau apiau a systemau gweithredu, crewyr a dylanwadwyr, a chadwyni cyflenwi hysbysebu - ochr yn ochr â darlledwyr, ffrydwyr a phlatfformau cymdeithasol.

Ein hymateb

- 2.14 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang gan rhanddeiliaid i gwmpas y gwasanaethau a nodwyd gennym yn ein hymgyngoriad. Rydym wedi cynnal cwrmpas eang yr argymhellion fel y'u nodir yn adran 'Gwasanaethau wedi'u Targedu' yr argymhellion drafft, ond rydym wedi diwygio perthnasedd rhai o'r argymhellion. Mae Argymhellion 1 i 6 yn canolbwyntio ar ddyluniad gwasanaethau a grymuso defnyddwyr. Mae'r argymhellion hyn yn fwy perthnasol i wasanaethau ar-lein a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chynnwys sydd â lefel uchel o bersonoli gwasanaethau. Am y rheswm hwn, mae'r argymhellion hyn yn llai perthnasol i ddarlledwyr. Mae Argymhellion 7 i 10 yn canolbwyntio ar sut gall gwasanaethau hybu llythrennedd yn y cyfryngau drwy eu cynnwys a'r tu hwnt i'w gwasanaeth, sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau sydd o fewn cwrmpas yr argymhellion.

¹⁵ Ymateb Llywodraeth Cymru; [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb i Sut i hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt.2-3

¹⁶ [Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman \(Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain\)](#), ymateb, t.2

¹⁷ [Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman \(Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain\)](#), ymateb, t.2; [Mencap](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, t.3 [Internet Matters](#), ymateb, tt.2-3

Felly, rydym wedi penderfynu bod Argymhellion 1 i 6 yn berthnasol i wasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys, tra bod Argymhellion 7 i 10 yn berthnasol i'r holl wasanaethau sydd o fewn y cwmpas. Byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r argymhellion yn 2029, gan gynnwys i bwy y dylent fod yn berthnasol. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ystyried, ymysg pethau eraill, newidiadau mewn technoleg a dyluniad gwasanaethau, yn ogystal ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a/neu reoleiddio.

- 2.15 Rydym wedi ystyried adborth gan randdeiliaid sy'n nodi ei bod yn bosibl nad yw'n glir beth sy'n cael ei ystyried yn 'gynulleidfa sylweddol yn y DU'. Ein bwriad yw bod yr argymhellion hyn yn berthnasol iawn ac rydym yn cydnabod bod ffiniau'n gymhleth a bod ganddynt gyfyngiadau. Gan nad yw'r argymhellion yn rhwymol, nid yw'n briodol sefydlu set newydd o ddiffiniadau o ran cwmpas. Felly, rydym wedi dileu'r ymadrodd 'cynulleidfaeoedd sylweddol yn y DU' yng nghwmpas yr argymhellion terfynol. Ein dull gweithredu fydd gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol mewn ffordd gydweithredol i sicrhau bod eglurder ynghylch sut mae'r argymhellion yn berthnasol.
- 2.16 O ran ehangu cwmpas llythrennedd yn y cyfryngau i gyfryngau a gynhyrchir gan y gynulleidfa yn ogystal â'r hyn a ddefnyddir gan y gynulleidfa, mae hyn eisoes o fewn cwmpas ein diffiniad o lythrennedd yn y cyfryngau: "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau."
- 2.17 Nid ydym wedi darparu rhagor o enghreifftiau o fathau penodol o wasanaethau y tu hwnt i'r rhai a ddarparwyd eisoes yn yr argymhellion drafft. Bwriad yr enghreifftiau hyn yw rhoi amlinellid cryno o'r math o wasanaethau sydd o fewn y cwmpas yn ein barn ni, yn hytrach na rhestr gynhwysfawr. Ar ben hynny, gan gydnabod cyflymder y newid yn y diwydiant a sut gall gwasanaethau perthnasol newid ac addasu, nid ydym wedi enwi darparwyr gwasanaethau penodol o fewn y cwmpas yn yr argymhellion terfynol oherwydd bod gan yr argymhellion berthnasedd eang, a gall enghreifftiau o'r fath esblygu dros amser.
- 2.18 O ran cymesuredd, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y gallai'r argymhellion fod yn fwy beichus i ddarparwyr gwasanaethau llai, ac y dylid disgwyl mwy gan y darparwyr gwasanaethau hynny sy'n fwy ac sydd â chyrhaeddiad ehangach. Ochr yn ochr â'r datganiad hwn, rydym wedi cyhoeddi [Sut mae Hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau](#) i gefnogi gwasanaethau sy'n mabwysiadu'r argymhellion. Mae hyn yn cynnwys adran Cwestiynau ac Atebion sy'n rhoi rhagor o fanylion ynghylch lle rydym yn disgwyl i wasanaethau mwy fynd ymhellach wrth fabwysiadu'r argymhellion na gwasanaethau llai. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cyfeirio darparwyr gwasanaethau at ganllawiau ac adnoddau presennol Ofcom a all helpu â gweithredu.
- 2.19 Datblygwyd Argymhelliad 6 yn benodol gyda gwasanaethau ar-lein mewn golwg, lle mae arbenigedd a phartneriaethau trydydd parti yn chwarae rhan benodol o ran cefnogi Llythrennedd yn y Cyfryngau. Mae'r ddeinameg hon yn wahanol i wasanaethau darlledu a phrotocol rhyngwryd yn gyntaf, sydd â'u modelau comisiynu, eu rheolaethau golygyddol a'u fframweithiau rheoleiddio yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol iawn. Am y rheswm hwn, nid ydym yn credu ei bod yn briodol ehangu Argymhelliad 6 i ddarlledwyr neu ffrydwyr.
- 2.20 Rydym wedi ehangu cwmpas Argymhelliad 7 i gynnwys yr holl wasanaethau o fewn y cwmpas. Rydym hefyd wedi nodi sut rydym yn disgwyl i ddarlledwyr fwrw ymlaen â'r argymhellion o'u cymharu â gwasanaethau ar-lein.

Ein penderfyniad terfynol

2.21 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar gwmpas ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Cwmpas yr Argymhellion

Mae'r argymhellion wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaethau sy'n creu ac yn dosbarthu cynnwys, neu'n galluogi i'r cynnwys hwnnw cael ei greu, ei gynnal a'i dosbarthu, drwy wasanaethau darlledu, ar-alw ac ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ffrydio.

Dyma enghreifftiau o ddarparwyr gwasanaethau rydym yn disgwyl iddynt fabwysiadu'r argymhellion:

- a) Gwasanaethau ar-lein: gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (megis cyfryngau cymdeithasol, platfformau rhannu fideos (VSPs), fforymau, apiau negeseuon a gemau ar-lein, a gwasanaethau chwilio;
- b) Darparwyr gwasanaethau darlledu a ffrydio megis darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs) a darlledwyr eraill, gan gynnwys eu gwasanaethau fideo ar-alw (VoD), fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) a fideo ar-alw sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion (AVoD), sianeli teledu ffrydio am ddim sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion (FAST), a gwasanaethau ffrydio/ar-lein, gan gynnwys platfformau teledu, radio a sain ar-lein;
- c) Gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, megis sgwrsfotiau, apiau cymeriad deallusrwydd artiffisial, a chynhyrchwyr sain, delweddu a fideo, yn ogystal â mathau eraill o wasanaethau creu cynnwys deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn ail-lunio'r dirwedd ddigidol drwy awtomeiddio'r broses o greu cynnwys, personoli'r broses ddosbarthu a galluogi profiadau mwy rhyngweithiol a chynhwysfawr. Mae'r gwasanaethau hyn mewn sefyllfa dda i wreiddio arferion llythrennedd yn y cyfryngau yn gynnar wrth i'r dechnoleg barhau i ddatblygu,¹⁸ a
- d) Gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar gynnwys sy'n cyfuno, dosbarthu a chyhoeddi cynnwys ar draws cymysgedd o wefannau, apiau, teledu a gwasanaethau ar-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfryngwyr ar-lein a platfformau teledu ar-lein. Mae newidiadau parhaus mewn arferion gwyllo a modelau busnes tuag at y gwasanaethau hyn a gwasanaethau eraill sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â'r rhai a ragwelir dros y blynyddoedd nesaf, yn tynnu sylw at yr angen cynyddol am gymorth cyson o ran llythrennedd yn y cyfryngau, ni waeth ble na sut mae pobl yn cael gafael ar gyfryngau.

Yn y ddogfen hon, mae 'gwasanaethau ar-lein' yn cyfeirio at wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Mae 'gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau

¹⁸ Gall rhai gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fod o fewn cwmpas Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac felly'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau perthnasol. Ym mis Tachwedd 2024, [cyhoeddodd Ofcom llythyr agored i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n gweithredu yn y DU ynghylch sut bydd Deddf Diogelwch Ar-lein y DU yn berthnasol i Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol a sgwrsfotiau](#).

eraill sy'n ymwneud â chynnwys' yn cyfeirio at wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gwasanaethau chwilio a gwasanaethau ehangach gan gynnwys deallusrwydd artifisial cynhyrchiol a gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar gynnwys, ond nid darlledwyr. Wrth gyfeirio at 'pob darparwr gwasanaeth', mae hyn yn cynnwys yr ystod ehangaf o wasanaethau sydd o fewn y cwmpas, sef ar-lein, darlledu a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys.

Mae rhai argymhellion yn fwy priodol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau. Dim ond i wasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys (nid darlledwyr) y mae Argymhellion 1 i 6 yn berthnasol, ac mae 7 i 10 yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth, gan gynnwys darlledwyr.

Nid yw'r argymhellion yn rhwymol, ac nid ydym wedi gosod cwmpas diffiniedig ar gyfer eu rhoi ar waith. Mae'r enghreifftiau'n rhoi eglurder ynghylch pwy rydym yn disgwyl iddynt fabwysiadu'r argymhellion.

3. Yr Argymhellion ar Lythrennedd yn y Cyfryngau

- 3.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r Argymhellion ar Lythrennedd yn y Cyfryngau rydym yn disgwyl i randdeiliaid eu mabwysiadu. Mae'r argymhellion wedi'u grwpio'n bedwar categori, fel y disgrifir yn yr argymhellion drafft:
1. Dylunio i roi gwell dewis i ddefnyddwyr (Argymhellion 1 i 2)
 2. Grymuso pobl wrth ddefnyddio (Argymhellion 3 i 6)
 3. Meithrin ymddiriedaeth y tu hwnt i'r gwasanaeth (Argymhellion 7 i 9)
 4. Gwerthuso'r hyn sy'n gweithio (Argymhelliad 10)
- 3.2 Mae'r adran hon: yn nodi beth oedd ein hargymhellion arfaethedig o dan y pedwar categori; yn crynhoi sut ymatebodd rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad; yn egluro ein hymateb i adborth; ac yna'n dangos yr argymhellion terfynol.

Ar Ddylunio i Roi Gwell Dewis i Ddefnyddwyr

- 3.3 Mae Argymhellion 1 a 2 yn canolbwyntio ar sut gall darparwyr gwasanaethau ddylunio eu gwasanaethau i gynnig dewis gwybodus a rheolaeth ystyrion i bobl o'r cychwyn cyntaf.

Argymhelliad 1

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 1: Gwreiddio llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio, gan wneud dewisiadau dylunio cynhwysol yn egwyddor sylfaenol mewn pensaernïaeth a pholisi gwasanaethau

Mae'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o siapio ymddygiad defnyddwyr a meithrin ymddiriedaeth hirdymor. Pan fydd pobl yn deall sut mae gwasanaeth yn gweithredu, yn enwedig sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio a pha ddewisiadau maen nhw'n eu gwneud, maen nhw'n gallu ymgysylltu'n fwy ystyrion a chyfrifol. Mae dewisiadau dylunio cynhwysol yn rhan annatod o lythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio oherwydd eu bod yn sicrhau bod y rhai ag anghenion amrywiol yn gallu cael gafael ar wasanaethau a chael eu grymuso i ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn cynnwys plant, pobl anabl a phobl â llai o hyder digidol.

Er enghraifft, mae'r achos dros lythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio yn dod yn bwysicach fyth pan fydd plant yn debygol o ddefnyddio gwasanaeth. Mae plant yn rhyngweithio â gwasanaethau'n wahanol i oedolion ac yn aml nid oes ganddynt yr aeddfedrwydd gwybyddol i lywio drwy osodiadau preifatrwydd cymhleth neu nodwedddion dylunio perswadiol (ac ni ddylid disgwyl iddynt).¹⁹ Mae ein hymchwil yn dangos bod llawer

¹⁹ Mae Sefydliad 5Rights yn nodi tacsonomeg o'r strategaethau dylunio sy'n cael eu defnyddio amlaf i ddylanwadu ar ymddygiad ar gynnrych a gwasanaethau sy'n boblogaidd ymysg plant. Ffynhonnell: 5Rights, 2023, [Disrupted Childhood: The cost of persuasive design.](#); Sefydliad 5Rights, 2023, [Digital Childhood: Addressing childhood](#)

o wasanaethau ddim yn gwahaniaethu rhwng cyfrifon plant a chyfrifon oedolion wrth gofrestru, gan gollu cyfleoedd hollbwysig i roi mesurau diogelwch a phreifatrwydd sy'n briodol i oedran ar waith.²⁰

Felly, rydyn ni'n argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi polisi ac ymarfer 'llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio'. Dylai hon fod yn ddogfen fyw sy'n datblygu mewn ymateb i anghenion defnyddwyr a newid technolegol. **Rydym hefyd yn argymhell, lle mae plant yn debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth, bod darparwyr gwasanaethau yn blaenoriaethu dyluniad sy'n briodol i oedran ac sy'n pwysleisio symlrwydd, diogelwch ac eglurder mewn arferion cynnwys a data.**²¹ Mae hyn yn cynnwys gosodiadau preifatrwydd diofyn, iaith symlach, ac esboniadau clir o nodweddion sydd wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd iau.²² Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hefyd ystyried eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall (gweler paragraffau 2.11 i 2.15 am gyd-destun ychwanegol).

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.4 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol ar bwysigrwydd dylunio cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Rhoddodd rhanddeiliaid dystiolaeth o sut gallai Ofcom fynd ymhellach gyda'r argymhellion ar faterion megis cyfrifoldeb am wasanaethau, dylunio gwasanaethau, cyd-ddylunio, patrymau dylunio niweidiol, oeddrannau a champau, hygyrchedd, a chymorth i'r rhai hynny sydd ag anghenion ychwanegol.
- 3.5 Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylai defnyddwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn gyfan gwbl am amddiffyn eu hunain ar-lein. Dywedodd REPRHAIN fod angen dull gweithredu cytbwys sy'n cydnabod pwysigrwydd sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau defnyddwyr a'r rôl y mae hygyrchedd yn ei chwarae o ran galluogi defnydd wedi'i rymuso.²³ Dywedodd tri ymatebydd (Sefydliad Molly Rose, Llywodraeth Cymru, Sefydliad Good Things) y dylai gwasanaethau wreiddio llythrennedd yn y cyfryngau yn y gwaith o ddylunio a llywodraethu gwasanaethau a gwella tryloywder gwybodaeth.²⁴
- 3.6 Dywedodd rhanddeiliaid, megis y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein, eu bod yn croesawu ymyrraeth gryfach ar ddylunio gwasanaethau.²⁵ Dywedodd y BFI y dylai gwasanaethau fabwysiadu pensaernïaeth arfer gorau gyda chymorth, arweiniad neu gyllid ychwanegol, a chytunodd y Middle Tech Coalition (MTC) y gall dyluniad platfformau gefnogi canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau,

[development milestones in the digital environment](#). Mae rhagor o wybodaeth am gamau ymddygiad plant yn yr adran Grwpiau oedran a argymhellir (Adran 7.15).

²⁰ Ofcom, [Behavioural Audit of Online Services, 2025](#)

²¹ Mae [Cod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) yn nodi sut dylai gwasanaethau ar-lein sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ddiogelu preifatrwydd a data personol plant ar-lein.

²² Er enghraifft: Ofcom, 2025, [Protecting children from harms online, Volume 4: What should services do to mitigate the risks of online harms to children](#). t.481. Sefydliad 5Rights, 2021, [Tick to agree: Age appropriate presentation of published terms](#).; Designing for Children's Rights, 2022, [Design Principles: Version 2.0](#).; Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2020, [Age appropriate design: a code of practice for online services](#).; IEEE, 2021, [IEEE standard for an age-appropriate digital services framework based on the 5Rights principles for children](#).; Achub y Plant, 2022, [How to write a child friendly document](#).

²³ [REPRHAIN](#), ymateb, t.4

²⁴ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t.5; ymateb Llywodraeth Cymru; [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.2-3

²⁵ [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.3

ond rhybuddiodd yn erbyn gofynion rhagnodol neu orfodol.²⁶ Dywedodd Prifysgol Glasgow fod dylunio systemau sy'n amlwg yn modelu ymddygiad teg ac yn egluro penderfyniadau'n glir yn helpu defnyddwyr i ddysgu, yn meithrin empathi, ac yn annog pobl i sefyll yn erbyn ymddygiad niweidiol.²⁷

- 3.7 Roedd rhai ymatebion, megis gan Sefydliad Good Things, yn dweud bod cysondeb dylunio rhwng ac ar draws gwasanaethau yn bwysig, gyda Parent Zone yn argymhell datblygu llyfrgell batrymau gydag enghreifftiau o arferion da sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi cysondeb o'r fath.²⁸ Dywedodd Sefydliad Addysgol yr Economist y bydd ansawdd yn amrywio'n fawr oherwydd yr hyblygrwydd o ran gweithredu, a dywedodd Pinterest y byddai'n defnyddio dull gweithredu mwy hyblyg a fyddai'n annog rhannu canfyddiadau a gwybodaeth ar draws diwydiannau.²⁹
- 3.8 Galwodd nifer o ymatebwyr am ymgysylltu mwy ystyrion â defnyddwyr ynghylch dylunio gwasanaethau. Dywedodd Wikimedia UK, Sefydliad Good Things, a Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (OSAN) y dylai'r argymhellion roi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd cyd-ddylunio, gan ddefnyddio mewnbwn defnyddwyr i ddiweddarau gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn bodloni anghenion defnyddwyr.³⁰ Dywedodd Sefydliad Good Things fod cyd-ddylunio yn arbennig o bwysig i grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Dywedodd Mencap a VoiceBox y dylem fynd ymhellach drwy alw hefyd am gyd-gynhyrchu i sicrhau ymchwil ac ymgysylltu ystyrion â grwpiau defnyddwyr drwyddi draw.³¹
- 3.9 Dywedodd rhai mudiadau cymdeithas sifil y dylid rhoi sylw pellach yn yr argymhellion terfynol i batrymau dylunio sy'n niweidiol. Dywedodd y Parent Zone a Sefydliad Molly Rose nad yw llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio yn unig yn amharu ar batrymau dylunio niweidiol.³² Dywedodd Internet Matters y dylai Ofcom fynd i'r afael yn fwy penodol â rôl nodweddion dylunio craidd sy'n lleihau gallueded defnyddwyr neu'n atal gwerthusiad beirniadol.³³
- 3.10 Galwodd sefydliadau eraill am ddyluniad sy'n briodol o ran oedran a bu galw am ragor o eglurder ynghylch oedrannau a champau. Er enghraifft, dywedodd Advertising Association/Media Smart y gall hyn helpu plant i feithrin gwydnwch yn raddol dros amser, a gofynnodd Internet Matters am enghreifftiau ar draws gwahanol oedrannau a champau datblygu.³⁴ Dywedodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman o Ysgol Economeg Llundain y dylid cael dull hawliau plant drwy ddylunio o weithredu.³⁵ Awgrymodd nifer o randdeiliaid (Sefydliad Good Things, Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth, S4C) ddefnyddio iaith symlach ac esboniadau clir o nodweddion, ond dywedon nhw y dylai hyn fynd y ymhellach na defnyddwyr a chynulleidfaoedd iau.³⁶

²⁶ [Sefydliad Ffilm Prydain \(BFI\)](#), ymateb, t.5; Middle Tech Coalition (MTC), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatformau ar-lein, 2025

²⁷ [Prifysgol Glasgow](#), ymateb, t.2

²⁸ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.3; [Parent Zone](#), ymateb, t.5

²⁹ [Sefydliad Addysgol yr Economist](#), response, p.2; [Pinterest](#), response, p. 3

³⁰ [Wikimedia UK](#), ymateb, t.3; [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.3, [Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein](#) (OSAN), ymateb, t.4

³¹ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.3; [Mencap](#), ymateb, t.4; [VoiceBox](#), ymateb, t.2

³² [Parent Zone](#), ymateb, t.5; [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t.6

³³ [Internet Matters](#), ymateb, t.7

³⁴ [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, t.2; [Internet Matters](#), ymateb, t.7

³⁵ [Ysgol Economeg Llundain](#), ymateb, t.3

³⁶ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t. 3; [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, t.2; [S4C](#), ymateb, t.2

- 3.11 Roedd rhai sefydliadau cymdeithas sifil yn cwestiynu beth mae'n ei olygu i ddylunio fod yn gynhwysol ac yn hygyrch. Dywedodd Mencap y dylem newid y geiriad i 'ddylunio cynhwysol a hygyrch'.³⁷
- 3.12 Tynnodd rhai mudiadau cymdeithas sifil sylw at yr angen am gefnogaeth bellach i rai ag anghenion ychwanegol. Dywedodd Mencap y dylid cael gosodiadau diofyn ar gyfer pobl ag anableddau gwybyddol, a dywedodd Sefydliad Molly Rose y dylai'r argymhellion roi mwy o sylw i'r rhai hynny sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a/neu Anabledd.³⁸ Dywedodd y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein y dylid gwreiddio nodwedddion diogelwch sy'n sensitif i rywedd yn fwy a mwy o nodwedddion sy'n ystyried profiadau croestoriadol.³⁹ Dywedodd y Middle Tech Coalition (MTC) hefyd y dylai'r dyluniad gefnogi defnyddwyr ag anghenion amrywiol, ond na ddylai gynnwys gofynion gorfodol i osgoi beichiau cydymffurfio dyblyg.⁴⁰

Adborth eilaidd am y digwyddiad

Roedd aelodau ein panel cynghori ar Lythrennedd yn y Cyfryngau hefyd yn cefnogi cyd-ddylunio a chryfhau'r canolbwyntio ar gynulleidfaoedd amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Roedd adborth y panel yn adleisio adborth yr ymatebion ysgrifenedig drwy ein hannog i sicrhau bod yr argymhellion yn rhoi mwy o bwyslais ar gael gwared â risgiau ymlaen llaw wrth ddylunio.

Yn yr un modd, roedd trafodaethau yn ystod gweithdai yn ein cynhadledd yn cefnogi ein hargymhellion ar 'llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio' ac yn gofyn am fynegiant cliriach o'r hyn y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.

Ein hymateb

- 3.13 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i ddylunio cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae Ofcom wedi ymrwmo i gefnogi llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio, ac mae'r argymhellion wedi cael eu gosod ar lefel uchel i gefnogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar egwyddorion. Ein nod drwy'r argymhelliad yw annog dulliau gweithredu sy'n cydbwysu gallueded defnyddwyr â chyfrifoldeb ystyrlon dros wasanaethau ar-lein.
- 3.14 O ran galwadau am fwy o gysondeb, rydym am annog profi, arloesedd a chreadigrwydd o ran dulliau dylunio, ac mae perygl i'r canlyniadau hyn cael eu tanseilio gan ddull safoni o weithredu. Mae caniatáu i wasanaethau alinio lle bo hynny'n briodol ond hefyd wyro os yw'n well i'w defnyddwyr y gallu helpu i sicrhau bod yr argymhellion yn addas ar gyfer y dyfodol wrth i anghenion a gwasanaethau defnyddwyr newid. Fodd bynnag, mae'r [Egwyddorion Arferion Gorau](#) yn annog gwasanaethau ar-lein sy'n cymryd rhan i ddangos tryloywder drwy gyhoeddi enghreifftiau o sut maen nhw'n defnyddio egwyddorion arferion da wrth ddylunio gwasanaethau gyda gwasanaethau ar-lein dan oruchwyliaeth. Rydym yn gwahodd gwasanaethau eraill i addo mabwysiadu'r egwyddorion arferion gorau.
- 3.15 Rydym yn cytuno bod cyd-ddylunio a chydgyhyrchu yn bwysig, ac rydym wedi diwygio Argymhelliad 9 i wneud hyn yn fwy clir, gan bwysleisio y dylai darparwyr gwasanaethau weithio

³⁷ [Mencap](#), ymateb, t.2

³⁸ [Mencap](#), ymateb, t.2; [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t.11

³⁹ [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.3

⁴⁰ Ymateb Middle Tech Coalition (MTC)

gyda chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol i gyd-ddylunio a darparu ymyriadau effeithiol o ran llythrennedd yn y cyfryngau.

- 3.16 Rydym yn cydnabod galwadau i fynd i'r afael ymhellach â phatrymau dylunio sy'n niweidiol. Mae gan lythrennedd yn y cyfryngau rôl i'w chwarae mewn perthynas â dylunio perswadiol. Rydym wedi cynnal ymchwil sy'n rhoi cipolwg ar nodweddion dylunio perswadiol, gan gynnwys sut gall nodweddion dylunio a ddefnyddir gan wasanaethau gael effaith negyddol ar eu defnyddwyr. Rydym wedi cynnwys yr ymchwil hwn fel darllen pellach a awgrymir mewn perthynas ag Argymhelliad 1 i annog gwasanaethau sy'n mabwysiadu'r argymhellion hyn i ystyried effaith defnyddio'r nodweddion hyn ar eu defnyddwyr.
- 3.17 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod dylunio sy'n briodol i oedran yn bwysig i gefnogi llythrennedd yn y cyfryngau o wahanol oedrannau. Mae ein hargymhellion yn ategu *Cyfrol 2 y datganiad ar amddiffyn plant rhag niwed ar-lein*, sy'n amlinellu categorïau oedran a argymhellir⁴¹ sy'n cyd-fynd â *chod dylunio priodol i oedran Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth*.⁴² Ar ben hynny, rydym wedi diweddarau'r argymhellion i nodi y dylai darparwyr gwasanaethau ar-lein ddilyn cod statudol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o ran dylunio priodol i oedran a'i fframwaith ar gyfer dylunio ar sail oedran a cham, gan nodi pwysigrwydd cyfeirio gwasanaethau o fewn y cwmpas tuag at ddeddfwriaeth statudol. Rydym hefyd yn nodi'r defnydd o iaith glir a syml ar gyfer pob defnyddiwr yn yr argymhelliad, beth bynnag fo'u hoedran. Y tu hwnt i hyn, nid ydym yn credu ei bod yn briodol nodi oedrannau a chymau'n fanylach er mwyn cynnal cysondeb â'n codau Amddiffyn Plant, ein rhanddeiliaid, a chyrrff rheoleiddio eraill megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- 3.18 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid a ofynnodd i ni newid 'dylunio cynhwysol' i 'ddylunio cynhwysol a hygyrch'. Bydd hyn yn egluro ein bod am i wasanaethau wneud addasiadau ymarferol a thechnegol i helpu'r rhai hynny sydd ag anghenion amrywiol i gael gafael ar wasanaethau a chael eu grymuso i ymgysylltu â nhw. Fel y nodwyd yn yr argymhelliad, rydym yn golygu bod hyn yn cynnwys plant, pobl ag anableddau a'r rhai hynny sydd â llai o hyder digidol.
- 3.19 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid a oedd yn dadlau y dylai gwasanaethau ddarparu cymorth i'r rhai hynny sydd ag anghenion ychwanegol. Mae yna eisoes amrywiaeth o ofynion rheoleiddio ar wasanaethau ar-lein i ddarparu cymorth i'r rhai hynny sydd ag anghenion ychwanegol. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein gynnal asesiadau risg sy'n cynnwys risgiau o niwed i ddefnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anableddau. Rydym o'r farn y dylid ystyried yr asesiadau risg a'r mesurau lliniaru hyn pan fydd darparwyr yn penderfynu sut mae cyflwyno gwybodaeth i ddefnyddwyr fel rhan o'r argymhelliad hwn, gan arwain at well profiad ar-lein i'r rhai hynny sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.20 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan rhanddeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

⁴¹ [Children's Register of Risks](#), Ofcom, p.312

⁴² Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2020, [Age-appropriate design: a code of practice for online services](#).

Argymhelliad Terfynol 1: Gwreiddio llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio, gan wneud dewisiadau dylunio cynhwysol a hygyrch yn egwyddor sylfaenol mewn pensaernïaeth a pholisi gwasanaethau

Mae'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o siapio ymddygiad defnyddwyr a meithrin ymddiriedaeth hirdymor.⁴³ Pan fydd pobl yn deall sut mae gwasanaeth yn gweithredu, yn enwedig sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio a'r dewisiadau sy'n cael eu cynnig iddynt, maen nhw'n gallu ymgysylltu'n fwy ystyrion a chyfrifol.⁴⁴ Mae dewisiadau dylunio cynhwysol a hygyrch yn rhan annatod o lythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio oherwydd eu bod yn sicrhau bod y rhai ag anghenion amrywiol yn gallu cael gafael ar wasanaethau a chael eu grymuso i ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn cynnwys plant, pobl anabl a phobl â llai o hyder digidol.⁴⁵⁴⁶

Mae llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio yn dod yn bwysicach fyth pan fydd plant yn debygol o ddefnyddio gwasanaeth. Mae plant yn rhyngweithio â gwasanaethau'n wahanol i oedolion ac yn aml nid oes ganddynt yr aeddfedrwydd gwybyddol i lywio drwy osodiadau preifatrwydd cymhleth neu nodweddion dylunio perswadiol.⁴⁷ Ac ni ddylid disgwyl iddynt wneud hynny ychwaith. Mae ein hymchwil i wasanaethau ar-lein yn dangos bod llawer ohonynt ddim yn trin cyfrifon plant yn wahanol i gyfrifon oedolion wrth gofrestru, gan golli cyfleoedd hollbwysig i roi mesurau diogelwch a phreifatrwydd sy'n briodol i oedran ar waith.⁴⁸

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi polisi ac ymarfer 'llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio'. Dylai hon fod yn ddogfen fyw sy'n datblygu mewn ymateb i anghenion defnyddwyr a newid technolegol. Rydym hefyd yn argymhell, lle mae plant yn debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth, bod darparwyr gwasanaethau yn blaenoriaethu dyluniad sy'n briodol i oedran ac sy'n pwysleisio

⁴³ CMA, 2022, [Evidence review of Online Choice Architecture and consumer and competition harm - GOV.UK](#)

⁴⁴ Er mwyn cyflawni nodau tebyg o safbwynt diogelu data, rydym yn argymhell edrych ar [ganllawiau tryloywder a chanllawiau diogelu data yn ôl dyluniad a chanllawiau diofyn](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

⁴⁵ Dylai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ystyried risgiau i ddefnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anableddau, wrth gynnal eu hasesiadau risg. Byddem yn disgwyl i ddarparwyr ystyried canfyddiadau eu hasesiad risg wrth ystyried sut mae cyflwyno gwybodaeth i ddefnyddwyr o'r fath am eu gwasanaeth. Edrychwch ar ddogfen Ofcom, [Protecting children from harms online](#), Cyfrol 3, Adran 8 i gael rhagor o fanylion.

⁴⁶ Dylai gwasanaethau ystyried eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall (er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb 2010), yn ogystal â safonau'r diwydiant ac arferion da i sicrhau bod eu gwasanaethau'n diwallu anghenion mynediad pobl anabl. Gweler, er enghraifft, 'Trosolwg WCAG 2', 2005. Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG), Consortiwm y We Fyd-Eang (W3C), Menter Hygyrchedd y We (WAI) W3C, Mawrth 2024. [Gweler dogfen Ofcom, 'Children's Risk Assessment Guidance', Cyfrol 3, Adran 8 i gael rhagor o fanylion].

⁴⁷ Mae Sefydliad 5Rights yn nodi tacsonomeg o'r strategaethau dylunio sy'n cael eu defnyddio amlaf i ddylanwadu ar ymddygiad ar gynnyrch a gwasanaethau sy'n boblogaidd ymysg plant. Ffynhonnell: 5Rights, 2023, [Disrupted Childhood: The cost of persuasive design.](#); Sefydliad 5Rights, 2023, [Digital Childhood: Addressing childhood development milestones in the digital environment.](#) Mae rhagor o wybodaeth am gamau ymddygiad plant yn yr adran Grwpiau oedran a argymhellir (Adran 7.15).

⁴⁸ Ofcom, 2025, [Behavioural Audit of Online Services.](#)

symlwrwydd, diogelwch ac eglurder mewn arferion cynnwys a data.⁴⁹ Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau allweddol megis gosodiadau preifatrwydd diofyn, iaith symlach, ac esboniadau clir o nodweddion sydd wedi'u teilwra i gynulleidfaedd iau a grwpiau agored i niwed eraill.⁵⁰ Mae'r camau oedran a datblygu a nodir yng *Nghyfrol 2 y datganiad ar amddiffyn plant rhag niwed ar-lein* yn nodi'r grwpiau canlynol: 0-5 oed fel rhai cyn ymwybyddiaeth ac ymwybyddiaeth gynnar; 6-9 oed fel blynyddoedd ysgol gynradd craidd; 10-12 oed fel blynyddoedd pontio; 13-15 oed fel pobl ifanc yn eu harddegau cynnar; ac 16-17 oed fel rhai sy'n nesáu at fod yn oedolion.⁵¹ Rhaid i wasanaethau hefyd ystyried eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Argymhelliad 2

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 2: Cynnig dewisiadau clir, ystyrlon a gwybodaeth dryloyw ar adegau allweddol ym mhrofiad y gwasanaeth

Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod y ffordd mae gwasanaethau ar-lein yn dylunio eu cynnwys ac yn cyflwyno dewisiadau i bobl yn siapio sut maen nhw'n ymateb.⁵² Mae llenyddiaeth yn dangos bod ymddygiad yn arbennig o agored i newid ar adegau allweddol yn nhaith y defnyddiwr, megis wrth gofrestru.⁵³ Er mwyn i bobl allu cymryd rheolaeth dros eu profiadau ar-lein a'r cynnwys maen nhw'n ei ddefnyddio, mae angen iddynt gael gwybodaeth glir am y cynnwys ar wasanaethau ar yr adegau allweddol hynny.

Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod llawer o lwyfannau ar-lein yn annog pobl i dderbyn gosodiadau diofyn wrth gofrestru, yn aml heb egluro'r goblygiadau'n glir.⁵⁴ Gall hyn arwain at ddryswch, oherwydd gallai pobl gytuno'n ddiarwybod i osodiadau sy'n effeithio ar eu preifatrwydd, ar rannu data, neu ar welededd cynnwys, heb ddeall y canlyniadau'n llawn.⁵⁵ Mewn rhai achosion, gall y dewisiadau diofyn hyn flaenoriaethu buddiannau platfformau dros ddewisiadau a rheolaeth pobl, gan ei gwneud hi'n anoddach i unigolion wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio neu sut mae cynnwys yn cael ei guradu ar eu cyfer. Mae ein gwaith ymchwil

⁴⁹ Mae Erthygl 25 GDPR y DU yn mynnu bod gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant yn ystyried materion diogelu data uwch plant. Gweler Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2020, [Age-appropriate design: a code of practice for online services](#); a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, [Data protection by design and by default](#).

⁵⁰ Er enghraifft: Ofcom, 2025, [Protecting children from harms online, Volume 4: What should services do to mitigate the risks of online harms to children](#), t.481. Mae Codau Ymarfer Ofcom ar Amddiffyn Plant yn argymhell bod rhai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio yn darparu deunyddiau cymorth i ddefnyddwyr sy'n briodol i'w hoedran ar gyfer plant ac yn sicrhau bod eu telerau gwasanaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn glir ac yn hygyrch.

⁵¹ Ofcom, 2024, [Protecting children from harms online: Volume 2 The causes and impacts of online harms to children](#)

⁵² CMA, 2022, [Online Choice Architecture: How digital design can harm competition and consumers](#).

⁵³ BIT, 2014, [EAST Framework: Four simple ways to apply behavioural insights](#).

⁵⁴ Ofcom, 2025, [Behavioural Audit of Online Services](#).

⁵⁵ CMA, 2022, [Online Choice Architecture: How digital design can harm competition and consumers](#). Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth mai gosodiadau diofyn yw un o'r offer mwyaf pwerus o ran pensaernïaeth dewis ar-lein. Mae opsiwn 27% yn fwy tebygol o gael ei ddewis pan fydd wedi'i osod ymlaen llaw.

hefyd yn dangos bod pobl yn tueddu i gadw at eu dewisiadau cychwynnol wrth gofrestru ar gyfer gwasanaeth, sy'n golygu bod hon yn foment hanfodol i hybu dewis wedi'i rymuso.⁵⁶

Mae wedi'i hen sefydlu bod llawer o wasanaethau yn defnyddio systemau argymell cynnwys. Mae systemau argymell yn dechnolegau sy'n curadu'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar wasanaethau ac yn ei wneud yn fwy personol. Fodd bynnag, nid yw'n glir o hyd i ba raddau y mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn deall sut mae'r systemau hyn yn gweithio, neu a ydynt yn teimlo bod ganddynt ddewisiadau ystyrlon neu fynediad at wybodaeth dryloyw amdanynt.

Gall y diffyg eglurder hwn wneud i bobl deimlo eu bod yn ddi-rym neu'n cael eu camddefnyddio, yn enwedig os nad ydynt yn gwybod sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio i siapio eu profiad ar-lein. Gall hefyd gyfrannu at ledaenu camwybodaeth, atgyfnerthu siambr atsain neu gyfyngu ar yr amrywiaeth o safbwyntiau mae pobl yn ei gweld.⁵⁷ Heb esboniadau clir, nid yw mor hawdd i bobl feddwl yn feirniadol am y cynnwys maen nhw'n ei weld, sy'n tanseilio llythrennedd yn y cyfryngau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Felly, rydym yn argymell bod darparwyr gwasanaethau yn rhoi gwybod yn glir i bobl, ar adegau allweddol yn ystod taith y defnyddiwr, megis wrth gofrestru neu greu proffil, am y mathau o gynnwys sydd ar gael ar y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw ddeunydd a allai fod yn sensitif), ac am y defnydd o systemau argymell. Dylai hyn gynnwys esboniadau clir o'r hyn mae'r systemau hyn yn ei wneud i'w helpu i ddeall eu dewisiadau a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Byddai modd gwneud hyn drwy, er enghraifft, eu telerau gwasanaeth, drwy ddarparu gwybodaeth gynefino glir, drwy gydsyniad a thryloywder, awgrymiadau/negeseuon atgoffa, neu adrannau cymorth a gosodiadau hygyrch ar y gwasanaeth. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hefyd ystyried eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Mae pobl yn gallu rheoli eu profiadau ar-lein yn well pan fyddant yn deall sut mae systemau argymell yn ymateb i'w hymddygiad a'u dewisiadau. Fodd bynnag, mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod dyluniad platfformau ar-lein weithiau'n gallu cyfyngu ar Llythrennedd yn y Cyfryngau, yn enwedig pan fydd diffyg tryloywder ynghylch sut mae canlyniadau'n cael eu sgorio neu sut mae systemau argymell yn gweithredu.⁵⁸ Er bod y system argymell y mae pob gwasanaeth yn ei defnyddio yn gallu amrywio, mae'n ddefnyddiol i ddarparwyr gwasanaethau helpu pobl i ddeall beth mae eu systemau penodol yn ei wneud a sut maen nhw'n gallu dylanwadu ar yr hyn maen nhw'n ei weld. Mae hyn yn cynnwys darparu esboniadau clir a hygyrch, a thynnu sylw at y dewisiadau sydd ar gael i bobl i ddylanwadu ar eu cynnwys personol a'i guradu.

⁵⁶ Ofcom, 2024, [Behavioural insights to empower social media users](#).

⁵⁷ Mae siambr atsain yn amgylchedd digidol personol sy'n cael ei greu pan fydd algorithm yn curadu cynnwys, lle mae defnyddwyr yn dod i gysylltiad yn bennaf â gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'u hymddygiad ar-lein blaenorol, gan gyfyngu o bosib ar weld safbwyntiau amrywiol.

⁵⁸ Ofcom, 2023, Adroddiad: [Exploring high media literacy among adults and children](#)

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn helpu defnyddwyr i ddeall yn well pam eu bod yn gweld cynnwys penodol yn eu ffrydiau, er enghraifft drwy egluro beth mae systemau argymhell yn ei wneud a sut gall pobl ddylanwadu arnynt.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.21 Dywedodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Internet Matters, Mencap, a Ad Association/Media Smart, fod niwed posibl o ran systemau argymhell a galwodd am ymyriadau o ran ymwybyddiaeth o algorithmau i hysbysu a grymuso defnyddwyr.⁵⁹
- 3.22 Dywedodd y Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth y dylai mwy o wybodaeth am algorithmau fod ar gael i ddefnyddwyr, ac os yw system argymhell wedi'i hoptimeiddio ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr, dylai darparwyr gwasanaethau fod yn glir gyda defnyddwyr am hyn.⁶⁰
- 3.23 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai'r argymhelliad hwn fod yn faich posibl ar wasanaethau, megis Impress, a ddywedodd y gallai olygu bod angen ailwampio technoleg yn sylweddol a gallai hyn cymryd amser hir. Dywedodd Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) y dylai Ofcom ddarparu cymorth i wasanaethau i addasu eu systemau er mwyn dilyn yr argymhelliad hwn, a dywedodd VoiceBox y dylid cael canllawiau dylunio penodol, megis crynodeb un dudalen sy'n defnyddio iaith glir ac elfennau gweledol.⁶¹
- 3.24 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r argymhelliad fynd ymhellach na thryloywder. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth, er gwaethaf ffocws yr argymhelliad ar dryloywder, y dylai hefyd fynnu tarddiad a metadata cryf ar gyfer cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artifisial a gwasanaethau chwilio.⁶² Dywedodd Internet Matters a Sefydliad Molly Rose y dylai Ofcom fynd ymhellach a mynnu bod gwasanaethau ar-lein yn ailosod eu ffrydiau algorithmig, fel mai dim ond cynnwys o gyfrifon mae defnyddwyr yn eu dilyn maen nhw'n ei weld. Dywedodd Parent Zone y dylai gwasanaethau gynnwys adegau pan fydd pethau'n arafu er mwyn rhoi gwybodaeth bwysig i'r defnyddiwr.⁶³ Dywedodd Dr Elinor Carmi y dylai pobl allu cael gafael ar yr union ddata sydd gan wasanaethau arlyn nhw a sut mae'n cael ei ddefnyddio.⁶⁴
- 3.25 Dywedodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (OSAN) a'r Middle Tech Coalition (MTC) fod gorgyffwrdd posibl rhwng yr argymhelliad hwn a dyletswyddau grymuso defnyddwyr y bydd yn rhaid i wasanaethau Categori 1 eu rhoi ar waith drwy'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.⁶⁵

Ein hymateb

- 3.26 Rydym wedi ychwanegu geiriad sy'n annog gwasanaethau i egluro, mewn ffyrdd hygyrch a phriodol i ddefnyddwyr, sut mae eu systemau argymhell yn gweithio; darparu offer tryloywder cyd-destunol amser real megis esboniadau "pam ydw i'n gweld hyn?" cryno; cynnig adnoddau ymwybyddiaeth o algorithmau dan arweiniad gwasanaeth, gan gynnwys fersiynau sy'n briodol i oedran ar gyfer defnyddwyr iau; a chydweithio ag arbenigwyr annibynnol i sicrhau bod deunyddiau addysgol yn gywir, yn ddiuedd ac yn effeithiol o ran ymddygiad. Bwriad yr ychwanegiadau hyn yw cefnogi llinell

⁵⁹ [Internet Matters](#) ymateb, t. 7; [Mencap](#) ymateb, t. 3; [Advertising Association/Media Smart](#) ymateb, t. 5

⁶⁰ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, t.3

⁶¹ [Sefydliad Ffilm Prydain \(BFI\)](#) ymateb, tt. 5-6; [VoiceBox](#) ymateb, t. 6

⁶² [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth](#), ymateb, t.3

⁶³ [Internet Matters](#), ymateb, t. 7; [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t. 8

⁶⁴ [Dr. Elinor Carmi, City St George's, Prifysgol Llundain](#), ymateb, t. 3

⁶⁵ [Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein \(OSAN\)](#), ymateb, tt. 3-4; Middle Tech Coalition (MTC), ymateb

sylfaen o ddealltwriaeth am algorithmau ymysg defnyddwyr, gan alluogi ymgysylltiad mwy gwybodus â ffrydiau personol.

- 3.27 O ran a ddylai'r argymhelliad fynd y tu hwnt i dryloywder, ym mharagraff 3.26 rydym yn dweud ein bod wedi ychwanegu mesurau sy'n annog gwasanaethau i egluro, mewn ffyrdd hygyrch a phriodol i ddefnyddwyr, sut mae eu systemau argymell yn gweithio; darparu offer tryloywder cyd-destunol amser real megis esboniadau "pam ydw i'n gweld hyn?" cryno; cynnig adnoddau ymwybyddiaeth o algorithmau dan arweiniad gwasanaeth, gan gynnwys fersiynau sy'n briodol i oedran ar gyfer defnyddwyr iau; a chydweithio ag arbenigwyr annibynnol i sicrhau bod deunyddiau addysgol yn gywir, yn ddiuedd ac yn effeithiol o ran ymddygiad. Bwriad hyn hefyd yw annog gwasanaethau i roi rhagor o gymorth a thryloywder i ddefnyddwyr mewn perthynas â ffrydiau personol mewn ffyrdd sy'n ystyrlon ac yn ymarferol yn ein barn ni. Fodd bynnag, gan nad yw'r argymhellion hyn yn rhwymol, nid ydym yn gallu gosod gofynion penodol ar wasanaethau sydd o fewn y cwmpas, fel y mae rhai rhanddeiliaid wedi gofyn amdano.
- 3.28 O ran baich posibl yr argymhelliad hwn ar ddarparwyr gwasanaethau, rydym wedi diweddarau geiriad Argymhelliad 2 i roi arweiniad cliriach ar sut y dylai'r rhai hynny sydd o fewn cwmpas yr argymhelliad roi gwybod i ddefnyddwyr am y defnydd o systemau argymell.
- 3.29 O ran pryderon am gysylltiadau i drefniadau rheoleiddio ehangach, bydd yn rhaid i rai gwasanaethau ar-lein gydymffurfio â gofynion ychwanegol os cânt eu dynodi'n "wasanaethau wedi'u categorio" o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Bydd gwasanaethau o'r fath o fewn cwmpas y *Cod Ymarfer Dyletswyddau Ychwanegol* sydd ar y gweill. Er enghraifft, bydd gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi'i ddynodi'n 'Categori 1' ddyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud â grymuso defnyddwyr. Bydd yr argymhelliad hwn yn ategu'r *Cod Ymarfer Dyletswyddau Ychwanegol* drwy argymell bod darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau pellach i gynnig dewisiadau clir ac ystyrlon a gwybodaeth dryloyw ar adegau allweddol yn y profiad gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r argymhelliad hwn yn rhagfarnu nac yn disodli'r dyletswyddau hynny yn y dyfodol. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i set ehangach o wasanaethau (y tu hwnt i'r rhai hynny sydd wedi'u dynodi'n Categori 1 o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein) fabwysiadu'r argymhellion. Rydym hefyd wedi ychwanegu pwynt o eglurhad, gan nodi bod yr argymhelliad hwn yn adeiladu ar fesurau diogelwch a argymhellir gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i sicrhau nad yw systemau argymell yn gwthio cynnwys niweidiol ar blant.⁶⁶
- 3.30 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chyrrff rheoleiddio eraill, gan gynnwys y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DCRF) sy'n cynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), sy'n helpu i ystyried y ffordd orau i'n dulliau rheoleiddio weithio gyda'i gilydd. Drwy ein partneriaeth Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, rydym wedi ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn benodol i egluro cyfeiriadau at reoleiddio diogelu data drwy gydol y Datganiad hwn.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.31 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan rhanddeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

⁶⁶ Ofcom, 2025, [Cod Ymarfer Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr](#) (PCU E1 a E2).

Argymhelliad Terfynol 2: Cynnig dewisiadau clir, ystyrlon a gwybodaeth dryloyw ar adegau allweddol ym mhrofiad y gwasanaeth

Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod y ffordd mae gwasanaethau ar-lein yn dylunio eu cynnwys ac yn cyflwyno dewisiadau i bobl yn siapio sut maen nhw'n ymateb.⁶⁷ Mae llenyddiaeth yn dangos bod defnyddwyr yn arbennig o agored i addasu eu gosodiadau ar adegau allweddol yn nhaith y defnyddiwr, megis wrth gofrestru.⁶⁸ Er mwyn i bobl allu rheoli eu profiadau ar-lein a'r cynnwys maen nhw'n ei weld ar yr adegau allweddol hynny.

Mae ein hymchwil wedi dangos bod gosodiadau diofyn yn cael eu defnyddio'n eang gan wasanaethau.⁶⁹ Mae rhagosodiadau'n cynyddu'r tebygolrwydd o'u dewis pan fydd opsiwn wedi'i osod ymlaen llaw a gall pobl gytuno'n ddarwybod i osodiadau sy'n effeithio ar eu preifatrwydd, ar rannu data, neu ar welededd cynnwys, heb ddeall y canlyniadau'n llawn.⁷⁰ Gall y dewisiadau diofyn hyn flaenoriaethu buddiannau gwasanaethau ar-lein dros ddewisiadau a rheolaeth pobl, gan ei gwneud hi'n anoddach i unigolion wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio neu sut mae cynnwys yn cael ei guradu ar eu cyfer. Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod pobl yn tueddu i gadw at eu dewisiadau cychwynnol wrth gofrestru ar gyfer gwasanaeth, sy'n golygu bod hon yn foment hanfodol i hybu dewis wedi'i rymuso.⁷¹

Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau yn defnyddio systemau argymell cynnwys. Defnyddir systemau argymell cynnwys i greu ffrydiau cynnwys personol ar wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'n glir o hyd i ba raddau y mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn deall sut mae'r systemau hyn yn gweithio, neu a ydynt yn teimlo bod ganddynt ddewisi ynghylch y cynnwys maen nhw'n ei weld.

Gall y diffyg eglurder hwn wneud i bobl deimlo eu bod yn ddi-rym neu'n cael eu camdefnyddio, yn enwedig os nad ydynt yn gwybod sut mae eu data a'u hymddygiad yn cael ei ddefnyddio i siapio eu profiad ar-lein. Gall hefyd gyfrannu at ledaenu camwybodaeth, atgyfnerthu siambr atsain neu gyfyngu ar yr amrywiaeth o safbwyntiau mae pobl yn ei gweld.⁷² Heb esboniadau clir, nid yw mor hawdd i bobl feddwl yn feirniadol am y cynnwys maen nhw'n ei weld, sy'n tanseilio gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac llythrennedd yn y cyfryngau.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod dyluniad gwasanaethau ar-lein weithiau'n gallu cyfyngu ar llythrennedd yn y cyfryngau, yn enwedig pan fydd diffyg tryloywder ynghylch

⁶⁷ CMA, 2022, [Online Choice Architecture: How digital design can harm competition and consumers](#).

⁶⁸ BIT, 2014, [EAST Framework: Four simple ways to apply behavioural insights](#).

⁶⁹ Ofcom, 2025, [Behavioural Audit of Online Services](#).

⁷⁰ CMA, 2022, [Online Choice Architecture: How digital design can harm competition and consumers](#). Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth mai gosodiadau diofyn yw un o'r offer mwyaf pwerus o ran pensaernïaeth dewis ar-lein. Mae opsiwn 27% yn fwy tebygol o gael ei ddewis pan fydd wedi'i osod ymlaen llaw.

⁷¹ Ofcom, 2024, [Behavioural insights to empower social media users](#).

⁷² Mae siambr atsain yn amgylchedd digidol personol sy'n cael ei greu pan fydd algorithm yn curadu cynnwys, lle mae defnyddwyr yn dod i gysylltiad yn bennaf â gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'u hymddygiad ar-lein blaenorol, gan gyfyngu o bosib ar weld safbwyntiau amrywiol.

sut mae canlyniadau'n cael eu sgorio neu sut mae systemau argymell yn gweithredu.⁷³ Er bod y system argymell y mae pob gwasanaeth yn ei defnyddio yn gallu amrywio, gallai darparwyr gwasanaethau helpu pobl i ddeall beth mae eu systemau penodol yn ei wneud a sut maen nhw'n gallu dylanwadu ar yr hyn maen nhw'n ei weld. Mae hyn yn cynnwys darparu esboniadau clir a hygyrch, a thynnu sylw at y dewisiadau sydd ar gael i bobl i ddylanwadu ar eu cynnwys personol a'i guradu.

Rydym yn argymell bod darparwyr gwasanaethau yn rhoi gwybod yn glir i bobl ar adegau allweddol yn ystod taith y defnyddiwr, megis wrth gofrestru neu greu proffil, am y defnydd o systemau argymell cynnwys a sut mae cynnwys yn cael ei argymell iddynt.

Dylai hyn gynnwys esboniadau clir o'r hyn mae'r systemau hyn yn ei wneud i'w helpu i ddeall eu dewisiadau a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Byddai modd gwneud hyn drwy, er enghraifft, eu telerau gwasanaeth, drwy ddarparu gwybodaeth gynefino glir, drwy gydsyniad a thryloywder, awgrymiadau/negeseuon atgoffa, neu adrannau cymorth a gosodiadau hygyrch ar y gwasanaeth. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau hefyd ystyried eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall, gan fod hyn yn adeiladu ar ddisgwyliadau i sicrhau nad yw systemau argymell yn gwthio cynnwys niweidiol ar blant.⁷⁴ Ar ben hynny, os bydd datblygiadau deddfwriaethol yn y dyfodol yn cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar ddefnyddio systemau argymell, bydd darpariaethau o'r fath yn cael blaenoriaeth dros yr argymhellion a nodir yn y cyhoeddiad hwn.

Rydym yn argymell bod darparwyr gwasanaethau yn defnyddio'r manylion yn Ffigur 2 i helpu defnyddwyr i ddeall yn well pam eu bod yn gweld cynnwys penodol yn eu ffrydiau ac i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

⁷³ Ofcom, 2023, [Adroddiad: Exploring high media literacy among adults and children](#)

⁷⁴ Ofcom, 2025 [Ymgynghoriad: Diogelwch Ar-lein - Mesurau Diogelwch Ychwanegol](#)

Ffigur 2: Argymhellion tryloywder pellach

<p>Darparwch esboniadau clir a hygyrch o sut mae systemau argymell yn gweithio</p>	<p>Cynigiwch offer tryloywder amser real sy'n darparu gwybodaeth gyd-destunol ar adeg y rhyngweithio</p>	<p>Darparwch adnoddau ymwybyddiaeth o algorithmau dan arweiniad gwasanaeth</p>	<p>Cydweithiwch ag arbenigwyr annibynnol i sicrhau cymorth ymwybyddiaeth sy'n ddiuedd ac o ansawdd uchel</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddiwch iaith glir, esboniadau sy'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ac sy'n osgoi jargon technegol • Defnyddiwch esboniadau gweledol neu ryngweithiol sy'n dangos sut mae signalau gwahanol (e.e. ymgysylltu, yr hyn sy'n cael ei ddilyn, amser gwyllo) yn dylanwadu ar argymhellion • Cynigiwch strwythur gwybodaeth "haenog", gydag esboniadau syml ymlaen llaw a gwybodaeth fanylach i'r rhai hynny sydd ei heisiau 	<ul style="list-style-type: none"> • Dylech gynnwys negeseuon annog "pam ydw i'n gweld hyn?" gydag esboniadau cryno ac ystyrlon • Dangoswch pa ymddygiadau neu ryngweithio yn y gorffennol a gyfrannodd at yr argymhellion • Gwahaniaethwch yn glir rhwng cynnwys a argymhellir a chynnwys sy'n ymddangos oherwydd yr hyn sy'n cael ei ddilyn, tanysgrifiadau neu gysylltiadau rhwydwaith 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynigiwch ddeunyddiau gwybodaeth clir sy'n egluro sut mae ffrydiau argymell yn gweithio, y risgiau posibl y gallent eu hachosi a sut gall defnyddwyr lywio a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn effeithiol • Darparwch fersiynau o'r rhain sy'n briodol i oedran ar gyfer gwahanol grwpiau defnyddwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltwch â gwyddonwyr ymddygiad, arbenigwyr ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac arbenigwyr eraill i gryfhau cywirdeb, perthnasedd ac effeithiolrwydd ymryiadau gwybodaeth

Ar Rymuso Pobl Wrth Ddefnyddio

- 3.32 Nod Argymhellion 3 i 6 yw grymuso pobl wrth iddynt ymgysylltu'n weithredol â chynnwys a nodweddion. Drwy fabwysiadu'r argymhellion hyn, bydd gwasanaethau'n helpu i sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth, y sgiliau, yr offer, yr hyder a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu cynnwys a'u defnydd o gyfryngau, a'u rhyngweithiadau ar-lein, yn effeithiol, dim ots pa wasanaeth maen nhw'n ei ddefnyddio.

Argymhelliad 3

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 3: Rhoi offer ymarferol i bobl er mwyn rheoli ac addasu eu profiadau ar-lein

Mae offer rheoli cynnwys yn un categori o adnoddau sydd ar gael i helpu pobl i siapio eu profiadau ar wasanaethau. Mae offer eraill yn cynnwys anogwyr amser o flaen sgrin, nodweddion sy'n tynnu sylw at dôn sylwadau neu'n cwestiynu cywirdeb gwybodaeth, a thechnolegau newydd sy'n dangos bod cynnwys wedi cael ei gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial. Gyda'i gilydd, gall yr adnoddau hyn chwarae rhan ystyrlon yn y gwaith o wella llythrennedd yn y cyfryngau a chefnogi ymgysylltu mwy gwybodus.

Mae ymgysylltu â chynnwys yn chwarae rôl werthfawr ym mywydau pobl, ond mae llawer o wasanaethau wedi'u cynllunio i gynyddu'r ymgysylltu cymaint â phosib, gan gadw pobl ar-lein yn aml yn hirach nag oedden nhw wedi'i fwriadu. Roedd yr amser ar ddyfeisiau ffrydio wedi dyblu yn ystod y pandemig ac mae ymchwil Ofcom yn dangos bod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ymysg plant 3 i 5 oed wedi cynyddu'n sylweddol – wedi'i sbarduno gan amrywiaeth o lwyfannau – gan godi o 29% y llynedd i 37%.⁷⁵ ⁷⁶ Er bod yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn gallu creu llawer o fanteision ac yn fater amlochrog, mae nodweddion fel awto-chwarae, sgrolio diddiwedd, a ffrydiau cynnwys personol yn gallu gwneud i bobl dreulio mwy o amser ar-lein nag y maen nhw'n dymuno, sy'n gallu golygu bod pobl, ac yn enwedig plant, yn teimlo'n ddi-rym wrth ddefnyddio plattfformau.

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae ymchwil ymddygiad gan Ofcom wedi canfod bod gosodiadau diofyn yn gallu "glynu", sy'n golygu, hyd yn oed pan ofynnir iddynt, mai ychydig o bobl sy'n newid o'r gosodiadau rheoli cynnwys diofyn.⁷⁷ Ar gyfer plant, gall hyn fod yn fuddiol, gan helpu i'w cadw mewn mannau mwy diogel gyda phreifatrwydd uwch. Fodd bynnag, mae ymchwil ymysg plant sydd ag llythrennedd yn y cyfryngau uchel hefyd yn dangos bod rhai, yn enwedig mewn cyd-destunau gemau, yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i osodiadau cyfrif a'u haddasu.⁷⁸ Gall hyn atal pobl, yn enwedig plant, rhag rheoli eu profiadau ar-lein yn effeithiol.

⁷⁵ Ofcom, 2020, [Y cyfnod clo yn arwain at gynydd mawr yn yr amser o flaen sgrin teledu a ffrydio.](#)

⁷⁶ Ofcom, 2025, [Y prif dueddiadau o'n cipolwg diweddaraf ar y cyfryngau ym mywydau pobl yn y DU.](#)

⁷⁷ Ofcom, 2024, [Behavioural insights to empower social media users.](#)

⁷⁸ Ofcom, 2024, [Exploring high media literacy among children aged 8-12](#)

Gan nad yw pobl yn debygol o addasu eu gosodiadau'n organig, rydym felly'n argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n darparu offer syml a hygyrch i bobl allu rheoli eu profiadau wrth ddefnyddio. I gefnogi dewisiadau diogel a gwybodus, dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau ei bod hi'n hawdd diffodd gosodiadau diofyn – ond hefyd eu galluogi eto – a dylent annog neu atgoffa defnyddwyr, yn enwedig plant, o'r opsiwn i ail-alluogi gosodiadau diofyn amddiffynnol. Dylai platfformau ar-lein ei gwneud hi'n hawdd i bobl ddod o hyd i'r gosodiadau hyn a'u haddasu drwy ddarparu camau clir a syml sy'n lleihau ffrithiant, ac osgoi offer cymhleth neu gudd. **Rydym yn argymhell bod offer rheoli amser yn cael eu gwneud yn fwy gweladwy a hygyrch er mwyn i bobl allu rheoli eu hamser mewn ffyrdd sy'n addas i'w hanghenion.** Mae enghreifftiau o sut gallai darparwyr gwasanaethau wella gwelededd a hygyrchedd offer rheoli amser yn cynnwys eu galluogi'n ddiiofyn, annog defnyddwyr ar adegau allweddol, eu gwneud yn haws eu defnyddio, a darparu canllawiau clir a hygyrch.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.33 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o blaid arfogi pobl ag offer ymarferol, yn enwedig drwy eu galluogi i osod eu gosodiadau preifatrwydd eu hunain er mwyn rheoli eu cysylltiad â chynnwys a nodweddion. Dywedodd rhanddeiliaid megis y Cyngor ar gyfer Gwrthweithio Twyllwbyodaeth Ar-lein (CCOD), VoiceBox a Pinterest fod ffocws ar offer rheoli cynnwys, anogwyr amser o flaen sgrin, ac offer syml a hygyrch yn cael ei groesawu.⁷⁹
- 3.34 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod gosodiadau rheoli diofyn ac offer hygyrch ac addasadwy yn bwysig. Dywedodd Sefydliad Good Things ei bod hi'n bwysig fod diogelwch a diogeled yn ddiiofyn, gan sicrhau hefyd fod offer yn weladwy i bobl er mwyn iddynt allu rheoli eu hamser o flaen sgrin yn effeithiol.⁸⁰ Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai fod yn hawdd dod o hyd i, a defnyddio, adnoddau ar gyfer rheoli amser, ac y dylent fod yn hawdd eu haddasu.⁸¹ Dywedodd Mencap y dylid sefydlu dewisiadau defnyddiwr wrth gofrestru ac y dylid dylunio systemau i fod yn hygyrch yn ddiiofyn.⁸²
- 3.35 Dywedodd rhanddeiliaid y dylai argymhellion gryfhau ac ychwanegu rhagor o fanylion at adnoddau rheoli amser a rheolaethau rhieni. Darparodd yr Advertising Association/Media Smart enghreifftiau o sut i gryfhau argymhellion sy'n ymwneud ag offer rheoli amser, megis ffrithiant sy'n briodol i oedran, gwahaniaeth cliriach rhwng defnydd gweithredol a goddefol a gosodiadau sy'n mynd i batrymau dylunio llai caeth ar gyfer cyfrifon plant yn ddiiofyn.⁸³ Dywedodd Internet Matters y dylem fynd ati'n weithredol i annog plant i beidio â gallu defnyddio gwasanaeth heb gofrestru, gan fod hyn yn diystyru rheolaethau rhieni. Dywedon nhw mai dim ond mewn amgylcheddau dilys sy'n gysylltiedig â defnyddwyr y dylai rheolaethau rhieni weithio.⁸⁴

⁷⁹ [Cyngor ar gyfer Gwrthweithio Twyllwbyodaeth Ar-lein](#), ymateb, t. 2; [VoiceBox](#), ymateb, t. 6; [Pinterest](#), ymateb, t. 4

⁸⁰ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t. 4

⁸¹ Ymateb Llywodraeth Cymru

⁸² [Mencap](#), ymateb, t. 2

⁸³ [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, tt. 3-4

⁸⁴ [Internet Matters](#), ymateb, t. 8

- 3.36 Dywedodd nifer o randdeiliaid y dylid safoni adnoddau. Dywedodd Parent Zone a VoiceBox eu bod yn poeni am y nifer uchel o offer a'r gorlwytho gwybyddol y gall diffyg safoni ei greu.⁸⁵⁸⁶ Dywedodd Sefydliad Good Things y dylid cael mwy o gysondeb wrth osod rheolaethau, iaith a therminoleg ar draws gwasanaethau.⁸⁷
- 3.37 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai Ofcom fynd ymhellach i sefydlu arferion gorau. Dywedodd Sefydliad Molly Rose y dylai unrhyw arfer gorau ganolbwyntio ar y canlyniadau a fwriedir ar gyfer defnyddwyr.⁸⁸ Hefyd, dywedodd Internet Matters y dylai'r argymhellion cynnwys adran benodol ar y mathau o offer a lleoliadau y dylai'r rhai hynny sydd o fewn cwmpas yr argymhelliad eu darparu i rieni a gofalwyr ac amlinellu'r arferion gorau wrth ddylunio a gweithredu rheolaethau rhieni.⁸⁹ Dywedodd Dr Craig Haslop, Prifysgol Lerpwl, y dylai'r rhai hynny sydd o fewn cwmpas yr argymhelliad hybu systemau adrodd effeithiol, er enghraifft drwy ymgyrchoedd hybu sydd wedi'u targedu at bobl ifanc i'w helpu i ddeall beth y gallant roi gwybod amdano a sut.⁹⁰
- 3.38 Dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod yn poeni bod Argymhelliad 3 yn ofyniad gorfodol. Dywedodd S4C nad oeddent yn bwriadu rhoi adnoddau rheoli amser ar waith ar eu gwasanaeth fideo ar-alw oherwydd bod cynnwys Cymraeg yn adnodd gwasanaeth cyhoeddus unigryw.⁹¹ Hefyd, dywedodd Pinterest eu bod yn erbyn disgwyliadau gorfodol.⁹² Fodd bynnag, dywedodd Pinterest eu bod yn poeni am ddisgwyliadau rhy ragnodol ac y dylai'r argymhellion ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau ddod o hyd i atebion sy'n gweithio orau ar gyfer y risgiau a gyflwynir ar eu gwasanaeth.⁹³
- 3.39 Dywedodd Parent Zone eu bod yn erbyn defnyddio termau fel 'addasu eu profiadau ar-lein i'w gwneud yn fwy personol' oherwydd bod gwasanaethau ar-lein yn defnyddio algorithmau argymell.⁹⁴ Dywedodd Internet Matters y dylai Argymhelliad 3 ymgorffori canfyddiadau a mesurau sy'n gysylltiedig â'r Codau Amddiffyn Plant oherwydd y bwriad i flaenoriaethu rheolaethau rhieni i'w hystyried ymhellach.⁹⁵

Ein hymateb

- 3.40 Rydym yn cytuno â rhai rhanddeiliaid fod gosodiadau rheoli diofyn ac offer hygyrch ac addasadwy yn bwysig. Mae'r argymhelliad drafft yn rhoi pwyslais ar hyn ac yn rhoi enghreifftiau o sut gall offer rheoli amser fod yn weladwy ac yn hygyrch, sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau.
- 3.41 O ran cais rhanddeiliaid am fwy o fanylion yn yr argymhellion ynghylch adnoddau rheoli amser, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i Ofcom argymell offer penodol na rhai sydd wedi'u safoni. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal ymchwil ansoddol ar *Ddylunio Perswadiol ac Amser Ar-lein*.⁹⁶ Mae'r ymchwil hon yn rhoi cipolwg ar sut gall nodweddion dylunio perswadiol gadw plant ar-lein yn hirach nag yr hoffent. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys atebion i'r pryderon hyn sydd wedi cael eu

⁸⁵ [Parent Zone](#), ymateb, t. 8

⁸⁶ [VoiceBox](#), ymateb, t. 6-7

⁸⁷ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t. 4

⁸⁸ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t. 9

⁸⁹ [Internet Matters](#), ymateb, t. 8

⁹⁰ [Dr Craig Haslop, Prifysgol Lerpwl](#), ymateb, t. 4

⁹¹ [S4C](#), ymateb, t.3

⁹² [Pinterest](#), ymateb, t. 4

⁹³ [Pinterest](#), ymateb, t. 4

⁹⁴ [Parent Zone](#), ymateb, t. 8

⁹⁵ [Internet Matters](#), ymateb, t. 8

⁹⁶ Ofcom, 2026, [Exploring the relationship between persuasive design on online platforms, and the time that children spend on them](#)

hawgrymu gan rieni a phlant a bydd Ofcom yn cyflwyno'r ymchwil hwn i wasanaethau i drafod ei oblygiadau o ran dylunio gwasanaethau.

- 3.42 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod potensial i ddefnyddwyr wynebu heriau pan fyddant yn ymgysylltu â nifer o wahanol adnoddau ar draws gwahanol wasanaethau. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 3.41, nid ydym yn ceisio safoni er mwyn parhau i fod yn gyson â'n hymrwymiad i annog profi, arloesi a chreadigrwydd mewn dulliau dylunio; mae hyn yn caniatáu lle i ddiogelu ac addasu'r argymhellion a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol wrth i anghenion defnyddwyr newid.⁹⁷ Felly, nid ydym wedi diwygio'r argymhellion ynghylch safoni offer.
- 3.43 Rydym yn cydnabod yr hoffai rhanddeiliaid i'r ddogfen hon fynd ymhellach i gynnwys arferion gorau. Fel y nodir ym mharagraff 3.14, nid ydym o' farn ei bod yn briodol i safoni er mwyn parhau i fod yn gyson â'n hymrwymiad i annog profi, arloesi a chreadigrwydd mewn dulliau dylunio; mae hyn yn caniatáu lle i ddiogelu ac addasu'r argymhellion a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol wrth i anghenion defnyddwyr newid. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ei bod yn bwysig sefydlu arferion gorau. Mae nifer o wasanaethau ar-lein wedi addo mabwysiadu'r *Egwyddorion Arferion Gorau* sydd gennym ac sy'n cynnwys gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, chwilio a gemau, ac rydym yn gwahodd gwasanaethau ar-lein eraill i fabwysiadu'r rhain. Ar ben hynny, fel rhan o'n hadolygiad o'r argymhellion hyn mewn tair blynedd, byddwn yn adrodd ar sut mae rhanddeiliaid wedi'u mabwysiadu, a allai hyn helpu i dynnu sylw at arferion gorau.
- 3.44 Roedd nifer o randdeiliaid yn poeni nad yw'r argymhellion yn orfodol. Fodd bynnag, nid yw Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn grymuso Ofcom i orfodi'r Argymhellion ar Lythrennedd yn y Cyfryngau.
- 3.45 Rydym yn cydnabod pryderon y gallai geiriad fel "addasu eu profiadau ar-lein i'w gwneud yn fwy personol" gael ei gamddeall fel cyfeirio at "bersonoli" ar-lein sy'n cael ei yrru gan wasanaethau, gan gynnwys defnyddio algorithmau argymell. Yn ein hargymhellion, rydym yn defnyddio "gwneud yn fwy personol" i ddisgrifio rheolaethau a gosodiadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr (er enghraifft, rheoli dewisiadau, gosodiadau preifatrwydd a diogelwch, a rheolaethau cynnwys), yn hytrach na chyfeirio at y ffordd y gall curadu algorithmig gan wasanaethau gwneud cynnwys yn fwy personol i ddefnyddwyr. Wrth gyfeirio at yr ail beth, rydym yn gwneud yn siŵr ei bod yn glir drwy gyfeirio at systemau argymell, ac rydym wedi cadw'r geiriad hwn yn yr argymhellion terfynol. Rydym yn cydnabod bod yr argymhellion, gan gynnwys ein hargymhellion ynghylch rheolaethau rhieni, yn ategu'r mesurau yn y *Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant*. Rydym wedi cyfeirio at y Codau mewn perthynas ag Argymhelliad 5, sy'n cael ei drafod ym mharagraff 3.87, gan fod yr argymhelliad yn edrych ar reolaethau rhieni mewn mwy o fanylder.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.46 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

⁹⁷ Yn yr un modd, yng nghanllawiau Ofcom ar [amddiffyn plant rhag niwed ar-lein](#), wrth ymateb i adborth i safoni'r broses o ddarparu gwybodaeth am gymorth i blant, roeddent yn egluro nad yw'n briodol i Ofcom argymell dull gweithredu sydd wedi'i safoni oherwydd diffyg tystiolaeth o un dull arfer gorau a bod gwasanaethau mewn sefyllfa well i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno gwybodaeth am eu gwasanaeth, t. 490, Ofcom

Argymhelliad Terfynol 3: Rhoi offer ymarferol i bobl er mwyn rheoli ac addasu eu profiadau ar-lein

Mae offer rheoli cynnwys yn un categori o adnoddau sydd ar gael i helpu pobl i siapio eu profiadau ar wasanaethau. Mae offer eraill yn cynnwys anogwyr amser o flaen sgrin, nodweddion sy'n tynnu sylw at dôn sylwadau neu'n cwestiynu cywirdeb gwybodaeth, a thechnolegau newydd sy'n dangos bod cynnwys wedi cael ei gynhyrchu gan ddeallusrwydd artifffisial.

Gyda'i gilydd, gall yr offer hyn chwarae rhan ystyrllon yn y gwaith o wella ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r cyfryngau. Er enghraifft, gall offer rheoli amser helpu defnyddwyr i lywio drwy wasanaethau sydd wedi'u dylunio i gynyddu ymgysylltiad sy'n cadw pobl ar-lein yn hirach nag y maent yn bwriadu.⁹⁸ Mae gwaith ymchwil Ofcom yn dangos bod nodweddion fel awto-chwarae, sgrolio diddiwedd, a ffrydiau cynnwys personol yn gallu gwneud i bobl dreulio mwy o amser ar-lein nag y maen nhw'n dymuno, sy'n gallu golygu bod pobl, ac yn enwedig plant, yn teimlo'n ddi-rym wrth ddefnyddio gwasanaethau.⁹⁹ Ar ben hynny, mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol hyd yn oed ymysg plant mor ifanc â 3 i 5 oed wedi gweld cynnydd sylweddol - wedi'i sbarduno gan amrywiaeth o wasanaethau - i fyny o 29% (2024) i 37% (2025).^{100 101}

Mae ymchwil ymddygiadol gan Ofcom wedi canfod bod gosodiadau diofyn yn gallu "glynu", sy'n golygu, hyd yn oed pan ofynnir iddynt, mai ychydig o bobl sy'n newid o'r gosodiadau rheoli cynnwys diofyn.¹⁰²

Gan nad yw pobl yn debygol o addasu eu gosodiadau, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n darparu offer syml a hygyrch sy'n galluogi pobl i reoli eu profiadau wrth ddefnyddio.

Argymhelliad 4

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 4: Rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i bobl er mwyn deall, dehongli ac asesu'n feirniadol hygrededd y cynnwys maen nhw'n ei weld

Er bod llawer o offer eisoes ar gael i helpu pobl i reoli eu profiadau ar-lein, mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhain yn dal yn isel.¹⁰³ Heb yr hyder, y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol, ni

⁹⁸ Er nad yw ffrydwyr a PSBs fel arfer yn monetiddio amser ymgysylltu (dwell time) yn yr un modd â phlatfformau ar-lein sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion, mae ymgysylltu'n bwysig o hyd o safbwynt economaidd a strategol, gan gefnogi cadw cynulleidfaoedd, cyrhaeddiad, gwerth hysbysebu (ar gyfer rhai gwasanaethau), a darparu gwerth cyhoeddus. O ganlyniad, mae llawer o wasanaethau fideo ar-alw sy'n ffrydio ac yn darlledu yn dal i gael eu dylunio mewn ffyrdd sy'n annog ymgysylltu am gyfnod hir.

⁹⁹ Ofcom, 2026, [Exploring the relationship between persuasive design on online platforms, and the time that children spend on them](#).

¹⁰⁰ Ofcom, 2020, [Y cyfnod clo yn arwain at gynydd mawr yn yr amser o flaen sgrin teledu a ffrydio](#).

¹⁰¹ Ofcom, 2025, [Y prif dueddiadau o'n cipolwg diweddaraf ar y cyfryngau ym mywydau pobl yn y DU](#).

¹⁰² Ofcom, 2024, [Behavioural insights to empower social media users](#).

¹⁰³ Ofcom, 2024, [Behavioural insights to empower social media users](#). Mae'r adroddiad yn dangos mai dim ond 26% o bobl sy'n dweud eu bod wedi defnyddio rheolaethau cynnwys y mae plattfformau cyfryngau cymdeithasol yn eu cynnig.

fydd pobl yn cael eu grymuso i'w defnyddio ac mae perygl y bydd yr offer hyn yn mynd yn fwy a mwy diangen.

Roedd archwiliad ymddygiadol Ofcom yn asesu'n systematig sut roedd nodweddion dylunio ar draws chwe gwasanaeth poblogaidd, gan gynnwys un VSP, yn dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar brosesau cofrestru, offer rheoli amser, rheolaethau teimladau a mecanweithiau adrodd. Canfu fod y rhan fwyaf o lwyfannau ar-lein sy'n cael eu harchwilio yn cynnig offer i reoli'r cynnwys mae defnyddwyr yn ei weld yn eu ffrydiau, fel cuddio, rhwystro, ddim yn hoffi neu dewi, ond ei bod hi'n aml yn anodd dod o hyd i'r rhain neu'n anodd eu defnyddio. Mae offer fel rhwystro ac adrodd yn hanfodol i ddiogelwch defnyddwyr, ond gall dyluniad gwael danseilio eu heffeithiolrwydd. Mae offer cryfach, fel rhwystro neu adrodd, yn aml yn gofyn am nifer o gamau, sy'n gallu atal pobl rhag eu defnyddio.¹⁰⁴ Ar ben hynny, gall systemau aneglur neu sydd wedi'u cynllunio'n wael, fel polisiâu sancsiynau defnyddwyr amwys neu opsiynau rhwystro dryslyd, gynyddu'r risg o niwed drwy wneud defnyddwyr yn ansicr ynghylch sut i ddiogelu eu hunain.¹⁰⁵

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaeth yn mynd ati i helpu defnyddwyr i ddefnyddio'r offer maen nhw wedi'u datblygu, a hynny gyda'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys gwneud offer yn fwy greddfoll a hygyrch, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'u bodolaeth a darparu canllawiau clir ar sut i'w defnyddio'n effeithiol. Gall darparwyr gwasanaethau wneud hyn drwy leihau'r camau i gael gafael ar offer a drwy ddefnyddio anogwyr gweledol ac iaith syml i gynyddu hyder defnyddwyr.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd mabwysiadu deallusrwydd artiffisial yn y brif ffrwd a phresenoldeb cynyddol cynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial yn ei gwneud hi'n anoddach byth i bobl ddeall a rheoli'r hyn maen nhw'n ei weld ar-lein. Mae papur trafod Ofcom ar ffugiadau dwfn yn tynnu sylw at y ffaith y gall technolegau fel dyfrnodau a metadata helpu defnyddwyr i adnabod a dehongli cyfryngau synthetig yn fwy cywir.¹⁰⁶ Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n darparu cyd-destun ystyrion am gynnwys a'i ffynonellau, gan ddefnyddio offer fel dyfrnodau, metadata a labeli deallusrwydd artiffisial, i helpu pobl i ddehongli'n wybodus a meithrin ymddiriedaeth. Dylai darparwyr gwasanaethau roi nifer o'r offer hyn ar waith, yn hytrach na dibynnu ar un yn unig, a dylent barhau i fuddsoddi mewn ymchwil a safoni i wella sut mae cyd-destun yn cael ei ddarparu. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod gan rai darparwyr gwasanaethau fynediad cyfyngedig at fathau penodol o gyd-destun (e.e. metadata), dylent ymdrechu serch hynny i gynnig gwybodaeth ystyrion lle bynnag y bo modd i gynyddu dealltwriaeth defnyddwyr.

Yn y pen draw, mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau meddwl yn feirniadol sydd eu hangen i lywio drwy dirwedd ddigidol gymhleth yr oes sydd ohoni. Mater iddyn nhw fydd sut maen nhw'n grymuso eu defnyddwyr a'u

¹⁰⁴ Ofcom, 2025, [Behavioural Audit of Online Services](#).

¹⁰⁵ Thorn, 2021, [Responding to online threats: minors' perspectives on disclosing, reporting and blocking](#).

¹⁰⁶ Ofcom, 2024, [Deepfake Defences: Mitigating the Harms of Deceptive Deepfakes](#)

cynulleidfaoedd. Bydd hyn o reidrwydd yn cynnwys cyfuniad o ddylunio, offer, lleoli a buddsoddi mewn datblygu sgiliau. O'i wneud yn dda, mae hyn nid yn unig yn grymuso unigolion ond hefyd yn cyfrannu at amgylchedd digidol mwy cadarn, gwybodus a diogel.¹⁰⁷

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.47 Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi Argymhelliad 4 a grymuso defnyddwyr. Roedd Sefydliad Good Things, Google, S4C a VoiceBox i gyd yn cefnogi'r argymhelliad, a nododd VoiceBox fod mynd ati'n rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o argaeledd offer a'r defnydd ohonynt yn gam hanfodol ymlaen.¹⁰⁸
- 3.48 Tynnodd rhanddeiliaid sylw at gyfyngiadau o ran ymddygiad a'r angen i ystyried grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur wrth ddylunio offer. Dywedodd y Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth fod pobl, gan gynnwys plant, yn aml yn osgoi rhwystro eraill am eu bod yn poeni am y canlyniadau. Roeddent yn awgrymu y dylai gwasanaethau ystyried deinameg gymdeithasol, fel gwneud rhwystro'n llai gweladwy i'r sawl sy'n cael ei rwystro neu gynnig ffyrdd eraill o israddio neu guddio cynnwys yn dawel. Awgrymwyd hefyd y dylent brofi offer mewn cyd-destunau cymdeithasol realistig.¹⁰⁹ Dywedodd y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein y dylai offer helpu i greu profiadau ar-lein cynhwysol a hygyrch i fenywod a merched, gan eu bod mewn mwy o berygl o wynebu profiadau niweidiol ar-lein.¹¹⁰
- 3.49 Cafodd dylanwad cynyddol deallusrwydd artiffisial wrth siapio amgylcheddau gwybodaeth ei godi gan rhanddeiliaid; fodd bynnag, roedd safbwyntiau'n amrywio ynghylch sut gallai deallusrwydd artiffisial effeithio ar ymwybyddiaeth pobl o'r cyfryngau. Dywedodd rhai gwasanaethau ar-lein a grwpiau masnach, fel COBA (y Gymdeithas Darlledu a Gwasanaethau Ar-alw Masnachol), ei bod yn bwysig cydnabod bod gan ddeallusrwydd artiffisial fanteision, fel galluogi darparwyr cynnwys a gwasanaethau ar-lein i gyflwyno gwasanaethau mynediad yn gost-effeithiol ac effeithlon.¹¹¹ Nododd ymatebwyr o gymdeithas sifil heriau posibl o ran llythrennedd yn y cyfryngau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial a galwyd am safonau llymach. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth fod risg y gallai ffynonellau golygu agored anghywir gael eu defnyddio fel ffynonellau ar gyfer offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar ddigwyddiadau hanesyddol, a dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai'r risg o anghywirdeb mewn disgrifiadau o ffigurau hanesyddol niweidio ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd.¹¹² Dywedodd Sefydliad Good Things fod deallusrwydd artiffisial yn ffactor risg sylweddol oherwydd bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r dechnoleg hon mor isel, a bod ymwybyddiaeth o ddeallusrwydd artiffisial, o lythrennedd yn y cyfryngau digidol yn dod yn fwyfwy hanfodol yn yr oes sydd ohoni.¹¹³
- 3.50 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael rhagor o ganllawiau sy'n ymwneud â sgwrsfotiaid deallusrwydd artiffisial. Dywedodd VoiceBox y dylai darparwyr gwasanaethau sy'n defnyddio sgwrsfotiaid rybuddio am wallau ffeithiol posibl a nodi risgiau'n benodol, fel dibyniaeth seicolegol a

¹⁰⁷ Ofcom, 2025, [Pam mae angen i bob un ohonom siarad am gamwybodaeth a thwyllwybodaeth](#)

¹⁰⁸ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.4-5; [Google](#), ymateb, tt.6-7; [S4C](#), ymateb, t.3; [VoiceBox](#), ymateb, tt.7-8

¹⁰⁹ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, tt.3-4

¹¹⁰ [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, tt.4-5

¹¹¹ [COBA](#), ymateb, t.2

¹¹² [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth](#), ymateb, t.3; Ymateb Llywodraeth Cymru

¹¹³ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.4-5

phryderon moesegol ehangach a allai godi o ymgysylltiad estynedig.¹¹⁴ Dywedodd Sefydliad Molly Rose fod perygl i'r defnydd o 'anogwyr seicoffantig' adlewyrchu credoau defnyddwyr ac y gallai ystumio meddwl beirniadol hirdymor. Argymhellodd fframweithiau clir i ddileu'r nodweddion hyn neu i gynnig swyddogaethau allweddol sy'n gadael i ddefnyddwyr fynd i'r afael â nhw, fel personoli dewisol a'r gallu i addasu gosodiadau sgwrsfotiaid deallusrwydd artiffisial.¹¹⁵

- 3.51 Dywedodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein nad yw'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cwmpasu pob sgwrsfot deallusrwydd artiffisial.¹¹⁶ Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai gwasanaethau ar-lein sicrhau eu bod yn canfod ac yn fflagio cynnwys niweidiol o sgwrsfotiaid deallusrwydd artiffisial a gynhyrchir yn Gymraeg.¹¹⁷ Dywedodd Internet Matters y dylai Ofcom annog sgwrsfotiaid deallusrwydd artiffisial i beidio â chaniatáu i ddefnyddwyr, gan gynnwys plant, gael mynediad at eu gwasanaethau heb greu cyfrif, gan fod hyn yn peri risgiau i bobl ifanc oherwydd goruchwyliaeth annigonol. Argymhellodd y dylai Ofcom ehangu ar yr offer sydd ar gael i rieni a nodi disgwyliadau clir ar gyfer systemau rheolaethau rhieni, a ddylai weithredu dim ond mewn amgylcheddau dilys sy'n gysylltiedig â defnyddwyr.¹¹⁸
- 3.52 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai gwasanaethau ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr adnabod cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial (a elwir yn aml yn wybodaeth am 'darddiad'), gyda rhanddeiliaid yn cynnig amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch pa offer sydd orau i ddefnyddwyr. Croesawodd y Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth ein cynnig y dylai gwasanaethau ddefnyddio dyfrnodau, metadata a labeli sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, a phwysleisiodd fod angen i esboniadau o'r fath gael eu darparu mewn fformatau byr a diddorol.¹¹⁹ Disgrifiodd Google ei ddull ei hun o ymdrin â tharddiad, gan gynnwys dyfrnodau digidol a metadata, sydd, yn ei farn ef, yn rhoi cyd-destun pwysig i ddefnyddwyr heb lesteirio arloesedd. Fodd bynnag, dywedodd Google efallai na fydd darparu gwybodaeth fanwl am darddiad i ddangos a yw'r wybodaeth wedi'i chynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial yn helpu defnyddwyr i farnu pa mor ddibynadwy yw'r cynnwys, oherwydd efallai na fydd gwybodaeth o'r fath bob amser yn helpu i lywio barn o'r fath.¹²⁰
- 3.53 Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth y dylai gwasanaethau ar-lein a deallusrwydd artiffisial osod safonau ar gyfer gwahaniaethu a labelu ffynonellau yn ôl ansawdd, yn enwedig ar gyfer pynciau sy'n achosi niwed mawr neu bynciau sy'n cael eu herio'n hanesyddol. Argymhellodd y dylai darparwyr gwasanaeth ddarparu paneli tarddiad manwl ar gyfer ymatebion a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial, gan gynnwys math o ffynhonnell, dyddiad, dangosyddion hyder, a fflagiau ar gyfer ffynonellau wedi'u trin neu eu golygu'n agored. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth efallai na fyddai ffynonellau golygu agored yn ddibynadwy ac y dylai darparwyr gwasanaethau atodi bathodynau ansawdd golygyddol neu fflagiau cynnwys dadleuol i dudalennau neu ymatebion sy'n dibynnu'n drwm ar ffynonellau o'r fath.¹²¹
- 3.54 Cynghorodd COBA yn erbyn dull cyffredinol o labelu cynnwys deallusrwydd artiffisial, gan ddweud mai dim ond i dargedu cynnwys risg uchel sydd â'r potensial o greu niwed a thwyll y dylid defnyddio

¹¹⁴ [VoiceBox](#), ymateb, tt.7-8

¹¹⁵ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, tt.5-6

¹¹⁶ [Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein](#), ymateb, t.2

¹¹⁷ Ymateb Llywodraeth Cymru

¹¹⁸ [Internet Matters](#), ymateb, t.8

¹¹⁹ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, tt.3-4

¹²⁰ [Google](#), ymateb, tt.6-7

¹²¹ [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth](#), ymateb, tt.3-4

labeli deallusrwydd artiffisial.¹²² Dywedodd Pinterest eu bod yn ffafrio dull seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer labelu cynnwys wedi'i gynhyrchu a'i addasu gan ddeallusrwydd artiffisial, gan ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau deilwra atebion sy'n gymesur â'r risgiau ar eu gwefannau penodol.¹²³ Dywedodd Google y dylid cynnull gweithgor i ddatblygu egwyddorion cyffredinol ar gyfer labelu deallusrwydd artiffisial, ac y dylai unrhyw ddull gweithredu gydbwyso gwell dealltwriaeth ymysg defnyddwyr â risgiau posibl "blinder rhybuddion", lle mae defnyddwyr yn osgoi ymyriadau neu'n mudo i wasanaethau llai cyfrifol.¹²⁴ Dywedodd S4C fod offer fel labeli deallusrwydd artiffisial yn fwy perthnasol i wasanaethau ar-lein mawr a bod S4C eisoes yn helpu cynulleidfaoedd i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddeall a dehongli cynnwys.¹²⁵

- 3.55 Rhoddodd rhai rhanddeiliaid awgrymiadau ynghylch sut gellid gweithredu labelu deallusrwydd artiffisial. Dywedodd y Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth y dylai Ofcom gynnig canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau ynghylch cwmpas labeli deallusrwydd artiffisial a'r broses o'u gweithredu.¹²⁶ Dywedodd VoiceBox y dylai darparwyr gwasanaethau labelu'n gywir wasanaethau deallusrwydd artiffisial sydd wedi'u mewnosod a darparu canllawiau amlwg ar y goblygiadau preifatrwydd ar gyfer rhyngweithio. Dywedodd VoiceBox hefyd fod bylchau yng nghanllawiau Ofcom ar gyfer delio â chanfod, labelu a thryloywder deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys sut dylai darparwyr gwasanaethau ddelio â thechnegau canfod sy'n esblygu y mae gweithredwyr gwael yn gallu eu hosgoi, pa mor rhagnodol y dylai labeli deallusrwydd artiffisial fod, a chydbwyso tryloywder ag atal pobl sy'n creu cyfryngau deallusrwydd artiffisial rhag camddefnyddio gwybodaeth canfod. Dywedodd VoiceBox fod angen rhagor o ymchwil dechnegol ar frys i ddeall safonau labelu effeithiol yn well.¹²⁷
- 3.56 Dywedodd Parent Zone, mewn rhai achosion, fod offer deallusrwydd artiffisial wedi gwneud grymuso defnyddwyr yn anoddach a dywedodd y dylai Ofcom roi rhagor o fanylion am yr offer a gynigiwyd gennym yn Argymhelliad 4 drwy roi enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei olygu o dan bob dull gweithredu.¹²⁸
- 3.57 Rhoddodd rhai rhanddeiliaid fwy o ystyriaeth i rymuso defnyddwyr. Dywedodd yr Advertising Association/Media Smart y dylai Ofcom ystyried ai canolbwyntio ar rymuso defnyddwyr yw'r dull cywir o greu amgylcheddau iachach yn y cyfryngau, a dywedodd y dylai Ofcom ystyried ymhellach sut dylid cydbwyso diogelu defnyddwyr â galluedd defnyddwyr a dod i gysylltiad â safbwyntiau amrywiol.¹²⁹ Dywedodd PayPal fod grymuso defnyddwyr yn arbennig o bwysig mewn cyd-destunau ariannol, lle gallai defnyddwyr elwa o fwy o dryloywder yng nghyswllt trafodion, llif cydsynio clir, ac offer i ddiogelu rhag sgamiau a chamwybodaeth.¹³⁰

Ein hymateb

- 3.58 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ei bod yn bwysig ystyried grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur wrth ddylunio adnoddau. Rydym yn cytuno na ellir asesu effeithiolrwydd offer ar

¹²² [COBA](#), ymateb, t.2

¹²³ [Pinterest](#), ymateb, tt.4-5

¹²⁴ [Google](#), ymateb, tt.6-7

¹²⁵ [S4C](#), ymateb, t.3

¹²⁶ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, tt.3-4

¹²⁷ [VoiceBox](#), ymateb, tt.7-8

¹²⁸ [Parent Zone](#), ymateb, t.9

¹²⁹ [Advertising Association / Media Smart](#), ymateb, t.5

¹³⁰ Ymateb PayPal i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025

wahân i'r cyd-destunau cymdeithasol y cânt eu defnyddio ynddynt, yn enwedig ar gyfer grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur. Rydym wedi diwygio Argymhelliad 4 i dynnu sylw'n benodol at yr angen i ddarparwyr gwasanaethau ymgysylltu ac ymgynghori ymhellach â grwpiau sy'n llai tebygol o ddefnyddio eu hoffer ac sydd mewn mwy o berygl o wynebu profiadau niweidiol ar-lein.

- 3.59 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cynrychioli dylanwad cynyddol ar yr amgylchedd gwybodaeth a bod potensial i ddefnyddwyr ddod i gysylltiad â risgiau wrth ddefnyddio sgwrsfotiaid deallusrwydd artiffisial. Rydym wedi ailddatgan bod gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (gan gynnwys sgwrsfotiaid) o fewn cwrpas yr argymhellion i'w gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i ddarparwyr perthnasol roi'r argymhellion hyn ar waith. Rydym hefyd yn parhau i ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â sgwrsfotiaid deallusrwydd artiffisial drwy ein gwaith ehangach ar dechnolegau datblygol ac Llythrennedd yn y Cyfryngau.
- 3.60 Rydym yn cytuno ag adborth rhanddeiliaid y dylai gwasanaethau ddarparu mwy o dryloywder i ddefnyddwyr mewn perthynas â chynnwys wedi'i gynhyrchu a'i addasu gan ddeallusrwydd artiffisial, a gwybodaeth am o ble daw'r wybodaeth hon (gwybodaeth am y tarddiad). Rydym wedi diwygio ein canllawiau o dan Argymhelliad 4 i annog gwasanaethau i fabwysiadu dulliau gweithredu rhyngweithredol, sy'n gwrthsefyll ymyrraeth, ar gyfer atodi gwybodaeth am darddiad diogel i gynnwys digidol.¹³¹ Gall y dulliau hyn gynnwys gwreiddio metadata sy'n cofnodi manylion allweddol am sut cafodd cynnwys ei greu, ei olygu a'i ddsbarthu, a phrosesau i helpu i ganfod achosion o ymyrryd â data (fel llofnodion digidol ac offer dilysu ar-lein). Er ein bod yn cydnabod y gallai'r dulliau gweithredu hyn fod yn agored i ymosodiad gan weithredwyr gwael arbenigol, dylent helpu defnyddwyr i wahaniaethu rhwng deunydd dilys a chyfryngau wedi'u trin neu gyfryngau synthetig. Oherwydd hyn, er gwaethaf gwendidau posibl, ein safbwynt ni yw bod yr offer hyn yn gamau cymesur i'r diwydiant eu cymryd ar hyn o bryd i gefnogi defnyddwyr i ddehongli cynnwys mewn ffordd fwy gwybodus.
- 3.61 O ran pryderon rhanddeiliaid y gallai labeli deallusrwydd artiffisial arwain at ganlyniadau anfwriadol, nid ydym wedi bod yn rhagnodol yn yr argymhelliad ynghylch pa fathau o gynnwys ddylai fod yn destun labeli deallusrwydd artiffisial. Y rheswm dros hyn yw y gallai fod angen yr hyblygrwydd ar wahanol fathau o wasanaethau i ddefnyddio gwahanol ddulliau o weithredu mecanweithiau labelu deallusrwydd artiffisial sy'n cefnogi eu defnyddwyr orau i wahaniaethu rhwng deunydd dilys a deunydd wedi'i drin neu ddeunydd synthetig.
- 3.62 Rydym yn cytuno ag adborth rhanddeiliaid bod angen cydbwysu'r broses o rymuso defnyddwyr â mesurau i wneud gwasanaethau'n fwy diogel, gan sicrhau hefyd bod galluedd defnyddwyr a'r amlygiad i wahanol safbwyntiau'n cael eu cynnal. Nid bwriad yr argymhellion hyn yw rhoi'r cyfrifoldeb am amgylcheddau ar-lein mwy diogel ar ddefnyddwyr, ac nid ydynt chwaith yn disodli ymyriadau eraill, fel y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, sy'n hybu amgylcheddau ar-lein mwy diogel a dibynadwy. Eu nod yw gwella ymddiriedaeth ac ymgysylltiad pobl â gwasanaethau drwy gynnwys mesurau diogelu a thryloywder, ar yr un pryd â chefnogi ymdrechion ehangach i feithrin llythrennedd yn y cyfryngau er mwyn i bobl allu defnyddio galluedd gwybodus. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd grymuso defnyddwyr yn edrych yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau.

¹³¹ Argymhelliad 4: Rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i bobl er mwyn deall, dehongli ac asesu'n feirniadol hygredd y cynnwys maen nhw'n ei weld

Ein penderfyniad terfynol

- 3.63 Ar ôl ystyried yr ymatebion a roddwyd gan randdeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol 4: Rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i bobl er mwyn deall, dehongli ac asesu'n feirniadol hygredd y cynnwys maen nhw'n ei weld

Er bod llawer o offer eisoes ar gael i helpu pobl i reoli eu profiadau ar-lein, mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhain yn dal yn isel.¹³² Heb yr hyder, y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol, ni fydd pobl yn cael eu grymuso i'w defnyddio ac mae perygl y bydd yr offer hyn yn mynd yn fwy a mwy diddefnydd.

Roedd [archwiliad ymddygiadol Ofcom](#) yn asesu'n systematig sut roedd nodweddion dylunio ar draws chwe gwasanaeth poblogaidd, gan gynnwys un VSP, yn dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar brosesau cofrestru, offer rheoli amser, offer teimladau negyddol a mecanweithiau adrodd. Canfu fod y rhan fwyaf o lwyfannau ar-lein a gafodd eu harchwilio yn cynnig offer i reoli'r cynnwys mae defnyddwyr yn ei weld yn eu ffrydiau, fel cuddio, rhwystro neu adrodd, ond ei bod hi'n aml yn anodd dod o hyd i'r rhain neu'n anodd eu defnyddio. Mae offer fel rhwystro ac adrodd yn hanfodol i ddiogelwch defnyddwyr, ond gall dyluniad gwael danseilio eu heffeithiolrwydd. Mae'r offer hyn yn aml yn gofyn am nifer o gamau i'w rhoi ar waith, sy'n gallu annog pobl i beidio â'u defnyddio drwy greu gwrthdaro.¹³³ Ar ben hynny, gall systemau aneglur neu sydd wedi'u cynllunio'n wael, fel polisïau sancsiynau defnyddwyr amwys neu opsiynau rhwystro drwslyd, gynyddu'r risg o niwed drwy wneud defnyddwyr yn ansicr ynghylch sut mae diogelu eu hunain.

Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn mynd ati i helpu defnyddwyr i ddefnyddio'r offer maen nhw wedi'u datblygu, a hynny gyda'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys gwneud adnoddau'n fwy greddfol a hygyrch, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'u bodolaeth a darparu canllawiau clir ar sut i'w defnyddio'n effeithiol. Gall darparwyr gwasanaethau wneud hyn drwy leihau'r camau i gael gafael ar offer a drwy ddefnyddio anogwyr gweledol ac iaith syml i gynyddu hyder defnyddwyr. Rydym yn disgwyl i wasanaethau ymgysylltu ac ymgynghori ymhellach â grwpiau sy'n llai tebygol o ddefnyddio eu hadnoddau i ddeall sut mae darparu cymorth priodol.

Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i greu cynnwys sy'n cael ei rannu a'i ddosbarthu ar-lein. Yn 2025, cyhoeddodd Ofcom Deepfake Defences 2: *The Attribution Toolkit*, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod technolegau fel dyfrnodau a metadata yn gallu helpu defnyddwyr i adnabod a dehongli cyfryngau synthetig yn fwy

¹³² Ofcom, 2024, [Behavioural insights to empower social media users](#). Mae'r adroddiad yn dangos mai dim ond 26% o bobl sy'n dweud eu bod wedi defnyddio rheolaethau cynnwys mae plattfformau cyfryngau cymdeithasol yn eu cynnig. Cafodd y gwaith ymchwil hwn ei gwblhau cyn i naill ai'r Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant, neu'r Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon ddod i rym. Mae'r adroddiad yn argymhell, er enghraifft, dulliau adrodd clir, ac felly efallai y bydd gwelliannau ers cwblhau'r gwaith ymchwil hwn.

¹³³ Ofcom, 2025, [Behavioural Audit of Online Services](#).

cywir.¹³⁴ Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n darparu cyd-destun ystyrion am gynnwys a'i ffynonellau, gan ddefnyddio offer fel dyfrnodau, metadata a labeli deallusrwydd artiffisial, i helpu pobl i ddehongli'n wybodus a meithrin ymddiriedaeth. Dylai darparwyr gwasanaethau roi nifer o'r offer hyn ar waith, yn hytrach na dibynnu ar un yn unig, a dylent barhau i fuddsoddi mewn ymchwil a safoni i wella sut mae cyd-destun cynnwys yn cael ei ddarparu.

Ar ben hynny, rydym yn annog darparwyr gwasanaethau i fabwysiadu dulliau rhyngweithredol nad oes modd ymyrryd â nhw ar gyfer atodi gwybodaeth am darddiad diogel i gynnwys digidol. Gall y dulliau hyn gynnwys gwreiddio metadata sy'n cofnodi manylion allweddol am sut cafodd cynnwys ei greu, ei olygu a'i ddsbarthu, a phrosesau i helpu i ganfod achosion o ymyrryd â data (fel llofnodion digidol ac offer dilysu ar-lein). Dylent helpu defnyddwyr i wahaniaethu rhwng deunydd dilys a chyfryngau synthetig neu gyfryngau wedi'u trin a darparu ciwiau hygyrch sy'n cefnogi ymwybyddiaeth feirniadol o'r cyfryngau. Bydd sicrhau bod yr wybodaeth hon am darddiad yn aros yn gyflawn pan fydd cynnwys yn cael ei rannu ar draws gwasanaethau yn cefnogi dealltwriaeth ac ymddiriedaeth defnyddwyr ymhellach.

Rydym yn cydnabod y gallai fod gan rai darparwyr gwasanaethau fynediad cyfyngedig at fathau penodol o gyd-destun (e.e. metadata). Serch hynny, dylent ymdrechu i gynnig gwybodaeth ystyrion lle bynnag y bo modd er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall.

Rydym yn disgwyl i adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, fel sgwrsfotiaid, weithredu'r argymhellion hyn ar draws eu gwasanaethau, yn enwedig yr argymhellion ynghylch darparu cyd-destun ystyrion i ddefnyddwyr am gynnwys a'i ffynonellau. Bydd darparu dyfyniadau gweladwy i ffynonellau dibynadwy mewn ymateb i anogwyr defnyddwyr yn helpu i greu ecosystem gwybodaeth fwy dibynadwy. Yn y pen draw, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau meddwl yn feirniadol sydd eu hangen i lywio'r cynhyrchion a ddarperir ganddynt. Mater iddyn nhw fydd sut maen nhw'n grymuso eu defnyddwyr a'u cynulleidfaoedd. Bydd hyn o reidrwydd yn cynnwys cyfuniad o ddylunio, offer, lleoli a buddsoddi mewn datblygu sgiliau. O'i wneud yn dda, mae hyn nid yn unig yn grymuso unigolion ond hefyd yn cyfrannu at amgylchedd digidol mwy cadarn, gwybodus a diogel.

Argymhelliad 5

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 5: Grymuso a chefnogi rhieni a gofalwyr i arwain a chefnogi defnyddwyr iau mewn ffyrdd ystyrion sy'n briodol i'w hoedran

Mae gwasanaethau ar-lein yn chwarae rôl allweddol o ran helpu i gadw plant yn ddiogel ar-lein. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn gall rhieni a gofalwyr hefyd fod yn hanfodol i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu sut i lywio a rheoli eu defnydd o wasanaethau. Mae pob

¹³⁴ Ofcom, 2024, [Deepfake Defences: Mitigating the Harms of Deceptive Deepfakes](#)

teulu'n wahanol a byddant yn mynd i'r afael â'u profiadau ar wasanaethau mewn ffyrdd amrywiol, a bydd offer i'r teulu yn eu helpu i reoli'r profiadau hyn. Er bod llawer yn poeni am amser o flaen sgrin ac ymddygiad ar-lein, mae ymchwil yn dangos yn gyson eu bod yn aml yn teimlo nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol neu nad ydynt yn cael cymorth i reoli'r heriau hyn, er bod ganddynt gryn ymwybyddiaeth o'r offer sydd ar gael.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod 93% o rieni yn ymwybodol o offer i gefnogi plant ar-lein, ond dim ond 76% o rieni plant 3-17 oed sy'n defnyddio o leiaf un. Mae'r bwlch hwn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw ymwybyddiaeth yn unig yn ddigon. Mae ffactorau fel dylunio, defnyddioldeb a hyder ar-lein yn dylanwadu'n sylweddol ar ddefnydd. Hefyd, mae ein gwaith ymchwil yn dangos mai rheolaethau rhieni parod, fel y rhai sydd wedi'u gwreiddio ar ddyfeisiau, yw'r rhai sy'n cael eu defnyddio amlaf, sy'n awgrymu bod mynediad rhwydd ac integreiddio di-dor yn allweddol.¹³⁵ Gall offer sy'n anodd dod o hyd iddynt, eu ffurfweddu neu eu deall atal pobl rhag eu defnyddio, hyd yn oed ymysg rhieni sy'n llawn bwriadau da.

Mae ein gwaith tracio ymchwil hefyd yn datgelu patrwm adweithiol: mae nifer y rhieni sy'n sefydlu hidlyddion neu reolaethau yn cynyddu ar ôl i blentyn ddod ar draws cynnwys niweidiol (o 23% i 34%).¹³⁶ Mae hyn yn awgrymu y gallai awgrymiadau addysg a dylunio rhagweithiol – wedi'u targedu at rieni a gofalwyr – eu hannog i fabwysiadu'n gynharach, a allai helpu i atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n gosod gosodiadau preifatrwydd a diogelwch diofyn cryf ar gyfer creu cyfrifon neu broffiliau plant, ac yn cyflwyno rheolaethau rhieni'n glir adeg cofrestru ac ar adegau cyfleus eraill, gan helpu teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a diogel o'r cychwyn cyntaf.¹³⁷ Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod yr offer hyn yn effeithiol a bod rhieni'n deall ar gyfer beth y gellir eu defnyddio.

Mae plant hefyd yn dod i fwy a mwy o gysylltiad â nodweddion masnachol y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio. Er enghraifft, gall prynu pethau mewn apiau neu gemau wella eu profiad ar-lein, sy'n rhywbeth y mae llawer o blant yn ei werthfawrogi ac yn mynd ati i chwilio amdano. Fodd bynnag, heb wybodaeth a chymorth priodol, gall plant fod yn agored i niwed ariannol, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae rhieni neu ofalwyr yn fodlon iddynt ddefnyddio nodweddion mae'n rhaid talu amdanynt. Mae hyn yn ddealladwy, gan nad oes gan blant yn aml y llythrennedd ariannol na'r profiad bywyd i ddeall canlyniadau eu penderfyniadau gwario yn llawn, ac ni ddylid disgwyl hynny ganddynt chwaith.

Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod rhai plant, yn enwedig plant yn eu harddegau hyn, yn cydnabod bod y cyffro'n fwy cysylltiedig â'r pryniant na'r cynnyrch ei hun.

¹³⁵ Ofcom, 2025, [Children and parents: Adroddiad ar agweddau a defnydd o'r cyfryngau – data rhyngweithiol](#).

¹³⁶ Ofcom, 2025, [Plant a Rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnydd o'r cyfryngau](#)

¹³⁷ Adroddiad gan The Insights Family wedi'i gynhyrchu ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2022, [Understanding Data Protection Attitudes](#). Yn ôl y gwaith ymchwil, roedd dros 40% o rieni/gofalwyr yn ystyried bod "darparu lefel uchel o breifatrwydd yn ddiofyn" yn un o'r camau pwysicaf y dylai plattfformau eu cymryd i ddiogelu data plant.

Mynegodd rhieni a rhai o'r plant hynaf bryder y gallai'r ymddygiad hwn ddod yn borth at gamblo, wrth i bobl ifanc fynd ar drywydd "cyffro prynu", sy'n annog ymgysylltiad a gwariant parhaus. Mae'r cylch o brynu a chwilio am y wefr nesaf yn creu amgylchedd lle mae ymddygiad byrbwyll a chymryd risgiau yn cael eu hatgyfnerthu.¹³⁸

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau rôl i'w chwarae o ran helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o wneud arian ar-lein, a sut mae hyn yn siapiro'r amgylchedd digidol. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu'n ddefnyddwyr technoleg mwy gwybodus a grymus. Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n sicrhau tryloywder o ran costau a nodweddion masnachol, gyda hysbysiadau amser real a gosodiadau hawdd eu defnyddio sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a rheolaeth i rieni a gofalwyr.

Mae'r offer rydym wedi bod yn eu trafod yn arbennig o berthnasol i rieni a gofalwyr sydd â phlant iau. Fodd bynnag, wrth i blant dyfu'n hŷn, mae eu harferion digidol yn datblygu, ac er bod yr adnoddau hyn yn dal yn gallu chwarae rôl bwysig, mae angen cynyddol hefyd am sgysiau agored a pharhaus am fywyd ar-lein. Gall y trafodaethau hyn fod yn heriol, gan fod llawer o rieni a gofalwyr yn teimlo nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol. Mae amrywiaeth y rheolaethau rhieni a'r systemau argymhell ar draws platfformau yn ychwanegu cymhlethdod – efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio'n dda ar un gwasanaeth yn trosi i un arall – sy'n gofyn am lefel uchel o lythrennedd digidol a hyder, ac efallai na fydd pob teulu yn meddu ar hyn.

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n ymgysylltu â thrydydd partïon arbenigol sy'n gallu darparu canllawiau wedi'u teilwra i rieni a gofalwyr, wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac yn eu cefnogi, drwy gyllid a chydweithio. Rydym yn ymhelaethu ar yr argymhelliad hwn isod.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.64 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn weithredwyr hollbwysig o ran cefnogi diogelwch plant ar-lein a'u hlythrennedd yn y Cyfryngau. Dywedodd Parent Zone fod rhieni'n hanfodol i helpu plant i lywio drwy wasanaethau ar-lein yn ddiogel, a dywedodd S4C eu bod yn cefnogi'r egwyddor o rymuso rhieni a gofalwyr.¹³⁹
- 3.65 Fodd bynnag, dywedodd llawer o randdeiliaid fod rhieni a gofalwyr yn gallu wynebu gormod o faich, diffyg cefnogaeth a diffyg sgiliau i ddarparu cymorth effeithiol i blant yn eu gofal a bod camau i hybu ymwybyddiaeth yn unig yn annigonol.
- 3.66 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai rheolaethau rhieni fod mewn perygl o roi cymhlethdod a baich gweinyddol anodd eu rheoli ar rieni. Nododd ymatebwyr (Sefydliad Good Things, Parent Zone, Advertising Association/Media Smart, yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) fod rhieni'n aml yn llywio drwy lawer o wasanaethau cymhleth.¹⁴⁰ Tynnodd Parent Zone sylw at yr heriau y mae rhieni'n eu hwynebu wrth lywio profiadau eu plant ar-lein ar draws nifer o wasanaethau, gan awgrymu y gallai safoni iaith, labeli a theithiau defnyddwyr

¹³⁸ Discovery, 2025, [Persuasive design features and potential child financial harms – qualitative research](#).

¹³⁹ [Parent Zone](#), ymateb, t.9; [S4C](#) ymateb, t. 3

¹⁴⁰ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.6; [Parent Zone](#), ymateb, t.9; [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, t.4; [Ysgol Economeg Llundain](#), ymateb, t.3

leihau gorlwytho.¹⁴¹ Galwodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (LSE) am gydweithio ar draws y diwydiant i greu profiadau ar-lein safonol a gwella sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau.

- 3.67 Roedd cefnogaeth eang i reolaethau rhieni syml, gweladwy, wedi'u hamseru'n dda, yn enwedig adeg cofrestru (Parent Zone, Wikimedia UK, Llywodraeth Cymru, S4C).¹⁴² Fodd bynnag, mynegodd y Gynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth (MILA) bryderon am y diffyg eglurder ynghylch pryd y bydd 'adegaau cyfleus' yn digwydd, ac argymhellodd Wikimedia UK y dylid ymestyn yr oedran pan fydd rhai gwasanaethau'n caniatáu i blant symud oddi wrth reolaethau rhieni.¹⁴³ Awgrymodd y Rhwydwaith Cywirdeb Gwybodaeth y dylid ailystyried y term 'rheolaethau rhieni', sy'n gallu swnio'n gyfyngol neu'n gosbol ac a allai felly annog pobl i beidio â'u defnyddio. Yn lle hynny, gallai termau eraill, fel 'gosodiadau teulu' neu 'offer cefnogi rhieni', gyfleu rôl rymusol arfaethedig yr offer hyn yn well.¹⁴⁴
- 3.68 Dywedodd VoiceBox y dylai'r argymhellion terfynol annog darparwyr gwasanaethau i gefnogi dewis rhieni synhwyrol yn hytrach na thybio bod pob rhiant eisiau'r cyfyngiadau mwyaf posibl. Fe wnaethant rannu ymchwil o'u hymgyngoriadau â phobl ifanc, gan rybuddio, er bod bwriadau'n gallu bod yn dda, bod lefelau monitro dwys yn gallu teimlo fel tor-ymdiriedaeth a bod gosodiadau statig mewn perygl o lesteirio annibyniaeth gynyddol pobl ifanc. Yn hytrach, roeddent yn pwysleisio edrych o'r newydd ar reolaethau rhieni drwy sgysiau parhaus.¹⁴⁵
- 3.69 Dywedodd rhai ymatebwyr nad yw'r offer presennol i rieni bob amser yn effeithiol. Dywedodd Sefydliad Molly Rose nad yw rhai adnoddau'n adlewyrchu risgiau go iawn nac yn rhoi gwybod i rieni am weithgarwch niweidiol, gan alw am safonau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.¹⁴⁶ Dywedodd VoiceBox y gallai rheolaethau rhieni greu ymdeimlad ffug o ddiogelwch, a allai arwain at rieni'n ymddieithrio oddi wrth fonitro gweithredol.¹⁴⁷
- 3.70 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai gwasanaethau wneud mwy i ddiogelu defnyddwyr rhag gwariant a niwed masnachol. Dywedodd Internet Matters, Llywodraeth Cymru, a'r Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth fod angen i wasanaethau ddarparu hysbysiadau cliriach, amser real ynghyd â chapiau gwario ar brynu mewn apiau i rieni ac esboniad gwell o'r canlyniadau ariannol i blant.¹⁴⁸ Roedd Internet Matters yn cefnogi hysbysiadau amser real ar nodweddion masnachol, gan ddod yn ofyniad statudol.¹⁴⁹ Holodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) a MILA pam nad yw dylunio caethiwus a moneteiddio yn cael eu trin â'r un difrifoldeb rheoleiddiol â gamblo.¹⁵⁰
- 3.71 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod angen rhannu cyfrifoldeb, yn enwedig gydag addysgwyr. Dywedodd Sefydliad Good Things, Parent Zone, Advertising Association/Media Smart, Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) ac eraill y dylai gwasanaethau ddarparu cymorth ymarferol a rhyngweithiol i rieni ac athrawon.¹⁵¹ Dywedodd y Cyngor Gwrthweithio Twyllwbyodaeth Ar-lein y dylid cynnwys

¹⁴¹ [Parent Zone](#), ymateb, t.9

¹⁴² [Parent Zone](#), ymateb, t.9

¹⁴³ [Cynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth \(MILA\)](#), ymateb, t.4; [Wikimedia UK](#), ymateb t.2

¹⁴⁴ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, t.4

¹⁴⁵ [VoiceBox](#), ymateb, t. 8-10

¹⁴⁶ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t.9

¹⁴⁷ [VoiceBox](#), ymateb, t.10

¹⁴⁸ [Internet Matters](#), ymateb, t. 9; [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, t. 4-5; ymateb Llywodraeth Cymru

¹⁴⁹ [Internet Matters](#), ymateb, t. 9

¹⁵⁰ [Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain](#), ymateb, t.3

¹⁵¹ [Parent Zone](#), ymateb, t.8

llythrennedd yn y cyfryngau yn y cwricwlwm i ysgolion.¹⁵² Dywedodd Pinterest nad cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau yn unig yw llythrennedd yn y cyfryngau a bod angen cydlynu ar draws cymdeithas sifil a chynnwys rhieni a gofalwyr.¹⁵³

- 3.72 O ran pryderon ynghylch tegwch a bod yn agored i niwed, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) a'r Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein efallai na fyddai ymgysylltiad a rheolaethau rhieni yn ddigon i ddiogelu rhai defnyddwyr, yn enwedig merched, a phlant agored i niwed a phlant sy'n derbyn gofal, ac yn lle hynny nodwyd bod amgylcheddau gwasanaeth sylfaenol mwy diogel yn bwysig.¹⁵⁴ Dywedodd Sefydliad Good Things y dylai gwasanaethau gyd-ddylunio rheolaethau rhieni gyda rhieni sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol er mwyn osgoi gwaethygu anghydraddoldebau.¹⁵⁵

Ein hymateb

- 3.73 Rydym yn croesawu cefnogaeth eang gan randdeiliaid i'n cynnig bod gwasanaethau'n gwneud mwy i rymuso rhieni a gofalwyr. Ar yr un pryd, rydym yn cytuno nad yw hybu ymwybyddiaeth o offer yn ddigon. Bwriad Argymhelliad 5 yw ategu rhagosodiadau mwy diogel a dylunio sy'n briodol i oedran drwy annog gwasanaethau i wneud cymorth i rieni yn hawdd cael gafael arno a'i ddefnyddio, a buddsoddi yn y canllawiau a'r cymorth sydd eu hangen ar rieni i ddefnyddio offer yn effeithiol ac yn hyderus.
- 3.74 Rydym yn croesawu'r ffaith bod rhanddeiliaid yn cydnabod bod rhieni a gofalwyr yn hanfodol i ddiogelwch plant ar-lein ac Llythrennedd yn y Cyfryngau. Rydym hefyd yn cytuno â safbwyntiau rhanddeiliaid bod rhieni'n aml yn cael eu gorlwytho ac efallai nad oes ganddynt yr amser, y gefnogaeth na'r sgiliau i ddefnyddio'r offer sydd ar gael yn llawn. Mae argymhelliad 5 wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â hyn drwy annog gwasanaethau i baru codi ymwybyddiaeth â chymorth symlach, haws ei ddefnyddio i rieni - er enghraifft, drwy ddefnyddio gosodiadau diofyn, cynefino clir, a chanllawiau wedi'u teilwra - fel bod ymgysylltiad rhieni'n cael ei alluogi yn hytrach na'i ragdybio.
- 3.75 Er ein bod yn cytuno y gall gwasanaethau sy'n defnyddio amrywiaeth o adnoddau gwahanol gynyddu cymhlethdod a baich gweinyddol, nid ydym yn cytuno ei bod yn briodol i Ofcom argymhell dull gweithredu safonol, gan fod yr amrywiaeth o wasanaethau sydd o fewn y cwmpas yn golygu efallai na fydd hyn yn effeithiol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r agwedd seiliedig ar risg rydym wedi'i mabwysiadu yn ein Datganiad ar Amddiffyn Plant rhag Niwed, sy'n caniatáu i wasanaethau ddefnyddio offer sydd, yn eu barn nhw, yn briodol i'w defnyddwyr i amddiffyn plant ar eu platfformau.¹⁵⁶ Fodd bynnag, rydym yn annog gwasanaethau drwy gydol yr argymhellion i leihau gwrthdaro a chymhlethdod lle bynnag y bo modd drwy iaith gliriach, labelu mwy cyson, a theithiau defnyddwyr mwy greddf. Rydym hefyd yn cefnogi cydweithio ar draws sectorau drwy ymchwil a'r gwaith rydym wedi'i gomisiynu, sy'n helpu i wella defnyddioldeb a chyd-ddealltwriaeth i rieni a gofalwyr.
- 3.76 Rydym yn cytuno bod adnoddau rhieni ar eu mwyafrif effeithiol pan fyddant yn syml, yn weladwy ac yn dod i'r wyneb ar adegau ystyrlon fel adeg cofrestru a sefydlu cyfrifon. Fodd bynnag, mae'r

¹⁵² [Cyngor ar gyfer Gwrthweithio Twyllwbybodaeth Ar-lein](#), ymateb, t.3-4

¹⁵³ [Pinterest](#), ymateb, t.5

¹⁵⁴ [Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon \(NAHT\)](#), ymateb, t.5; [Canolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.5

¹⁵⁵ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.6

¹⁵⁶ [Protecting children from harms online Volume 4: What should services do to mitigate the risks of online harms to children?](#), Ofcom

adegaau mwyaf priodol i'r rhain gael eu cynnwys ('adegaau cyfleus') yn debygol o amrywio rhwng gwasanaethau a theithiau defnyddwyr. Felly, nid ydym wedi darparu rhagor o fanylion am adegaau cyfleus, a allai gynnwys, er enghraifft, newidiadau mawr i nodweddion, newidiadau i gyfrif plentyn, neu pan fydd nodweddion sy'n gysylltiedig â risg yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf.

- 3.77 O ran terminoleg, rydym yn cydnabod y gallai fod yn well gan rai defnyddwyr dermau fel 'gosodiadau teulu' yn hytrach na 'rheolaethau rhieni', a allai swnio'n fwy calonogol ac yn llai cosbol i rai defnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r term 'rheolaethau rhieni' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio a'i ddeall yn eang. Felly, rydym wedi cadw cyfeiriadau at 'reolaethau rhieni' gan annog gwasanaethau i fframio'r offer hyn mewn ffordd sy'n galluogi ac yn cefnogi.
- 3.78 Rydym yn cydnabod y bydd teuluoedd yn mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol ac y bydd gan rieni safbwyntiau gwahanol ar lefel y cyfyngiad sy'n ddymunol i'w plant. Bwriad Argymhelliad 5 yw cefnogi dewisiadau cymesur a gwybodus gan rieni a gofalwyr, gan gynnwys opsiynau sy'n cefnogi ymreolaeth plant wrth iddynt aeddfedu, ar yr un pryd â pharhau i alluogi mesurau diogelu priodol lle bo angen.
- 3.79 O ran effeithiolrwydd adnoddau, rydym yn cydnabod pryderon efallai na fydd rhai offer presennol i rieni yn adlewyrchu risgiau'r byd go iawn yn ddibynadwy nac yn darparu hysbysiadau ystyrlon. Mae argymhellion 4 a 5 yn nodi y dylai offer fod yn effeithiol yn ymarferol ac yn ddealladwy i ddefnyddwyr. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu tystiolaeth ar "Beth sy'n gweithio o ran darparu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau", gan gynnwys gwerthuso sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ailadrodd yr offer dros amser.¹⁵⁷ Byddwn yn parhau i hyrwyddo canfyddiadau am yr hyn sy'n gweithio i randdeiliaid i lywio mentrau ac ymyriadau cryf o ran llythrennedd yn y cyfryngau, ac yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddeall y ffordd orau o fabwysiadu'r argymhellion mewn ffyrdd sy'n gweithio orau i'w defnyddwyr. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael o dan Adran 4: Gweithredu'r argymhellion.
- 3.80 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y gall gwasanaethau wneud mwy i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed masnachol, gan gynnwys prynu mewn apiau a'r angen am wybodaeth gliriach ac amserol i rieni. Mae argymhelliad 5 yn annog gwasanaethau i ddarparu esboniadau tryloyw o gostau a nodweddion masnachol, gyda rheolaethau ymarferol fel hysbysiadau amser real a gosodiadau hawdd eu defnyddio sy'n helpu rhieni i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a chadw rheolaeth. Rydym hefyd yn nodi pryder ynghylch dylunio caethiwus a moneteiddio, nad ydynt yn cael eu trin â'r un difrifoldeb rheoleiddiol â gamblo. Er ein bod yn cydnabod bod llythrennedd yn y cyfryngau yn berthnasol i ddeall dylunio caethiwus a moneteiddio, y Llywodraeth sy'n gyfrifol am reoleiddio yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i ystyried sut mae'r materion hyn yn croestorri ag llythrennedd yn y cyfryngau a mesurau diogelu diogelwch ar-lein drwy waith parhaus yn Ofcom.
- 3.81 Rydym yn cytuno bod llythrennedd yn y cyfryngau yn gyfrifoldeb a rennir ac nad yw'n dibynnu ar rieni'n unig. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau sydd gan wasanaethau, mae addysgwyr a chyfryngwyr dibynadwy yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu cymorth ymarferol a rhyngweithiol i rieni a phlant. Roedd Cynllun Gweithredu Llythrennedd yn y Cyfryngau y Llywodraeth, *A Safe, Informed Digital Nation*, yn nodi ymrwymiad ar y cyd i lythrennedd yn y cyfryngau ar draws adrannau, gan gynnwys yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Addysg.¹⁵⁸ Ar ben hynny, gan fod llythrennedd yn y cyfryngau yn faes polisi datganoledig, mae pob un o'r Gwledydd Cartref yn mynd

¹⁵⁷ Ofcom, 2024, [Beth sy'n gweithio o ran darparu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau?](#)

¹⁵⁸ [A Safe, Informed Digital Nation](#), Cynllun Gweithredu Llythrennedd yn y Cyfryngau y Llywodraeth (2026-2029)

i'r afael ag llythrennedd yn y cyfryngau mewn gwahanol ffyrdd o fewn amrywiaeth o adrannau'r llywodraeth. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael o dan Argymhellion 7 i 9.

- 3.82 Rydym yn cydnabod bod angen osgoi gorddibyniaeth ar ymgysylltiad rhieni, yn enwedig ar gyfer plant sydd o bosibl yn agored i niwed, wedi'u heithrio'n ddigidol, neu sydd heb gymorth cyson gan ofalwyr. Mae hyn hefyd yn cefnogi ein safbwynt yn erbyn safoni. Bwriad argymhelliad 5 yw ategu, nid disodli, amgylcheddau llinell sylfaen mwy diogel a dyluniad sy'n briodol i oedran, a chaniatáu i wasanaethau arloesi gydag offer newydd a nodi'r dulliau gweithredu gorau sy'n gweithio i'w defnyddwyr.
- 3.83 Rydym hefyd yn cytuno ar bwysigrwydd tegwch, gan gynnwys cyd-ddylunio gyda rhieni sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, i sicrhau bod offer a chanllawiau ar gael ac nad ydynt yn cynyddu anghydraddoldebau'n anfwriadol. Rydym yn cytuno bod cyd-ddylunio a chydgyhyrchu yn bwysig, ac rydym wedi diwygio Argymhelliad 9 i wneud hyn yn fwy clir, gan bwysleisio y dylai darparwyr gwasanaethau weithio gyda chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol i gyd-ddylunio a darparu ymyriadau effeithiol o ran llythrennedd yn y cyfryngau.
- 3.84 O ran tegwch ac atebolrwydd, rydym yn cydnabod na fydd rheolaethau rhieni ar eu pen eu hunain yn ddigon i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig merched, plant agored i niwed a phlant sy'n derbyn gofal. Disgwylir i'r argymhellion gyd-fynd â'n codau rheoleiddio; felly, mae cyfeiriadau at y Codau Ymarfer Amddiffyn Plant sy'n ymwneud â rheolaethau rhieni wedi cael eu hychwanegu at yr argymhelliad terfynol. Rydym hefyd wedi diweddarau ein cyhoeddiad 'Sut mae Hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau' i gynnwys ymchwil a gomisiynwyd gan Ofcom i lywio'r Codau Ymarfer, sydd wedi cefnogi'r rhesymeg dros y Datganiad o Argymhellion.¹⁵⁹ Ar ben hynny, rydym wedi cyfeirio at ofynion o'r Codau Ymarfer i atgoffa gwasanaethau o'u dyletswyddau Amddiffyn Plant fel y maent yn cyd-fynd â'r Datganiad o Argymhellion.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.85 Ar ôl ystyried yr ymatebion a roddwyd gan randdeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol 5: Grymuso a chefnogi rhieni a gofalwyr i arwain a chefnogi defnyddwyr iau mewn ffyrdd ystyrlon sy'n briodol i'w hoedran

Rhaid mai'r platfformau eu hunain sy'n gyfrifol am gadw plant yn ddiogel ar-lein. Fodd bynnag, dylid grymuso rhieni a gofalwyr er mwyn iddyn nhw hefyd allu helpu plant a phobl ifanc i ddysgu sut i lywio a rheoli eu profiad ar-lein. Mae pob teulu'n wahanol a byddant yn mynd i'r afael â'u profiadau ar wasanaethau mewn ffyrdd amrywiol. Er bod offer teulu yn gallu helpu i reoli'r profiadau hyn, mae llawer o rieni a gofalwyr yn poeni am amser eu plant o flaen sgrin a'u hymddygiad ar-lein. Mae ymchwil i wasanaethau'n dangos bod rhieni'n aml yn teimlo nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol neu nad ydynt yn cael eu cefnogi i reoli'r heriau hyn.¹⁶⁰

Mae ein gwaith ymchwil ar brofiadau ar-lein yn dangos bod 93% o rieni yn ymwybodol o offer i gefnogi plant ar-lein, ond dim ond 76% o rieni plant 3-17 oed sy'n defnyddio o leiaf

¹⁵⁹ Ofcom, 2025, [Protection of Children Code of Practice for user-to-user services](#)

¹⁶⁰ Pew Research Centre, 2020, [Parenting Kids in the Age of Screens, Social Media and Digital Devices.](#)

un.¹⁶¹ Mae'r bwlch hwn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw ymwybyddiaeth yn unig yn ddigon. Mae ffactorau fel dylunio, defnyddioldeb a hyder ar-lein yn dylanwadu'n sylweddol ar y nifer sy'n eu defnyddio.¹⁶² Hefyd, mae ein gwaith ymchwil yn dangos mai rheolaethau rhieni parod, fel y rhai sydd wedi'u gwreiddio ar ddyfeisiau, yw'r rhai sy'n cael eu defnyddio amlaf, sy'n awgrymu bod mynediad rhwydd ac integreiddio di-dor yn allweddol.¹⁶³ Gall offer sy'n anodd dod o hyd iddynt, eu ffurfweddu neu eu deall atal rhieni rhag eu defnyddio, hyd yn oed ymysg rhieni sy'n llawn bwriadau da.

Mae ein gwaith tracio ymchwil ar wasanaethau ar-lein hefyd yn datgelu patrwm adweithiol: mae nifer y rhieni sy'n sefydlu hidlyddion neu reolaethau yn cynyddu ar ôl i blentyn ddod ar draws cynnwys niweidiol (o 23% i 34%).¹⁶⁴ Mae hyn yn awgrymu y gallai awgrymiadau addysg a dylunio rhagweithiol wedi'u targedu at rieni a gofawyr eu hannog i sefydlu'r hidlyddion hyn yn gynharach, a allai helpu i atal plant rhag dod ar draws cynnwys niweidiol yn y lle cyntaf.

Yn unol â'r Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon sy'n berthnasol i wasanaethau ar-lein, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn gosod rhagosodiadau diogelwch cryf ar gyfer cyfrifon plant, ac yn unol â Chod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rydym yn argymhell gosodiadau preifatrwydd cryf ar gyfer cyfrifon plant.¹⁶⁵¹⁶⁶¹⁶⁷¹⁶⁸ Ar ben hynny, ac i ategu mesurau eraill i amddiffyn plant, rydym yn argymhell cyflwyno rheolaethau rhieni yn glir adeg cofrestru ac ar adegau cyfleus eraill, gan helpu teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a diogel o'r cychwyn cyntaf. Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod yr offer hyn yn effeithiol a bod rhieni'n deall sut gellir eu defnyddio orau.¹⁶⁹

Mae plant hefyd yn dod i fwy a mwy o gysylltiad â nodweddion masnachol y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio. Er enghraifft, gall prynu pethau mewn apiau neu gemau wella eu profiad ar-lein, sy'n rhywbeth y mae llawer o blant yn ei werthfawrogi ac yn mynd ati i chwilio amdano. Fodd bynnag, heb wybodaeth a chymorth priodol, gall plant fod yn agored i niwed ariannol, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae rhieni neu

¹⁶¹ Ofcom, 2025, [Plant a Rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnydd o'r cyfryngau](#)

¹⁶² Ofcom, 2025, [Plant a Rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnydd o'r cyfryngau](#)

¹⁶³ Ofcom, 2025, [Plant a Rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnydd o'r cyfryngau – data rhyngweithiol.](#)

¹⁶⁴ Ofcom, 2025, [Plant a Rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnydd o'r cyfryngau](#)

¹⁶⁵ Ofcom, 2025, [Illegal content Codes of Practice for user-to-user services](#)

¹⁶⁶ Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor diogelu data yn ôl dyluniad ac yn ddiodyn. Dylai gosodiadau diogelu fod ymlaen yn ddiodyn i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig plant, yn unol â Chod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Safon 7). Mae rhagosodiadau sydd wedi'u gosod ar breifatrwydd uchel yn sicrhau bod lles gorau'r plentyn yn cael ei ddiogelu. Dylai gwasanaethau hefyd wneud awgrymiadau cadarnhaol i atgoffa plant o fanteision y gosodiadau diodyn.

¹⁶⁷ Adroddiad gan The Insights Family wedi'i gynhyrchu ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2022, [Understanding Data Protection Attitudes](#). Roedd yr ymchwil wedi canfod bod dros 40% o rieni/gofawyr wedi nodi bod "darparu lefel uchel o breifatrwydd yn ddiodyn" yn un o'r camau pwysicaf y dylai platfformau eu cymryd i ddiogelu data plant.

¹⁶⁸ Canfu adroddiad Ofcom, [Behavioural Insights to engage children with content controls](#), mai'r 'rhagosodiadau oedd y sbardun cryfaf ar gyfer dewisiadau cynnwys mwy diogel', a oedd yn sail i ddatblygu'r Codau Amddiffyn Plant.

¹⁶⁹ Ar ben hynny, yn unol â'r [Issued Protection of Children Code of Practice for user-to-user services](#), PCU F1.3, dylai darparwr sicrhau bod deunyddiau ar gael i'r cyhoedd sy'n egluro i rieni neu warcheidwaid plant sut mae rhwystru, teui ac atal defnyddwyr rhag rhoi sylwadau ar gynnwys a sut mae derbyn neu wrthod gwahoddiad i sgwrs grŵp. Dylai hyn helpu i roi gwybod i rieni sut mae gwneud dewisiadau diogel.

ofalwyr yn fodlon iddynt ddefnyddio nodweddion mae'n rhaid talu amdanynt. Mae hyn yn ddealladwy, gan nad oes gan blant yn aml y llythrennedd ariannol na'r profiad bywyd i ddeall canlyniadau eu penderfyniadau gwario yn llawn.

Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod rhai plant, yn enwedig plant yn eu harddegau hŷn, yn cydnabod bod y cyffro'n fwy cysylltiedig â'r pryniant na'r cynnyrch ei hun. Mynegodd rhieni a rhai o'r plant hynaf bryder y gallai'r ymddygiad hwn ddod yn borth at gamblo, wrth i bobl ifanc fynd ar drywydd "cyffro prynu", sy'n annog ymgysylltiad a gwariant parhaus. Mae'r cylch o brynu a chwilio am y wefr nesaf yn creu amgylchedd lle mae ymddygiad byrbwyll a chymryd risgiau yn cael eu hatgyfnerthu.¹⁷⁰

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau rôl i'w chwarae yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o wneud arian ar-lein, a sut mae hyn yn siapiro'r amgylchedd digidol. Bydd hyn yn eu helpu i fod yn ddefnyddwyr technoleg mwy gwybodus a grymus.

Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n sicrhau tryloywder o ran costau a nodweddion masnachol, gyda hysbysiadau amser real a gosodiadau hawdd eu defnyddio sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a rheolaeth i rieni a gofalwyr.

Mae'r offer rydym wedi bod yn eu trafod yn arbennig o berthnasol i rieni a gofalwyr sydd â phlant iau. Fodd bynnag, wrth i blant dyfu'n hŷn, mae eu harferion digidol yn datblygu, ac er bod yr adnoddau hyn yn dal yn gallu chwarae rôl bwysig, mae angen cynyddol hefyd am sgysiau agored a pharhaus am fywyd ar-lein. Gall y trafodaethau hyn fod yn heriol, gan fod llawer o rieni a gofalwyr yn teimlo nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol. Mae amrywiaeth y rheolaethau rhieni a'r nodweddion diogelwch ar draws gwasanaethau yn ychwanegu cymhlethdod – efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio'n dda ar un gwasanaeth yn trosi i un arall, sy'n gofyn am gryn dipyn o lythrennedd digidol a hyder, ac efallai na fydd pob teulu yn meddu ar hyn.

Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n ymgysylltu â thrydydd partïon arbenigol sy'n gallu darparu canllawiau wedi'u teilwra i rieni a gofalwyr, wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac yn eu cefnogi, drwy gyllid a chydweithio.

Argymhelliad 6

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 6: Grymuso a galluogi trydydd partïon arbenigol i ddarparu gwell cymorth, gan helpu i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ymdrechion llythrennedd yn y cyfryngau

Mae trydydd partïon arbenigol yn chwarae rôl hollbwysig yn cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ymysg y boblogaeth. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: grwpiau eiriolaeth defnyddwyr fel AgeUK, VoiceBox a Mencap; sefydliadau cynhwysiant digidol fel Sefydliad Good Things a Nominet; grwpiau nid-er-elw sy'n canolbwyntio ar deuluoedd fel Internet Matters a Parent Zone; y rhai sy'n canolbwyntio ar gywirdeb gwybodaeth fel Full Fact; mentrau ar lawr gwlad fel Red Chair

¹⁷⁰ Discovery, 2025, [Persuasive design features and potential child financial harms – qualitative research](#).

Highland, ConnectFutures a Mhor Collective; y rhai sy'n cynnig cymorth i addysgwyr a gweithwyr proffesiynol fel South West Grid for Learning (SWGfL); a'r rhai sy'n cynnig rhaglenni addysgol fel Loudmouth a Sefydliad The Guardian.

Mae'r sefydliadau hyn yn cyfrannu amrywiaeth o gryfderau ac arbenigedd at Llythrennedd yn y Cyfryngau: mae gan rai wybodaeth ddofn ar lawr gwlad am anghenion defnyddwyr a gwendidau cymunedol, ac mae eu cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddynt, tra bo eraill yn cynnig arbenigedd mewn agweddau penodol ar Llythrennedd yn y Cyfryngau, fel cymorth addysgol neu broffesiynol. Mae rhai mewn sefyllfa unigryw fel lleisiau arbenigol ym maes iechyd neu ddiogelwch ar-lein, gan fod yn rhieni i oedolion ifanc, ac mae rhai'n darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb sy'n cynyddu hyder ac ymgysylltiad.¹⁷¹ Mae eu galluedd amrywiol yn eu gwneud yn bartneriaid hanfodol o ran cyrraedd a chefnogi amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

Mae gan lwyfannau ar-lein rôl bwerau i'w chwarae yn cysylltu pobl â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt, yn enwedig yn ystod argyfyngau neu adegau ystyrion ar daith y defnyddiwr. Er enghraifft, gall platfformau arwain defnyddwyr at offer trydydd parti arbenigol a chynnwys awdurdodol mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr i'w defnyddwyr. Gallai hyn gynnwys integreiddio sbardunau sy'n ymwybodol o gyd-destun ac ymyriadau sy'n sensitif o ran amser, fel pan fydd defnyddwyr yn chwilio am gynnwys niweidiol neu'n rhoi gwybod amdano, yn ogystal â defnyddio llifoedd cynefino neu ddeunyddiau canolfan gymorth. O'n profiad ni, mae partneriaethau â sefydliadau sydd eisoes â pherthynas arbenigol â grwpiau targed yn allweddol ar gyfer ymgysylltu ac ymateb effeithiol.¹⁷² Mae'r dull hwn nid yn unig yn cefnogi anghenion gwybodaeth uniongyrchol ond hefyd yn cryfhau llythrennedd yn y cyfryngau defnyddwyr drwy eu helpu i ganfod ffynonellau credadwy a llywio sefyllfaoedd cymhleth yn hyderus.

Felly, rydym yn argymhell bod platfformau ar-lein yn edrych ar ffyrdd o rannu dolenni amserol â ffynonellau trydydd parti arbenigol a chynnwys awdurdodol yn ystod adegau ystyrion. Mae hyn yn helpu pobl i gael gafael ar gymorth dibynadwy ac i ymateb yn hyderus.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.86 Dywedodd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), Sefydliad Good Things, Pinterest a VoiceBox, eu bod yn cytuno â'n cynnig bod trydydd parti'n yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o rymuso defnyddwyr gyda gwybodaeth glir a hygyrch.¹⁷³
- 3.87 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid ychwanegu ymhellach at yr argymhelliad hwn. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth a Llywodraeth Cymru y dylai gwasanaethau ar-lein dynnu sylw at gyfrifon sy'n darparu gwybodaeth ddibynadwy, yn enwedig yn ystod digwyddiadau

¹⁷¹ Er enghraifft, ffynonellau awdurdodol fel y GIG neu Sefydliad Iechyd y Byd a gafodd eu defnyddio yn ystod y pandemig.

¹⁷² Ofcom, 2024, [Listening to experts: mental health and media literacy](#).

¹⁷³ [Cymdeithas Addysg y Gweithwyr \(WEA\)](#), ymateb i How to promote Media Literacy: Consultation on recommendations for online platforms, broadcasters and services, 2025, t.2; [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.6-7; [Pinterest](#), ymateb, t.6; [VoiceBox](#), ymateb, t.10

critigol.¹⁷⁴ Dywedodd Internet Matters y dylai Ofcom ehangu'r argymhelliad hwn i annog partneriaethau rhagweithiol sy'n meithrin sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau cyn i niwed ddigwydd, yn hytrach na dim ond cymorth adweithiol yn dilyn niwed.¹⁷⁵ Dywedodd Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) y dylai Ofcom argymhell cydweithio ag addysgwyr a llyfrgelloedd cyhoeddus, sy'n cynnal perthynas ddibynadwy â theuluoedd a chymunedau.¹⁷⁶

- 3.88 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch yr argymhelliad hwn. Dywedodd Parent Zone y gallai cyfeirio at drydydd partion penodol roi pwysau ychwanegol ar eu hadnoddau. Yn yr un modd, dywedodd y Middle Tech Coalition (MTC) na ddylai baich yr argymhelliad hwn fod ar ddarparwyr gwasanaethau yn unig ac y dylai Ofcom ystyried sut i gefnogi cydlynad ar draws y diwydiant a chymdeithas sifil.¹⁷⁷
- 3.89 Dywedodd Wikimedia UK, fel yr elusen ar gyfer gwybodaeth agored sy'n gweithio ar draws llythrennedd yn y cyfryngau a chywirdeb gwybodaeth, y dylid ei chynnwys ar y rhestr o drydydd partion a ddarperir yn yr argymhelliad hwn.¹⁷⁸

Ein hymateb

- 3.90 Rydym yn cytuno â'r awgrym y gall gwasanaethau ar-lein wneud mwy i ddyrchafu ffynonellau dibynadwy yn ystod digwyddiadau critigol. Mae argymhelliad 6 yn cynnwys canllawiau bod gwasanaethau'n cyfeirio'n amserol at wybodaeth awdurdodol ar adegau ystyrlon, a all gynnwys argyfyngau. Rydym yn annog gwasanaethau i ystyried sut maen nhw'n dod o hyd i ffynonellau dibynadwy mewn ffyrdd sy'n briodol i'r cyd-destun ac sy'n cefnogi dealltwriaeth defnyddwyr.
- 3.91 O ran yr awgrym i annog partneriaethau rhagweithiol, rydym o'r farn bod Argymhelliad 8 yn ymdrin yn ddigonol â hyn drwy argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n mynd ati i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau drwy ymrwymo i gyllido rhaglenni meithrin sgiliau yn y tymor hir drwy bartneriaethau.
- 3.92 Rydym yn cytuno y gall partneriaethau fod yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn meithrin gallu a gwytnwch defnyddwyr yn rhagweithiol, yn hytrach na dim ond cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i niwed. Bwriad Argymhelliad 6 yw cefnogi dulliau rhagweithiol ac adweithiol, gan annog gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys i wreiddio cyfeirio a chydweithio ar deithiau parhaus defnyddwyr (er enghraifft, llifoedd diogelwch, cymorth a chynefino), yn ogystal ag ar adegau o risg uwch.
- 3.93 Rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid a oedd yn pwysleisio'r potensial i wasanaethau gydweithio ag addysgwyr a llyfrgelloedd cyhoeddus, sy'n gyfryngwyr dibynadwy sydd â chyrhaeddiad cymunedol cryf. Er nad yw Argymhelliad 6 yn rhagnodi partneriaid penodol, rydym yn cytuno y gall lleoliadau addysg a llyfrgelloedd fod yn sianeli pwysig ar gyfer darparu cymorth llythrennedd yn y cyfryngau ac y gallant ategu ymyriadau ar-lein.
- 3.94 Rydym yn cytuno bod risg y gallai mwy o gyfeirio gan wasanaethau at sefydliadau trydydd parti arwain at fwy o alw a phwysau ar y sefydliadau hynny. Nid symud cyfrifoldeb i drydydd partion yw ein bwriad, ond hybu partneriaethau cynaliadwy sydd ag adnoddau priodol. Felly, rydym wedi dileu'r rhestr o sefydliadau trydydd parti enghreifftiol yn yr argymhellion terfynol. Pan fydd

¹⁷⁴ [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth](#), ymateb, t.5; Ymateb Llywodraeth Cymru

¹⁷⁵ [Internet Matters](#), ymateb, t.9

¹⁷⁶ [Sefydliad Ffilm Prydain \(BFI\)](#), ymateb, t.6

¹⁷⁷ Ymateb Middle Tech Coalition (MTC)

¹⁷⁸ [Wikimedia UK](#), ymateb, t.2-3

gwasanaethau'n cyfeirio at gymorth allanol, dylent wneud hynny'n gyfrifol a, lle bo hynny'n briodol, ar y cyd â chyllid a chydweithio sy'n cryfhau capasiti trydydd partiön.

- 3.95 Rydym yn nodi'r farn bod darparu effeithiol yn gofyn am gydlynw ar draws gwasanaethau, cymdeithas sifil a rhanddeiliaid eraill. Er bod yr argymhellion hyn wedi'u hanelu at wasanaethau, rydym yn cytuno y gall cydweithio ehangach helpu i leihau dyblygu a gwella cydlynw ar draws yr ecosystem. Byddwn yn parhau i ystyried sut gall Ofcom gefnogi cynnull, rhannu gwybodaeth ac alinio, yn ogystal â'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud drwy'r gynhadledd flynyddol ar lythrennedd yn y cyfryngau a'n rhwydwaith.
- 3.96 Nodwn gais Wikimedia UK i gael cyfeiriad ato yn y rhestr enghreifftiol o drydydd partiön. Rydym wedi dileu'r rhestr o sefydliadau trydydd parti enghreifftiol, gan gydnabod ei bod yn anodd darparu rhestr gynhwysfawr.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.97 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan rhanddeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarw yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol 6. Grymuso a galluogi trydydd partiön arbenigol i ddarparu gwell cymorth, gan helpu i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ymdrechion llythrennedd yn y cyfryngau

Mae trydydd partiön arbenigol yn chwarae rôl hollbwysig yn cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ymysg y boblogaeth. Maen nhw'n cyfrannu amrywiaeth o gryfderau ac arbenigedd at lythrennedd yn y cyfryngau: mae gan rai wybodaeth ddofn ar lawr gwlad am anghenion defnyddwyr a gwendidau cymunedol, ac mae eu cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddynt, tra bo eraill yn cynnig arbenigedd mewn agweddau penodol ar llythrennedd yn y Cyfryngau, fel cymorth addysgol neu broffesiynol. Mae rhai mewn sefyllfa unigryw fel lleisiau arbenigol ym maes diogelwch ar-lein, iechyd neu fod yn rhieni i oedolion ifanc, ac mae rhai'n darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb sy'n cynyddu hyder ac ymgysylltiad.¹⁷⁹ Mae eu galluoedd amrywiol yn eu gwneud yn bartneriaid hanfodol o ran cyrraedd a chefnogi amrywiaeth eang o bobl.

Mae gan wasanaethau ar-lein rôl bwerau i'w chwarae yn cysylltu pobl â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt, yn enwedig yn ystod argyfyngau neu adegau ystyrion ar daith y defnyddiwr. Er enghraifft, gall gwasanaethau arwain defnyddwyr at adnoddau trydydd parti arbenigol a chynnwys awdurdodol mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr i'w defnyddwyr. Gallai hyn gynnwys integreiddio sbardunau sy'n ymwybodol o gyd-destun ac ymyriadau sy'n sensitif o ran amser, fel pan fydd defnyddwyr yn chwilio am gynnwys niweidiol neu'n rhoi gwybod amdano, yn ogystal â defnyddio llifoedd cynefino neu ddeunyddiau canolfan gymorth.¹⁸⁰ O'n profiad ni, mae partneriaethau â sefydliadau sydd

¹⁷⁹ Er enghraifft, ffynonellau awdurdodol fel y GIG neu Sefydliad Iechyd y Byd a gafodd eu defnyddio yn ystod y pandemig.

¹⁸⁰ Ar ben hynny, yn unol â'r [Issued Protection of Children Code of Practice for user-to-user \(U2U\) services](#), mae PCU F2 yn argymhellu y dylai rhai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddarparu gwybodaeth i blant pan fyddant yn cyfyngu ar gynnwys neu ryngweithio â chyfrifon eraill. Ar ben hynny, mae PCU F3-F5 yn argymhellu bod rhai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr yn cyfeirio plant at gymorth pan fyddant yn adrodd, yn postio/ailbostio neu'n chwilio am gynnwys niweidiol.

eisoes â pherthynas arbenigol â grwpiau targed yn allweddol ar gyfer ymgysylltu ac ymateb effeithiol.¹⁸¹ Mae'r dull hwn nid yn unig yn cefnogi anghenion gwybodaeth uniongyrchol ond hefyd yn cryfhau llythrennedd yn y cyfryngau defnyddwyr drwy eu helpu i ganfod ffynonellau credadwy a llywio sefyllfaoedd cymhleth yn hyderus.

Rydym yn argymhell bod gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynnwys yn edrych ar ffyrdd o rannu dolenni amserol â ffynonellau trydydd parti arbenigol a chynnwys awdurdodol yn ystod adegau ystyrlon. Mae hyn yn helpu pobl i gael gafael ar gymorth dibynadwy ac i ymateb yn hyderus.

Meithrin Ymddiriedaeth y Tu Hwnt i'r Gwasanaeth

3.98 Mae Argymhellion 7 i 9 yn canolbwyntio ar annog gwasanaethau i gyfrannu at lythrennedd yn y cyfryngau yn ehangach, gan gynnwys drwy bartneriaethau ac allgymorth y tu hwnt i'w gwasanaeth eu hunain.

Argymhelliad 7

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

Argymhelliad Drafft 7: Helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygredded gwybodaeth drwy greu a/neu hyrwyddo rhaglenni neu gynnwys addysgol perthnasol

Mae gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ffrydio yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd mawr drwy amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys mentrau addysgol, adnoddau ar-lein, a rhaglenni sy'n helpu i ymgysylltu â chynnwys yn feirniadol. Mae eu cyrhaeddiad eang yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i helpu rhieni, gofawr a sefydliadau trydydd parti i hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau. Mae hyn yn arbennig o wir i PSBs oherwydd eu perthynas ddibynadwy â'u cynulleidfaoedd.

Yn adran 6 o'r Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, fe wnaethom bwysleisio bod angen i PSBs fuddsoddi mewn llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU a galw arnynt i adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo.¹⁸² Fe wnaethom dynnu sylw at eu perthynas unigryw a dibynadwy â chynulleidfaoedd fel ased allweddol i helpu pobl i fagu hyder wrth lywio amgylcheddau digidol. Fe wnaethom hefyd nodi y gallai PSBs a darlledwyr masnachol mawr chwarae rôl yn helpu defnyddwyr i ddeall sut mae defnyddio offer i guradu eu ffrydiau cynnwys.¹⁸³ Fe wnaethom dynnu sylw at enghreifftiau o weithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau gan PSBs a Sky. Roedd hyn yn cynnwys mentrau addysgol fel gweithdai i bobl ifanc, adnoddau ar-lein fel cwisiau a chynnwys rhyngweithiol, ac integreiddio themâu amserol ag amrywiaeth eang o raglenni, fel sioeau cylchgrawn, dramâu ac operâu sebon.¹⁸⁴ Ac ystyried ei gylch gwaith i gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed, fel ddywedom fod gan y BBC gyfrifoldeb penodol hefyd. Fe wnaethom awgrymu y

¹⁸¹ Ofcom, 2024, [Listening to experts: mental health and media literacy](#).

¹⁸² Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). t.57.

¹⁸³ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). t.62.

¹⁸⁴ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). tt.60-61.

gallai fod cyfleoedd i PSBs gydweithio'n agosach i gynyddu'r ddarpariaeth a'r effaith mewn perthynas ag Llythrennedd yn y Cyfryngau.¹⁸⁵

Felly, rydym yn argymhell bod gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ffrydio yn creu a/neu'n hyrwyddo rhaglenni neu gynnwys addysgol sy'n helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygredded gwybodaeth ar lwyfannau ar-lein ac mewn amgylcheddau digidol.

Byddai'r rhain yn eu tro yn helpu rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am brofiad ar-lein eu plentyn.

Crynodeb o'r Ymatebion

- 3.99 Roedd Sefydliad Good Things, y Ganolfan ar gyfer Diogelu Menywod Ar-lein, Parent Zone, S4C, y BBC, Channel 4 a Llywodraeth Cymru yn cytuno â'n cynnig y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi a hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau.¹⁸⁶
- 3.100 Cyfeiriodd Internet Matters at ei ymchwil, a oedd yn dangos bod darparwyr newyddion a darlledwyr yn parhau i chwarae rhan allweddol i bobl ifanc o ran dilysu gwybodaeth, ac, yn unol â hynny, dywedodd ei bod yn gadarnhaol bod datganiad Ofcom wedi'i dargedu at amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau newyddion a darlledu sefydledig.¹⁸⁷
- 3.101 Dywedodd Parent Zone, ochr yn ochr â gwasanaethau darlledu, y gallai gwasanaethau ffrydio chwarae rhan bwysig.¹⁸⁸ Dywedodd Parent Zone fod y rhaglen deledu Adolescence, a gafodd ei dangos am y tro cyntaf ar Netflix ym mis Mawrth 2025 ac a oedd yn delio â themâu sy'n ymwneud â defnydd pobl ifanc o gyfryngau cymdeithasol, yn enghraifft o'r effaith y gall gwasanaethau ffrydio ei chael ar gynulleidfaoedd yn y DU. Fodd bynnag, dywedodd Parent Zone hefyd fod yr enghraifft hon yn dangos y gallai fod risgiau'n gysylltiedig â chynnwys sy'n codi pryderon cynulleidfaoedd ac ymwybyddiaeth o faterion heb ddeunyddiau addysgol cysylltiedig a allai helpu i ddarparu atebion.
- 3.102 Dywedodd Internet Matters a Mencap mai cyfryngau cymdeithasol yw'r brif ffynhonnell newyddion i lawer o bobl ifanc, a bod perygl y bydd eithrio gwasanaethau ar-lein fel cyfryngau cymdeithasol o Argymhelliad 7 yn gadael bwlch sylweddol yn yr ecosystem llythrennedd yn y cyfryngau.¹⁸⁹ Dywedodd Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) hefyd y dylid cynnwys set ehangach o wasanaethau yn Argymhelliad 7 oherwydd bod llawer o wasanaethau ar-lein eraill bellach yn gweithredu fel prif ffynonellau cynnwys addysgol, gan gynnwys gemau fideo, platfformau rhannu fideos (VSPs), ac archifau fideo fel Pathe, archifau'r BBC ac archif genedlaethol BFI.¹⁹⁰ Dywedodd Dr Craig Haslop, Prifysgol Lerpwl, y dylai gwasanaethau fod yn gyfrifol am addysgu pobl ifanc ar ddiwylliannau algorithmig rhyweddol a sut mae creu cynnwys a dylanwadwyr yn gweithio.¹⁹¹
- 3.103 Gofynnodd rhai ymatebwyr am amlygrwydd ar wasanaethau ar-lein. Dywedodd Channel 4 a'r BBC, fel Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, y dylent gael mwy o amlygrwydd i ddarparu cynnwys dibynadwy o ansawdd uchel.¹⁹² Galwodd Channel 4 am ragor o amlygrwydd ar lwyfannau rhannu fideos, a galwodd y BBC am fwy o amlygrwydd ar lwyfannau protocol rhyngwryd yn gyntaf.

¹⁸⁵ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). t.61.

¹⁸⁶ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.7-8; [Y Ganolfan ar gyfer Diogelu Menywod Ar-lein](#), tt.5-6; [Parent Zone](#), ymateb, tt.11-12; [S4C](#), ymateb, tt.3-4; [BBC](#), ymateb, t.9; [Channel 4](#), ymateb, tt.1-2; ymateb Llywodraeth Cymru

¹⁸⁷ [Internet matters](#), ymateb, t.2

¹⁸⁸ [Parent Zone](#), ymateb, tt.11-12

¹⁸⁹ [Internet Matters](#), ymateb, tt.10-11; [Mencap](#), ymateb, t.3

¹⁹⁰ [BFI](#), ymateb, t.10

¹⁹¹ [Dr Craig Haslop, Prifysgol Lerpwl](#), ymateb, 2025, t.1

¹⁹² [BBC](#), ymateb, tt.8-9; [Channel 4](#), tt.1-2

Dywedodd Sefydliad Molly Rose hefyd y dylid hyrwyddo cynnwys o ansawdd uchel gan ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ochr yn ochr â gwasanaethau iechedd gwladol, ar wasanaethau ar-lein.¹⁹³ Dywedodd Dr Elinor Carmi y dylid blaenoriaethu ffynonellau a sefydliadau dibynadwy ar ffrydiau gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol.¹⁹⁴

- 3.104 Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth a Parent Zone yn cytuno y gall PSBs chwarae rhan bwysig yn y gwaith o greu a hyrwyddo rhaglenni sy'n helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygredded gwybodaeth.¹⁹⁵ Fodd bynnag, er bod ymddiriedaeth mewn PSBs yn uchel ar hyn o bryd, dywedodd fod safbwyntiau ar PSBs wedi'u polareiddio fwyfwy a bod yn rhaid i raglenni "Llythrennedd yn y Cyfryngau gael eu hynysu rhag cael eu fframio fel rhai pleidiol".¹⁹⁶
- 3.105 Dywedodd S4C fod rhaglenni Cymraeg yn bwysig ochr yn ochr â chynnwys addysgol sy'n helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygredded gwybodaeth.¹⁹⁷

Ein hymateb

- 3.106 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod PSBs a darparwyr dibynadwy eraill sy'n darparu gwybodaeth o ansawdd uchel yn parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi gallu defnyddwyr i asesu cynnwys. Mae Argymhelliad 7 yn annog PSBs a darllledwyr a ffrydwyr eraill i greu a/neu hyrwyddo rhaglenni a chynnwys addysgol sy'n helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygredded gwybodaeth mewn amgylcheddau digidol.
- 3.107 Rydym yn cytuno y gall gwasanaethau ffrydio gael effaith sylweddol drwy gynnwys proffil uchel, ac mae'r effaith honno ar ei chryfaf o'i pharu â deunyddiau ategol hygyrch sy'n helpu cynulleidfaoedd i weithredu ar yr hyn maen nhw wedi'i weld. Bwriad Argymhelliad 7 yw annog gwasanaethau i ategu rhaglenni codi ymwybyddiaeth gyda chyfeirio clir, canllawiau neu adnoddau addysgol. Mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn cael eu cefnogi lle bo hynny'n bosibl yn hytrach na'u gadael heb lwybr at ragor o wybodaeth neu gyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd.
- 3.108 Rydym hefyd yn cytuno bod llawer o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion a bod llawer o wahanol wasanaethau bellach yn gweithredu fel prif ffynhonnell pobl o gael gafael ar gynnwys addysgol. Rydym wedi ehangu Argymhelliad 7 i gynnwys gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynnwys.
- 3.109 O ran rhanddeiliaid a ddywedodd y dylid rhoi mwy o amlygrwydd i gynnwys PSB ar wasanaethau rhannu fideos a phrotocol rhyngwryd yn gyntaf, mae Argymhelliad 7 yn argymhelliad sy'n ymwneud ag llythrennedd yn y cyfryngau yn hytrach na fframwaith amlygrwydd. Fodd bynnag, mae'n cydfynd â gwaith ehangach Ofcom ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a phwysigrwydd sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd yn rhwydd i gynnwys dibynadwy o ansawdd uchel mewn amgylcheddau digidol. Yn 2025, cyhoeddodd Ofcom Argyfwng Darlledu: *Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus*, lle nodwyd y dylai PSBs, gwasanaethau darlledu eraill, gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a phlatfformau rhannu fideos y mae cynulleidfaoedd yn troi atynt fwyfwy, weithio gyda'i gilydd i'w gwneud yn hawdd dod o hyd i gynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.¹⁹⁸

¹⁹³ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t.8

¹⁹⁴ [Dr Elinor Carmi](#), ymateb, t.3

¹⁹⁵ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, t.5; [Parent Zone](#), ymateb, t.12

¹⁹⁶ [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb gwybodaeth](#), ymateb, t.5

¹⁹⁷ [S4C](#), ymateb, tt.3-4

¹⁹⁸ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). tt.45-55.

- 3.110 O ran awgrymiadau rhanddeiliaid y dylid blaenoriaethu ffynonellau a sefydliadau dibynadwy ar ffrydiau gwasanaeth, mae Argymhelliad 7 yn cefnogi'r amcan sylfaenol, gan helpu pobl i asesu hygrededd drwy annog creu a hyrwyddo rhaglenni a chynnwys addysgol perthnasol, sy'n cwmpasu cynnwys gan ddarparwyr dibynadwy. Fodd bynnag, bydd dulliau sgorio a blaenoriaethu yn amrywio yn ôl gwasanaeth a rhaid eu hystyried yn gymesur, mewn ffyrdd sy'n cefnogi dealltwriaeth defnyddwyr ac yn osgoi canlyniadau anfwriadol.
- 3.111 Rydym yn nodi'r ffaith bod rhanddeiliaid yn cydnabod y berthynas ymddiriedaeth uchel sydd gan PSBs â'u cynulleidfaoedd. Mae'n bwysig bod PSBs yn meithrin ac yn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae'n briodol mai PSBs sy'n gyfrifol o hyd am benderfyniadau golygyddol. Rydym yn gwybod bod rhai PSBs eisoes yn darparu rhywfaint o raglenni gwybodaeth a chynnwys addysgol sy'n cefnogi safon uchel o llythrennedd yn y cyfryngau cynulleidfaoedd.
- 3.112 Rydym yn cytuno bod rhaglenni Cymraeg yn bwysig. Pan fo'n briodol, dylai gwasanaethau perthnasol ddarparu mynediad at amrywiaeth eang o raglenni a datblygu dulliau effeithiol sy'n briodol yn ddiwylliannol i hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.113 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan rhanddeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol: 7: Helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygrededd gwybodaeth drwy greu a/neu hyrwyddo rhaglenni neu gynnwys addysgol perthnasol

Gall darparwyr gwasanaeth gyrraedd cynulleidfaoedd mawr drwy amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys mentrau addysgol, adnoddau ar-lein, a rhaglenni sy'n helpu i ymgysylltu â chynnwys yn feirniadol. Mae eu cyrhaeddiad eang yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i helpu rhieni, gofawyr a sefydliadau trydydd parti i hybu llythrennedd yn y cyfryngau.

Yn 2025, cyhoeddodd Ofcom [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). Ynddo, fe ddywedom fod angen i PSBs fuddsoddi mewn llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU ac fe wnaethom alw arnynt i adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo.¹⁹⁹ Fe ddywedom fod perthynas unigryw a dibynadwy PSBs â chynulleidfaoedd yn ased allweddol i helpu pobl i fagu hyder wrth lywio amgylcheddau digidol. Yn Argyfwng Darlledu, fe ddywedom hefyd y gallai PSBs a darlledwyr masnachol mawr chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi defnyddwyr i ddeall sut mae defnyddio adnoddau i guradu eu ffrydiau cynnwys, ac fe wnaethom gynnwys enghreifftiau o weithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau gan PSBs a Sky.²⁰⁰ Roedd yr enghreifftiau hyn yn cynnwys mentrau addysgol fel gweithdai i bobl ifanc, adnoddau ar-lein fel cwisiau a chynnwys rhyngweithiol, ac integreiddio themâu amserol ag amrywiaeth eang o raglenni, fel sioeau cylchgrawn, dramâu ac operâu sebon.²⁰¹ Fe ddywedom y gallai fod cyfleoedd i PSBs gydweithio'n agosach i gynyddu'r ddarpariaeth a'r effaith mewn perthynas ag Llythrennedd yn y Cyfryngau.²⁰² Ac ystyried ei gylch gwaith i gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed,

¹⁹⁹ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). t.57.

²⁰⁰ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). t.62.

²⁰¹ Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). tt.60-61.

²⁰² Ofcom, 2025, [Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#). t.61.

dyweddom fod gan y BBC gyfrifoldeb penodol. Ddiwedd 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Phapur Gwyrdd ar Siarter y BBC a oedd yn nodi dyletswyddau posibl o ran llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer y darlledwr. ²⁰³ Ymhellach, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Phapur Gwyrdd *Watch this Space: A new strategic direction for UK media yn ddiweddar ar ddyfodol dosbarthu teledu.*²⁰⁴

Yn Argyfwng Darlledu, fe wnaethom alw ar PSBs a phlatfformau rhannu fideos i weithio gyda'i gilydd i helpu cynulleidfaoedd i weld a dod o hyd i'r cynnwys hwn yn haws, ac rydym yn edrych ar ba gamau allai gefnogi hyn. Mae rhai darparwyr gwasanaeth eisoes yn cymryd camau i ddod â chynnwys awdurdodol i'r wyneb yn unol â'r gofyniad hwn. **Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n creu a/neu'n hyrwyddo cynnwys addysgol sy'n helpu pobl i ddeall, dehongli ac asesu hygyrdded gwybodaeth** drwy amrywiaeth eang o ddulliau gweithredu ar wasanaethau ar-lein ac mewn amgylcheddau digidol mewn ffyrdd sy'n gynhwysol yn ddiwylliannol. Byddai'r rhain yn eu tro yn cefnogi rhieni a gofawyr i wneud penderfyniadau gwybodus am brofiadau ar-lein eu plentyn ac yn helpu i baratoi plant ar gyfer dyfodol digidol.

Argymhelliad 8

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 8: Hybu llythrennedd yn y cyfryngau y tu hwnt i'w gwasanaethau, gan fuddsoddi mewn ymgyrchoedd, cynnwys a phartneriaethau sy'n hybu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau

Nid yw datblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau yn rhywbeth cynhenid – mae angen amser a chymorth, ac felly buddsoddiad. Mae poblogaeth sy'n ymwybodol o'r cyfryngau yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dinesig²⁰⁵, ac yn fwy tebygol o feddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu at dwf yn yr economi ar-lein.

O'n sgrysiâu ein hunain a gwaith yr ydym wedi'i gomisiynu gan y Charities Aid Foundation, gwyddom ei bod hi'n anodd cael gafael ar gyllid ar gyfer rhaglenni datblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau yn y gymuned, a phan fo cyllid ar gael, ei fod yn gyllid tymor byr ac yn aml yn cael ei arwain gan ddymuniadau brand yn hytrach na bodloni anghenion cymunedol.

Drwy gefnogi rhaglenni llythrennedd yn y cyfryngau, gall platfformau ar-lein ymgysylltu â chymunedau drwy'r rhai sydd â pherthnasoedd dibynadwy, a dyma lle gellir sicrhau newid yn y ffordd fwyaf effeithiol yn aml. Er nad yw hyn heb ei anawsterau, mae'n cynrychioli newid ystyrlon tuag at gyfrifoldeb rhagweithiol. Rydym yn annog platfformau ar-lein i feithrin partneriaethau strategol ag elusennau, addysgwyr²⁰⁶ a chyrrff eraill i helpu i rannu'r cyfrifoldebau, a chynyddu effaith ymdrechion platfformau ar-lein ac eraill.

²⁰³ [Britain's Story: The Next Chapter – BBC Royal Charter Review, Green Paper and public consultation.](#)

²⁰⁴ DCMS, 2026, *Watch this Space: A new strategic direction for UK media*

²⁰⁵ Park, 2023, [Exploring the relationship between media literacy, online interaction, and civic engagement.](#)

²⁰⁶ Ofcom, 2025, [A teachable moment: opportunities, gaps and next steps from our review of Media literacy](#)

Tynnodd Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i Lythrennedd yn y Cyfryngau sylw at rôl cwmnïau technoleg yn y gwaith o hybu llythrennedd yn y cyfryngau ledled y DU, gan argymhell eu bod yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau pobl.²⁰⁷ Mae hyn yn cyd-fynd ag un o nodau ein strategaeth tair blynedd i annog gwasanaethau ar-lein i hyrwyddo, cefnogi ac ariannu mentrau llythrennedd yn y cyfryngau. Rydym yn disgwyl i'r argymhelliad hwn gael ei fabwysiadu mewn ffordd sy'n gymesur â graddfa a chyrhaeddiad pob darparwr gwasanaethau. At y diben hwnnw, **rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n mynd ati i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau drwy ymrwymo i ariannu rhaglenni meithrin sgiliau yn y tymor hir.** Mae llawer o'r hyn rydym wedi'i ddysgu am 'beth sy'n gweithio' wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau yn awgrymu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw gan sefydliadau sydd â pherthynas ddibynadwy â'u cymunedau. Mae'r gwaith hwn gan amlaf yn lleol, yn benodol, wedi'i dargedu ac yn cael effaith.²⁰⁸

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.114 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno ag Argymhelliad 8 drafft. Dywedodd Sefydliad Good Things, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), Pinterest, Parent Zone a'r BBC fod gwerth mewn partneriaethau ar draws gwasanaethau, cymdeithas sifil, addysgwyr, sefydliadau cymunedol ac academyddion ar gyfer darparu llythrennedd yn y Cyfryngau.²⁰⁹ Dywedodd Impress fod partneriaethau'n hanfodol i gefnogi pobl mewn cymunedau.²¹⁰ Dywedodd Parent Zone ei bod yn bwysig bod partneriaethau ar-lein yn mynd ar drywydd partneriaethau llythrennedd yn y cyfryngau sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o sefydliadau.²¹¹ Dywedodd Dr Craig Haslop, Prifysgol Lerpwl, y dylai gwasanaethau ymgysylltu â bechgyn a dynion yn uniongyrchol a chynnwys llais pobl ifanc mewn newid algorithmig.²¹²
- 3.115 Dywedodd Parent Zone a'r Gymdeithas PSHE y dylai Ofcom wneud mwy yn ecosystem y bartneriaeth i helpu i oresgyn unrhyw 'anghydbwysedd pŵer' y mae sefydliadau llythrennedd yn y cyfryngau yn eu hwynebu wrth weithio gyda gwasanaethau ar-lein mawr.²¹³ Dywedodd Parent Zone fod perygl i'r diffyg cyllid statudol a rhaglenni grant tymor byr presennol greu ecosystem anghydbwys.²¹⁴ Dywedodd y Gymdeithas PSHE y gallai platfformau technoleg fod yn rhan o'r ecosystem gyllido ar gyfer rhaglenni llythrennedd yn y cyfryngau - ond dim ond gyda chanllawiau priodol a thrwy gydnabod yr anghydbwysedd pŵer rhwng y cyllidwyr a'r rheini sy'n cael y cyllid.²¹⁵

[training for teachers.](#)

²⁰⁷ Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, 2025, [3ydd](#) Adroddiad Sesiwn 2024-25, Llythrennedd yn y Cyfryngau. t.37, paragraff 113.

²⁰⁸ Ofcom, 2024, [Beth sy'n gweithio o ran darparu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau](#)

²⁰⁹ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.7-8; [Cymdeithas Addysg y Gweithwyr \(WEA\)](#), ymateb, t.2; [Pinterest](#), ymateb, tt.6-7; [Parent Zone](#), ymateb, tt.12-13; [BBC](#), ymateb, t.9

²¹⁰ [Impress](#), ymateb, t.2

²¹¹ [Parent Zone](#), ymateb, tt.12-13

²¹² [Dr Craig Haslop, Prifysgol Lerpwl](#), ymateb, tt.3-4

²¹³ [Parent Zone](#), ymateb, t.13; [PSHE](#), ymateb, t.2

²¹⁴ [Parent Zone](#), ymateb, t.13

²¹⁵ [PSHE](#), ymateb, t.2

Dywedodd Dr Elinor Carmi a Shout Out UK hefyd y gellid trethu gwasanaethau ar-lein i ariannu sefydliadau ac ymchwil llythrennedd yn y cyfryngau.²¹⁶

- 3.116 Dywedodd y Gymdeithas PSHE y gellid hyrwyddo buddiannau sefydliadau llythrennedd yn y cyfryngau drwy ganllawiau diogelu priodol fel trefniadau llywodraethu cliriach, mwy o dryloywder, a rolau goruchwylio, archwilio neu werthuso Llythrennedd yn y Cyfryngau i drydydd partion.²¹⁷
- 3.117 Dywedodd Internet Matters y dylai Ofcom wneud mwy i hyrwyddo manteision partneriaethau rhwng gwasanaethau a thrydydd partion arbenigol ar gyfer gwerthuso ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau oherwydd bod gwerthuso allanol yn cynyddu hygrededd.²¹⁸
- 3.118 Mae S4C yn codi pwysigrwydd cael mentrau a phartneriaethau llythrennedd yn y cyfryngau sy'n adlewyrchu anghenion siaradwyr Cymraeg.²¹⁹
- 3.119 Fe wnaeth Google a Pinterest annog bod yn ofalus rhag cael agwedd ragnodol at bartneriaethau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau weithio mewn partneriaeth â sefydliadau penodol.²²⁰
- 3.120 Dywedodd Sefydliad Good Things, Shoutout UK, Parent Zone, OSAN, y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein, Impress a Sefydliad Molly Rose fod diffyg buddsoddiad tymor hir a bod angen cyllid cynaliadwy i ddarparu rhaglenni da ar lythrennedd yn y cyfryngau.²²¹
- 3.121 Dywedodd Sefydliad Good Things ei bod yn bwysig bod straeon am lwyddiant ym maes llythrennedd yn y cyfryngau yn cael eu rhannu er mwyn i sefydliadau eraill wybod sut beth yw da ac y gellir dysgu oddi wrth y partneriaethau hyn.²²²
- 3.122 Dywedodd Internet Matters y dylai Ofcom gydnabod yn gliriach y gall cymunedau, ymgyrchoedd a phartneriaethau ar-lein fod mor effeithiol â rhai oddi ar y we o ran darparu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau.²²³
- 3.123 Dywedodd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) y dylai Ofcom argymhell bod gwasanaethau ar-lein yn ymgysylltu ag Awdurdodau Cyfun Strategol (Maerol) wrth iddynt ddatblygu strategaethau sgiliau (gan ddefnyddio'r Gronfa Sgiliau Oedolion ddatganoledig) i ymgorffori dulliau llythrennedd yn y cyfryngau.²²⁴

Adborth eilaidd am y digwyddiad

Mewn trafodaeth ar yr argymhellion gyda'n panel cyngori ar Lythrennedd yn y Cyfryngau, adlesiwyd safbwyntiau rhanddeiliaid ehangach ar yr heriau sydd ynghlwm â gofyn i wasanaethau hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau y tu hwnt i'w gwasanaethau eu hunain, yn enwedig lle mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch annibyniaeth, ymddiriedaeth a gwrthdaro rhwng buddiannau.

²¹⁶ [Dr Elinor Carmi](#), ymateb, tt. 3-4; [Shout Out UK](#), ymateb, t.3

²¹⁷ [PSHE](#), ymateb, tt.1-2

²¹⁸ [Internet matter](#), ymateb, tt.13-14

²¹⁹ [S4C](#), ymateb, t.4

²²⁰ [Google](#), ymateb, t.7; [Pinterest](#), ymateb, t.7

²²¹ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.11; [Shout Out UK](#), ymateb, tt.2-3; [Parent Zone](#), ymateb, t.13; [OSAN](#), ymateb, t.4; [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t5; [Impress](#), ymateb, t.2; [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, t.10

²²² [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.9

²²³ [Internet matter](#), ymateb, t.11

²²⁴ [CAG](#), ymateb, t.3

Pwysleisiodd cyfranogwyr yn ein gweithdai cynhadledd hefyd pa mor bwysig oedd hi fod gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth ag addysgwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau cymdeithas sifil, gan nodi bod angen buddsoddiad parhaus mewn partneriaethau i gyrraedd gwahanol gymunedau'n effeithiol.

Ein hymateb

- 3.124 Rydym yn cytuno y gall ymyriadau wedi'u targedu a mathau penodol o bartneriaethau helpu i feithrin ymddiriedaeth mewn cymdeithas y tu hwnt i wasanaethau unigol. Mae argymhelliad 8 yn annog gwasanaethau i fuddsoddi mewn ymgyrchoedd, cynnwys a phartneriaethau sydd wedi'u teilwra i anghenion grwpiau penodol, gan gefnogi dulliau eang a phenodol o ymdrin ag Llythrennedd yn y Cyfryngau. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagnodi unrhyw fathau unigol o bartneriaethau nac ymyriadau.
- 3.125 Nid ydym yn credu fod dull rhagnodol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau weithio mewn partneriaeth â sefydliadau penodol yn ymarferol, gan fod yr argymhellion yn wirfoddol. Mae argymhelliad 8 yn fwriadol hyblyg ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn caniatáu i wasanaethau nodi'r partneriaid mwyaf perthnasol ar gyfer eu defnyddwyr a'u cyd-destun risg, yn hytrach na gorfodi cydweithrediadau penodol.
- 3.126 O ran rhywfaint o adborth gan randdeiliaid y gall fod risg o anghydbwysedd pŵer mewn partneriaethau rhwng darparwyr gwasanaethau llai a rhai llawer mwy, rydym yn cefnogi ymdrechion i wella tryloywder, goruchwyliaeth a gwerthuso wrth weithio mewn partneriaeth. Drwy ein gwaith ar Egwyddorion Arferion Gorau, ein nod yw rhannu canllawiau a threfnu gweithdai i helpu sefydliadau i ddeall sut beth yw partneriaethau effeithiol.
- 3.127 Rydym yn cytuno bod buddsoddiad tymor hir a chyllid cynaliadwy yn bwysig er mwyn darparu rhaglenni llythrennedd yn y cyfryngau da. Mae argymhelliad 8 yn annog gwasanaethau i ymrwymo i gyllido rhaglenni meithrin sgiliau yn y tymor hir, gan gydnabod bod cymorth parhaus yn allweddol i gyflawni mentrau llythrennedd yn y cyfryngau effeithiol.
- 3.128 Rydym yn cytuno y gall rhannu straeon am lwyddiant ym maes llythrennedd yn y cyfryngau a chydweithio â gwerthuswyr allanol helpu i feithrin hygyrdded a hyrwyddo arferion da. Rydym wedi ystyried hyn ymhellach yn Argymhelliad 10, lle rydym yn annog gwasanaethau i rannu tystiolaeth o "beth sy'n gweithio", ac yna gadewir i'r gwasanaethau benderfynu a ydynt yn cynnal y gwerthusiad hwn eu hunain neu'n gweithio gyda thrydydd partïon arbenigol i'w werthuso fel rhan o gymhwyso'r argymhellion hyn yn gymesur.
- 3.129 Rydym yn cydnabod y gall cymunedau ar-lein ac oddi ar y we chwarae rhan werthfawr yn y gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau ac annog partneriaethau sy'n defnyddio'r dulliau amrywiol hyn.
- 3.130 Rydym yn nodi'r awgrym y dylai gwasanaethau ar-lein ymgysylltu ag Awdurdodau Cyfun Strategol (Maerol); fodd bynnag, o ystyried bod gwasanaethau'n gweithredu ar draws nifer o awdurdodaethau, nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol argymhell hyn.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.131 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol 8: Hybu llythrennedd yn y cyfryngau y tu hwnt i'w gwasanaethau, gan fuddsoddi mewn ymgyrchoedd, cynnwys a phartneriaethau sy'n hybu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau

Nid yw datblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau yn rhywbeth greddfoll – mae angen amser, cymorth, a buddsoddiad. Mae poblogaeth sydd ag llythrennedd yn y cyfryngau yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dinesig, ac yn fwy tebygol o feddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu at dwf economaidd.²²⁵ Fodd bynnag, mae'n aml yn anodd dod o hyd i gyllid ar gyfer rhaglenni datblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfryngau, ac mae'n aml yn fyrdymor, a gall gael ei arwain gan ofynion brand yn hytrach nag anghenion cymunedol.

Drwy gefnogi rhaglenni llythrennedd yn y cyfryngau, gall darparwyr gwasanaethau ymgysylltu â chymunedau drwy'r rhai sydd â pherthnasoedd dibynadwy, a dyma lle gellir sicrhau newid yn y ffordd fwyaf effeithiol yn aml. Rydym yn annog pob gwasanaeth i feithrin partneriaethau strategol, graddadwy ag elusennau, addysgwyr a chyrrff eraill i helpu i rannu'r cyfrifoldebau, a chynyddu effaith ymdrechion gwasanaethau ar-lein ac eraill.

Byddwn yn edrych ar ddatblygu cyfres o Egwyddorion Arfer Gorau ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau yn y gymuned. Bydd y rhain yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â sefydliadau cymunedol a gallant gynnwys meysydd fel canlyniadau, modelau cyllido, a dylunio rhaglenni.

Tynnodd *Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i Lythrennedd yn y Cyfryngau* sylw at rôl cwmnïau technoleg yn hybu llythrennedd yn y cyfryngau ledled y DU, gan argymhell eu bod yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau pobl.²²⁶ Mae hyn yn cyd-fynd ag un o nodau ein strategaeth tair blynedd i annog gwasanaethau ar-lein i hyrwyddo, cefnogi ac ariannu mentrau llythrennedd yn y cyfryngau. **Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n mynd ati i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau drwy ymrwymo i ariannu rhaglenni meithrin sgiliau cynaliadwy dros y tymor hir.**

Mae'r hyn rydym wedi'i ddysgu am 'beth sy'n gweithio' wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau yn awgrymu mai sefydliadau sydd â pherthnasau dibynadwy â'u cymunedau sydd orau am gyflawni hyn. Wrth 'partneriaethau dibynadwy', rydym yn golygu gwaith sy'n lleol, yn benodol, wedi'i dargedu ac yn effeithiol gan amlaf.²²⁷ Rydym hefyd yn cydnabod bod cymunedau ar-lein ac oddi ar y we yn gallu chwarae rhan werthfawr yn y gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau. Rydym yn disgwyl i'r argymhelliad hwn gael ei fabwysiadu mewn ffordd sy'n gymesur â graddfa a chyrrhaeddiad pob darparwr gwasanaethau.

²²⁵ Park, 2023, [Exploring the relationship between media literacy, online interaction, and civic engagement](#).

²²⁶ Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, 2025., t.27, paragraff 113.

²²⁷ Ofcom, 2024, [Beth sy'n gweithio o ran darparu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau](#)

Argymhelliad 9

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 9: Cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ymysg cynulleidfaoedd amrywiol a chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol

Rhaid i lythrennedd yn y cyfryngau fod yn gynhwysol. Dylai ganolbwyntio nid yn unig ar y rhai sydd eisoes yn gallu ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau, ond dylai hefyd geisio cyrraedd y rhai nad ydynt, am wahanol resymau, yn gallu cymryd rhan mewn mentrau llythrennedd yn y cyfryngau ar hyn o bryd. Dylid gwreiddio'r natur gynhwysol hon yn y cam dylunio, a'i chynnal drwy'r gwaith ymgysylltu â defnyddwyr hyd at allgymorth cymdeithasol ehangach.

Yn y cam dylunio, mae cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau cynulleidfaoedd amrywiol a rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn golygu cydnabod bod pob penderfyniad dylunio yn gallu effeithio'n wahanol ar ddefnyddwyr. Felly, dylai platfformau ar-lein, gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ffrydio geisio bodloni amrywiaeth eang o anghenion drwy gynnwys defnyddwyr amrywiol yn y broses ymchwil a datblygu, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn berthnasol. Dylai sicrhau hygyrchedd i ddefnyddwyr anabl, gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar dechnoleg darllen sgrin, fod yn ystyriaeth allweddol.²²⁸

Dylai darparwyr gwasanaethau hefyd ystyried sut mae cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau cynulleidfaoedd amrywiol pan fyddant yn defnyddio eu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu cydnabod bod ffactorau fel oedran, sgiliau ar-lein, hyder a hygyrchedd i gyd yn dylanwadu ar sut mae gwybodaeth yn cael ei derbyn a'i deall, ac y gallai mathau penodol o gynnwys effeithio'n wahanol ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr.²²⁹

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn mabwysiadu arferion dylunio cynhwysol sy'n mynd i'r afael â sbectrwm eang o anghenion llythrennedd yn y cyfryngau, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith syml, ciwiau gweledol, a chynnal profion defnyddwyr gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sicrhau bod gwybodaeth yn glir, yn hygyrch ac yn ystyrlon.

Y tu hwnt i'r cynnig craidd, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y gallai fod angen cymorth ar gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu sydd ar y cyrion i gael mynediad ac ymgysylltu'n ystyrlon. Gall rhwystrau i fynediad godi o ffactorau fel statws economaidd-gymdeithasol, oedran,²³⁰ rhyw, anabledd a nodweddion croestoriadol eraill.⁵¹ Ein profiad ni yw bod mentrau llythrennedd yn y cyfryngau sy'n cael

²²⁸ Canfu ymchwil Ofcom fod 18% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd rhwng 16 a 24 oed yn dweud eu bod wedi cael trafferth darllen gwybodaeth ar-lein oherwydd roedd hi'n anodd defnyddio bysellfwrdd i lywio drwy'r cynnwys. Nododd yr un gyfran eu bod wedi cael yr un drafferth oherwydd nad oedd y cynnwys yn gydnaws, neu ei fod yn anodd ei ddefnyddio, gyda darlennydd sgrin neu dechnoleg darllen sgrin. Ffynhonnell: Ofcom, 2023, *Telerau Platfformau a Hygyrchedd (C6)*

²²⁹ Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai cynnwys sy'n dangos trais fod yn fwy tebygol o gael effaith niweidiol ar blant niwroamrywiol. Ofcom, 2024, [Deall y llwybrau at gynnwys treisgar ar-lein ymysg plant](#).

²³⁰ Ofcom, 2024, [Exploring high media literacy among children aged 8-12](#) ac [Exploring high media literacy among adults and children](#).

eu llywio gan mae profiadau bywyd pobl, eu diwylliannau a'u cyd-destunau yn fwy tebygol o fod yn effeithiol ac yn gynhwysol. Rydym yn cydnabod y gall y gwaith hwn fod yn gymhleth ac angen llawer o adnoddau, a bod rhai darlledwyr traddodiadol a gwasanaethau radio cymunedol eisoes yn gwneud gwaith i gyrraedd cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd ar y cyrion. Rydym yn eu hannog i barhau â'r mentrau hyn ac adrodd arnynt.

Rydym hefyd yn argymhell bod platfformau ar-lein yn ffurfio partneriaethau â sefydliadau trydydd sector, cyrff llywodraeth, Ofcom, a grwpiau cymunedol ar lawr gwlad, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiadau cryf â chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, i gyd-ddylunio a darparu ymyriadau effeithiol o ran llythrennedd yn y cyfryngau.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.132 Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol i Argymhelliad 9 ar y cyfan. Roedd y Sefydliad Good Things, Internet Matters, Llywodraeth Cymru, Parent Zone, y Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth, ac S4C i gyd yn cytuno bod cefnogi cynulleidfaoedd amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn fater pwysig ac yn mynegi cefnogaeth eang i nodau'r argymhelliad hwn.²³¹
- 3.133 Roedd llawer o randdeiliaid yn cytuno â phwysigrwydd ffurfio partneriaethau â sefydliadau trydydd sector i gefnogi cynulleidfaoedd amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Dywedodd Sefydliad Good Things, Wikimedia UK, a Parent Zone y dylai gwasanaethau ffurfio partneriaethau â sefydliadau trydydd sector i gyd-ddylunio a darparu ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau.²³² Pwysleisiodd Sefydliad Good Things fod llawer o'r sefydliadau trydydd sector sydd mewn sefyllfa i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wynebu heriau cyllido ar hyn o bryd, a thynnodd Parent Zone sylw at y ffaith y dylai'r partneriaethau hyn gael eu cynnal a bod yn ystyrion.²³³
- 3.134 Cyfeiriodd rhai at gymorth i grwpiau agored i niwed a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein (CPWO) a ddarparodd dystiolaeth bod menywod a merched yn cael eu targedu'n anghymesur gan aflonyddu ar-lein, camfanteisio rhywiol, a cham-drin ar sail delweddau, gan argymhell partneriaethau â sefydliadau arbenigol fel un ffordd o fynd i'r afael â hyn.²³⁴ Nododd Mencap hefyd y gellid dylunio offer a gynlluniwyd ar gyfer plant i weithio i oedolion ag anabledd dysgu, yr henoed neu bobl â dementia, gan ailbwysleisio'r angen am gyd-ddylunio.²³⁵ Nododd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) hefyd y dylai Ofcom annog ymgysylltu â grwpiau ag anghenion ychwanegol.²³⁶
- 3.135 Dywedodd REPHRAIN a Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) y dylai mentrau llythrennedd yn y cyfryngau i gefnogi cynulleidfaoedd amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gael eu rhoi ar waith yn genedlaethol ac adlewyrchu ehangder amrywiol y DU.²³⁷ Tynnodd REPHRAIN sylw hefyd at

²³¹ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.9-10; [Internet Matters](#), ymateb, tt.12-13; Ymateb Llywodraeth Cymru; [Parent Zone](#), ymateb, tt.14-15; [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, tt.5-6; [S4C](#), ymateb, t.4

²³² [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.9-10; [Wikimedia UK](#), ymateb, t.3; [Parent Zone](#), ymateb, tt.14-15

²³³ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, tt.9-10; [Parent Zone](#), ymateb, tt.14-15

²³⁴ [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.6

²³⁵ [Mencap](#), ymateb, tt.3-4

²³⁶ [Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman \(Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain\)](#), ymateb, t.4

²³⁷ [REPHRAIN](#), ymateb, tt.7-8; [Sefydliad Ffilm Prydain \(BFI\)](#), ymateb, t.6

bwysigrwydd cyflwyno'r mentrau hyn ar-lein ac oddi ar y we.²³⁸ Yn yr un modd, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod llawer o grwpiau amrywiol yn osgoi defnyddio gwasanaethau ar-lein i osgoi iaith casineb, ac felly byddant yn colli'r mentrau llythrennedd yn y cyfryngau hyn lle byddant yn cael eu darparu ar-lein yn unig.²³⁹

- 3.136 Dywedodd y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein y dylid cydnabod yn benodol bod menywod a merched, yn enwedig y rheini sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol, yn dargedau anghymesur ar gyfer cam-drin ar-lein.²⁴⁰
- 3.137 Dywedodd Mencap y gallai fod yn wrthgynhyrchiol i labelu'r mentrau fel rhai a allai fod yn 'gymhleth ac yn drwm ar adnoddau', ac yn lle hynny y dylai'r argymhelliad ganolbwyntio ar fanteision cyd-gynhyrchu a dylunio.²⁴¹ Dywedodd REPHRAIN fod angen cymorth ar sensitifrwydd diwylliannol ar rieni sy'n fudwyr er mwyn iddynt ddeall materion cydsyniad, perchnogaeth data a diogelwch plant, ac fe wnaethant awgrymu fod Ofcom yn cyd-ddylunio adnoddau addysgol gyda chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.²⁴²
- 3.138 Dywedodd Sefydliad Molly Rose fod diffyg pendantrwydd ynghylch beth fyddai arfer da yn ei olygu i blant sydd â galluedd a gwendidau gwahanol yn mynd y tu hwnt i egwyddorion lefel uchel yn unig.²⁴³
- 3.139 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod iaith yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi cynhwysiant a hygyrchedd. Dywedodd REPHRAIN fod angen cymorth a llythrennedd yn y cyfryngau ieithyddol a diwylliannol gynhwysol, yn enwedig ar gyfer rhieni sy'n fudwyr.²⁴⁴ Yn yr un modd, dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai gwybodaeth fod ar gael yn Gymraeg i sicrhau cymorth teg, a dywedodd S4C hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod mentrau llythrennedd yn y cyfryngau yn adlewyrchu anghenion cynulleidfaoedd sy'n siarad Gymraeg.²⁴⁵

Ein hymateb

- 3.140 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang gan rhanddeiliaid i'r argymhelliad hwn. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod cyllid tymor hir a phartneriaethau'n bwysig, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn Argymhelliad 8, sy'n annog darparwyr gwasanaethau i ymrwymo i roi cyllid tymor hir i raglenni meithrin sgiliau gyda thrydydd partïon.
- 3.141 Rydym yn cydnabod ceisiadau rhanddeiliaid i roi mentrau ar waith yn genedlaethol. Mae'n amlwg mai rhaglenni ar raddfa fawr sydd â'r potensial gorau o ran cyrhaeddiad, ond hefyd o ran bod rhaglenni effeithiol yn aml yn dibynnu ar ddarpariaeth gan fudiadau cymunedol dibynadwy. Mae hyn yn creu tensiwn posibl rhwng cyrhaeddiad ac effaith, y gallai gwasanaethau fod mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nhw drwy bartneriaethau cynaliadwy â sefydliadau sy'n gallu darparu hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau ar raddfa fawr mewn cymunedau.
- 3.142 O ran pryderon rhanddeiliaid bod mentrau llythrennedd yn y cyfryngau wedi'u fframio fel rhai sy'n 'gymhleth ac yn defnyddio llawer o adnoddau', amcan y fframwaith hwn yw cydnabod y gwaith amhrisiadwy y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei wneud o ddydd i ddydd ledled y DU. Cyfeirir

²³⁸ [VoiceBox](#), ymateb, tt.7-8

²³⁹ Ymateb Llywodraeth Cymru

²⁴⁰ [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.6

²⁴¹ [Mencap](#), ymateb, tt.3-4

²⁴² [VoiceBox](#), ymateb, tt.7-8

²⁴³ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, tt.10-11

²⁴⁴ [VoiceBox](#), ymateb, tt.7-8

²⁴⁵ Ymateb Llywodraeth Cymru; [S4C](#), ymateb, t.4

at fanteision cydgynhyrchu a chynllunio drwy gydol yr argymhelliad, ac mae sefydliadau'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i gyflawni'r manteision hyn drwy eu gwaith parhaus.

- 3.143 O ran pryderon rhai rhanddeiliaid nad yw'r argymhelliad hwn yn ddigon penodol a'r ceisiadau i Ofcom fabwysiadu dull gweithredu mwy rhagnodol, nid ydym yn cytuno ei bod yn briodol i Ofcom argymell dulliau gweithredu safonol ar draws gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas. Fel rydym wedi egluro yn yr adran 'Ein hymateb' yn Argymhelliad 5, mae'r amrywiaeth o wasanaethau'n golygu ei bod yn bosibl na fydd safoni'n effeithiol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r safbwynt rydym wedi'i arddel yn ein *Datganiad ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein*.²⁴⁶ Rydym yn annog gwasanaethau i leihau ffrithiant a chymhlethdod lle bynnag bo modd drwy ddefnyddio iaith gliriach, labeli mwy cyson, a theithiau defnyddwyr mwy greddfodol. Rydym hefyd yn cefnogi cydweithio ar draws sectorau, drwy ymchwil a'r gwaith rydym wedi'i gomisiynu, sy'n helpu i wella defnyddioldeb a chyd-ddealltwriaeth i rieni a gofawyr.
- 3.144 Rydym yn cytuno bod iaith yn elfen bwysig o brofiadau cynhwysol ar-lein. Yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn y Datganiad hwn, rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried anghenion iaith i sicrhau bod mentrau'n rhoi cefnogaeth briodol i grwpiau agored i niwed.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.145 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan rhanddeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol 9: Cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ymysg cynulleidfaoedd amrywiol a chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol

Rhaid i lythrennedd yn y cyfryngau fod yn gynhwysol. Dylai ganolbwyntio nid yn unig ar y rhai sydd eisoes yn gallu ymgysylltu â gwasanaethau, ond dylai hefyd geisio cyrraedd y rhai nad ydynt, am wahanol resymau, yn gallu cymryd rhan mewn mentrau llythrennedd yn y cyfryngau ar hyn o bryd. Dylid gwreiddio'r natur gynhwysol hon yn y cam dylunio, a'i chynnal drwy'r gwaith ymgysylltu â defnyddwyr hyd at allgymorth cymdeithasol ehangach.

Yn y cam dylunio, mae cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau cynulleidfaoedd amrywiol a rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn golygu cydnabod bod pob penderfyniad dylunio yn gallu effeithio'n wahanol ar wahanol ddefnyddwyr. Felly, dylai gwasanaethau darlledu a ffrydio geisio bodloni amrywiaeth eang o anghenion drwy gynnwys defnyddwyr amrywiol yn y broses ymchwil a datblygu, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn berthnasol. Dylai sicrhau hygyrchedd i ddefnyddwyr ag anabledau fod yn ystyriaeth allweddol.

Dylai darparwyr gwasanaethau hefyd ystyried sut mae cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau cynulleidfaoedd amrywiol pan fyddant yn defnyddio eu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu cydnabod bod ffactorau fel oedran, sgiliau ar-lein, hyder, statws economaidd-gymdeithasol, a hygyrchedd i gyd yn dylanwadu ar sut mae gwybodaeth yn cael ei derbyn a'i deall, ac y gallai mathau penodol o gynnwys effeithio'n wahanol ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr.

²⁴⁶ [Volume 4 What should services do to mitigate the risks of online harms to children](#), Ofcom

Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau yn mabwysiadu arferion dylunio cynhwysol sy'n mynd i'r afael â sbectrwm eang o anghenion llythrennedd yn y cyfryngau, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith syml, ciwiau gweledol, a chynnal profion defnyddwyr gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sicrhau bod gwybodaeth yn glir, yn hygyrch ac yn ystyrlon.²⁴⁷²⁴⁸

Y tu hwnt i'r cynnig craidd, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y gallai fod angen cymorth ar gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu sydd ar y cyrion i gael mynediad ac ymgysylltu'n ystyrlon. Gall rhwystrau i fynediad ddeillio o ffactorau fel statws economaidd-gymdeithasol, oedran, rhyw, anabledd, a nodweddion croestoriadol eraill.²⁴⁹²⁵⁰ O'n profiad ni, mae mentrau llythrennedd yn y cyfryngau sy'n seiliedig ar brofiadau bywyd, diwylliannau a chyd-destunau pobl yn fwy tebygol o fod yn effeithiol ac yn gynhwysol. Rydym yn cydnabod y gall y gwaith hwn fod yn gymhleth ac yn gofyn am lawer o adnoddau, a bod rhai darlledwyr traddodiadol a gwasanaethau radio cymunedol eisoes yn gwneud gwaith i gyrraedd cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd ar y cyrion. Rydym yn eu hannog i barhau â'r mentrau hyn ac adrodd arnynt.

O ystyried y cymhlethdodau hynny, rydym hefyd yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau nad oes ganddynt wybodaeth gymunedol leol yn ffurfio partneriaethau â sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol ar lawr gwlad, ac yn enwedig sefydliadau'r trydydd sector sydd â chysylltiadau cryf â chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, i gyd-ddylunio a darparu ymyriadau effeithiol ar raddfa fawr ynghylch llythrennedd yn y cyfryngau.

Gwerthuso yr Hyn sy'n Gweithio

- 3.146 Mae Argymhelliad 10 yn yr adran hon yn canolbwyntio ar hybu'r gwaith o asesu mentrau llythrennedd yn y cyfryngau a gwella profiadau pobl yn barhaus drwy bob un o'r tri cham arall (hy drwy ddylunio, wrth ddefnyddio a thu hwnt i'r gwasanaeth).

²⁴⁷ Mae hyn yn cyd-fynd â safbwynt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn eu papur ar y cyd ar "Dyluniad Niweidiol mewn Marchnadoedd Digidol", [harmful-design-in-digital-markets-ico-cma-joint-position-paper.pdf](#), lle maent yn hyrwyddo amgylcheddau digidol teg, tryloyw sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

²⁴⁸ Tryloywder yw un o egwyddorion craidd GDPR y DU, ac mae canllawiau pellach ar sut mae sicrhau bod defnyddwyr yn deall sut mae eu data personol yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio, ei storio a'i rannu, ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, [Tryloywder | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

¹ Ofcom, 2024, [Exploring high media literacy among children aged 8-12](#) ac [Exploring high media literacy among adults and children](#).

²⁴⁹ Ofcom, 2024, [Exploring high media literacy among children aged 8-12](#) ac [Exploring high media literacy among adults and children](#).

²⁵⁰ Ofcom, 2024, [Hybu sgiliau ymysg plant, oedolion hŷn a phobl anabl: Gwerthuso beth sy'n gweithio ar gyfer datblygu llythrennedd yn y cyfryngau](#).

Argymhelliad 10

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Argymhelliad Drafft 10: Cynnal a chyhoeddi gwerthusiadau o effeithiau eu dewisiadau a'u gweithgareddau

Mae gwerthuso'n chwarae rôl bwysig o ran deall yr effaith y mae dewisiadau dylunio ac ymyriadau'n ei chael ar wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad pobl. Er mwyn helpu sefydliadau i gynnal asesiadau cadarn, rydym wedi cyhoeddi [Banc Canlyniadau](#) a [Phecyn Cymorth Gwerthuso](#). Mae'r adnoddau hyn wedi'u dylunio i helpu sefydliadau i fesur effeithiolrwydd eu hymdrechion llythrennedd yn y cyfryngau a deall sut maen nhw'n cyfrannu at wella llythrennedd yn y cyfryngau.

Mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau yn gwerthuso effaith eu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau. Mae gwerthuso dewisiadau dylunio yn eu galluogi i ddeall beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio, a lle mae angen gwelliannau.

Dylai dulliau gwerthuso fod yn berthnasol ac yn gymesur. Er enghraifft, er y gallai platfformau ar-lein mwy o faint ddefnyddio dulliau uwch fel profion A/B neu dreialon rheoli ar hap (RCTs), gall darparwyr gwasanaethau llai ganolbwyntio ar ddulliau symlach i asesu manteision ymyriadau ar gyfer eu cynulleidfaoedd targed.

Mae adrodd a rhannu canfyddiadau yn helpu i greu darlun cliriach o raddfa a natur gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau ledled y DU. Rydym yn cydnabod bod rhai darparwyr gwasanaeth yn gwreiddio llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio neu'n darparu ymyriadau wedi'u targedu. Fodd bynnag, mae'r ymdrechion hyn yn aml yn rhan o fentrau ehangach ac efallai na fyddant yn cael eu hadrodd fel gwaith llythrennedd yn y cyfryngau. Mae cofnodi ac adrodd ar y gweithgareddau hyn yn lleihau dyblygu, yn gosod meincnodau i eraill, ac yn tynnu sylw at ymrwymyadau presennol o ran mesurau ac adnoddau. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i nodi lle mae angen cymryd camau pellach. Os caiff canfyddiadau eu cyhoeddi, gallant hefyd gyfrannu at gorff ehangach o wybodaeth am effaith Llythrennedd yn y Cyfryngau.

Felly, rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n asesu effaith eu dewisiadau dylunio a'u gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau yn rheolaidd, ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau.

Rydym hefyd yn argymhell bod darparwyr gwasanaeth yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar eu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau, gan gynnwys:

- Llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddewisiadau dylunio sy'n cynnig dewis a rheolaeth ystyrlon i bobl o'r cychwyn cyntaf.
- Unrhyw gynnwys rhaglennol sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau, fel y diffinnir gan fanc canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom.
- Darparu ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau ar raddfa fawr i'w cynulleidfaoedd targed, gan gynnwys manylion am nifer y bobl a gyrrhaeddwyd a lle cawsant eu darparu.

- Cydweithio a chymorth i sefydliadau y mae cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn ymddiried ynddynt.

Drwy groesawu'r her o adrodd ar weithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau, gall y darparwyr gwasanaeth mwyaf arwain drwy esiampl yn y maes hwn, gan ddangos yr argymhellion hyn ar waith a helpu i adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach o'r hyn sy'n gweithio. Yn yr un modd â'r holl waith gwerthuso, dylai'r dulliau fod yn berthnasol ac yn gymesur.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.147 Roedd cefnogaeth gref i werthuso gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau a dewisiadau dylunio. Ar draws yr ymatebion ysgrifenedig, roedd rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan i werth gwerthuso ac yn cytuno y dylid ei gynnwys yn yr argymhellion. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan sefydliadau fel Internet Matters, Mencap a Pinterest.²⁵¹
- 3.148 Dywedodd rhai gwasanaethau ar-lein a chyrrff masnach na ddylai Ofcom fabwysiadu dull rhagnodol na gorfodol o ymdrin â gofynion gwerthuso ac adrodd. Dywedodd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig nad oedd argymhellion gwerthuso ac adrodd yn rhy ragnodol na gorfodol, gan rybuddio yn erbyn cael un dull gweithredu sy'n addas i bawb. Dywedodd Pinterest fod dulliau cymesur sy'n benodol i wasanaeth yn fwy tebygol o roi dealltwriaeth ystyrlon.²⁵² Dywedodd Google ei bod yn heriol i fesur ar draws gwasanaethau ac y gallai un metrig fod yn anymarferol neu'n feichus.²⁵³ Dywedodd cyrrff masnach, gan gynnwys COBA, y dylai Ofcom ystyried y costau, sensitifrwydd masnachol a'r baich rheoleiddio sy'n gysylltiedig â gwerthuso ac adrodd, a dywedodd COBA y dylai Ofcom ailystyried ei gynnig bod darparwyr gwasanaethau yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar eu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau.²⁵⁴
- 3.149 Dywedodd nifer o randdeiliaid ei bod yn bwysig gwerthuso'n annibynnol er mwyn gwella hygrededd a lleihau gwrthdaro rhwng buddiannau. Roedd sefydliadau cymdeithas sifil, gan gynnwys Parent Zone ac Internet Matters, yn cefnogi gwerthusiad annibynnol neu drydydd parti, a dywedodd y Gynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth (MILA) y dylid seilio dulliau gwerthuso ar theori newid glir ac y dylai trydydd parti'n niwtral ei ddarparu.²⁵⁵ Dywedodd Middle Tech Coalition (MTC) y gallai gwerthuso fod yn ddwys i fusnesau llai, ac y gallai olygu bod angen uwchsgilio neu gomisiynu'n allanol.²⁵⁶
- 3.150 Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai Ofcom roi mwy o gefnogaeth a chydlynu pethau fwy. Dywedodd Google y gallai Ofcom hwyluso agenda ymchwil ar y cyd (gan gynnwys dulliau cadarn fel treialon ac ymchwil hydredol), a dywedodd y BBC y dylai Ofcom ystyried mecanweithiau sy'n annog mentrau ar y cyd a rhannu fframweithiau.²⁵⁷ Dywedodd Internet Matters hefyd y dylai Ofcom egluro sut mae'n bwriadu mesur defnydd cyffredinol o'r 10 argymhelliad ar draws y sector, a mesur eu heffaith.²⁵⁸

²⁵¹ [Internet Matters](#) ymateb, t. 13; [Mencap](#) ymateb, t. 4; [Pinterest](#) ymateb, t. 7.

²⁵² [Pinterest](#), ymateb, t. 7.

²⁵³ [Google](#), ymateb, t. 8.

²⁵⁴ [COBA](#), ymateb, t. 2.

²⁵⁵ [Parent Zone](#), ymateb, t. 15; [Internet Matters](#), ymateb, t. 13; [Cynghrair Cyfryngau a Gwybodaeth](#), ymateb, t5.

²⁵⁶ Ymateb Middle Tech Coalition (MTC)

²⁵⁷ [Google](#), ymateb, t. 8; [BBC](#), ymateb, t. 9.

²⁵⁸ [Internet Matters](#), ymateb, tt. 13-14

- 3.151 Gofynnodd rhai rhanddeiliaid gwestiynau ynghylch sut y gallai'r argymhellion ynghylch gwerthuso ac adrodd fod yn berthnasol i ofynion rheoleiddio ac adrodd eraill a'u hymateb oedd y dylid osgoi dyblygu. Dywedodd Middle Tech Coalition (MTC) a Pinterest y gallai'r argymhellion ynghylch gofynion gwerthuso a chyhoeddi fynnu bod yna adrodd ar elfennau a allai fod yn ofynnol gan Ofcom o dan ofynion ehangach Diogelwch Ar-lein.²⁵⁹ Dywedodd PayPal fod cymesuredd yn bwysig, yn enwedig i gwmnïau sydd eisoes wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr FCA.²⁶⁰ Dywedodd S4C y gallai ddefnyddio ei adroddiadau Datganiad Polisi Rhaglenni fel mecanwaith ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol i osgoi dyblygu diangen a sicrhau bod adroddiadau'n gyson ac yn hygyrch.²⁶¹²⁶²
- 3.152 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai disgwyliadau fod yn gryfach ar wasanaethau o ran adrodd, hygyrchedd a metrigau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Dywedodd nifer o ymatebwyr academiaidd a chymdeithas sifil y dylai Ofcom gryfhau disgwyliadau ynghylch cyhoeddi allbynnau gwerthuso, gan gynnwys sicrhau bod allbynnau'n hygyrch ac yn ddigon penodol. Dywedodd Sefydliad Good Things ei bod yn bwysig monitro a gwerthuso'n gyson, gan gynnwys casglu data'n gyson ar lefel ymyrraeth a phoblogaeth (gan gynnwys tynnu sylw at fylchau wrth fesur allgáu digidol).²⁶³ Hefyd, fe wnaethant nodi y dylai allbynnau gwerthuso fod ar gael yn rhwydd. Dywedodd Sefydliad Molly Rose y gallai canllawiau tryloywder Ofcom helpu i sicrhau cydymffurfiaeth drwy fynnu bod gwasanaethau'n darparu gwybodaeth am fesurau i wella llythrennedd yn y cyfryngau defnyddwyr a gwerthusiadau effeithiolrwydd.²⁶⁴²⁶⁵ Dywedodd Parent Zone y dylai gwerthusiadau ddangos tystiolaeth o newid ymddygiad dros amser, gyda llinellau sylfaen clir i ategu hynny, a thynnodd sylw at werth annibyniaeth i leihau'r risg y bydd partneriaethau'n rhoi'r argraff bod rhywbeth yn digwydd yn hytrach na chael effaith go iawn.²⁶⁶
- 3.153 Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai mesurau canlyniadau ystyried y rheini sy'n fwy agored i niwed ar-lein. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth y dylai unrhyw werthusiad gynnwys mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â niwed yn y byd go iawn ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, ac y dylai gynnwys metrigau ar ddibynadwyedd ffynonellau sy'n dod i'r amlwg drwy ddeallusrwydd artiffisial/chwilio (e.e. cyrhaeddiad gwybodaeth gredadwy ymysg grwpiau agored i niwed; amllder camwybodaeth neu ddamcaniaethau camarweiniol gwrth-semitaidd mewn canlyniadau deallusrwydd artiffisial/chwilio; profiadau o gasineb neu ragfarn y mae defnyddwyr yn eu hadrodd; a chymarebau o ffynonellau credadwy yn erbyn ffynonellau wedi'u trin y daethpwyd ar eu traws).²⁶⁷ Dywedodd y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein y dylai gwerthusiad fesur canlyniadau sy'n berthnasol i atal trais yn erbyn menywod a merched sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg (TFVAWG), nid dim ond metrigau generig o ran llythrennedd yn y cyfryngau.²⁶⁸

²⁵⁹ [Pinterest](#), t. 7; Ymateb Middle Tech Coalition (MTC)

²⁶⁰ Ymateb PayPal

²⁶¹ Mae [Datganiad Polisi Rhaglenni](#) Ofcom yn mynnu bod pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig yn cyhoeddi eu datganiad blynyddol o bolisi rhaglenni eu hunain a'u bod yn cynnwys nodyn ynghylch sut y byddant yn cyflawni eu cylch gwaith a'u rhwymedigaethau rheoleiddio.

²⁶² [S4C](#), ymateb, t. 4

²⁶³ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t. 10

²⁶⁴ [Datganiad: Adrodd ar Dryloywder](#), Ofcom, 2025. Mae hwn yn rhoi manylion ynghylch sut mae Ofcom yn penderfynu pa wybodaeth y mae'n rhaid i wasanaethau a gategoreiddiwyd ei chynnwys yn eu hadroddiad tryloywder, a manylion ynghylch sut mae sicrhau cydymffurfiaid.

²⁶⁵ [Sefydliad Molly Rose](#), ymateb, tt. 3-4

²⁶⁶ [Parent Zone](#), ymateb, t.15

²⁶⁷ [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth](#), ymateb, t. 4

²⁶⁸ [Canolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t. 6

- 3.154 Dywedodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) os bydd gwerthusiadau'n cael eu cyhoeddi, y dylent fod ar gael i ddefnyddwyr; fel arall, mae perygl y bydd y cyhoeddiad yn tanseilio atebolrwydd defnyddwyr.²⁶⁹

Adborth eilaidd am y digwyddiad

Yn unol â'r adborth uchod, roedd cefnogaeth gref ymysg y panel cyngori ar Lythrennedd yn y Cyfryngau i ddulliau seiliedig ar ganlyniadau o ymdrin â gwaith llythrennedd yn y cyfryngau, gyda galwadau am feincnodau cliriach ac am ddulliau sy'n annog sefydliadau i rannu gwersi a ddysgwyd yn hytrach na thrin gwerthusiadau fel ymarfer cydymffurfio.

Tynnodd y rheini a ddaeth i'n gweithdai yn ein cynhadledd sylw at bwysigrwydd gwerthuso ac adrodd tryloyw sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gefnogi Argymhellid 10 yn sgil hynny.

Ein hymateb

- 3.155 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid a ddywedodd na ddylai ein hargymhellion fod yn rhagnodol na chynnwys gofyniadau gorfodol i werthuso ac adrodd. Mae gosod gofynion adrodd gorfodol y tu allan i gwmpas y Ddeddf o ran yr argymhellion hyn. Wrth i ni weithio gyda gwasanaethau sy'n gweithredu'r argymhellid hwn, byddwn yn bod yn glir y dylai dulliau gwerthuso fod yn gymesur ac yn addas i'r diben, gan gydnabod gwahaniaethau o ran maint gwasanaeth, model gweithredu a phroffil risg, a bod nifer o ddulliau gwerthuso credadwy (o ddulliau ysgafnach i ddulliau mwy datblygedig).
- 3.156 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y gall Ofcom fod â rhan yn y gwaith o ddarparu cymorth a chydgylltu parhaus, ac o ran hyrwyddo gwerthusiadau annibynnol lle mae'n ychwanegu gwerth. Wrth i ni weithio gyda darparwyr gwasanaethau i roi'r argymhellion hyn ar waith a datblygu rhagor o ddeunyddiau ategol, byddwn yn ystyried y ffordd orau o barhau i gyfeirio at arferion gwerthuso cadarn (gan gynnwys lle gallai gwerthusiad annibynnol neu drydydd parti ychwanegu gwerth) a sut gellir addasu dulliau ac adnoddau presennol sydd wedi'u hanelu at y sector cyflawni, fel [Banc Canlyniadau Llythrennedd yn y Cyfryngau a Phecyn Cymorth Gwerthuso Ofcom](#), i gefnogi cynulleidfaoedd ehangach. Byddwn yn parhau i ystyried pa gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i gefnogi gwasanaethau ymhellach, fel cyhoeddi agenda ymchwil llythrennedd yn y cyfryngau.
- 3.157 Rydym yn cytuno y gallai fod angen i wasanaethau ystyried unrhyw ofynion adrodd rheoleiddiol presennol. Gan nad yw'r rhain yn argymhellion rhwymol, mae gan wasanaethau rywfaint o hyblygrwydd i addasu eu dull gweithredu i gyd-fynd orau ag anghenion penodol eu defnyddwyr gan roi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau weithio gydag Ofcom i dreialu, arloesi ac ailadrodd. Rydym yn annog gwasanaethau i osgoi dyblygu, yn enwedig pan eu bod eisoes yn bodloni gofynion o dan gyfundrefnau eraill. Nid yw'n fwriad i'r argymhellion hyn, y testun esboniadol na'r deunydd darllen a awgrymir ddisodli na chymryd lle unrhyw ofynion rheoleiddio a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau. Gallai darparwyr gwasanaethau sy'n methu ag ateb eu rhwymedigaethau cyfreithiol wynebu camau gorfodi.
- 3.158 O ran awgrymiadau rhanddeiliaid y dylai gwasanaethau werthuso effaith eu gwasanaethau ar bobl sy'n fwy agored i niwed ar-lein, anelwyd yr argymhellion hyn at sut mae gwasanaethau'n hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn hytrach na sut mae gwasanaethau'n asesu ac yn lliniaru'r risgiau o

²⁶⁹[Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain](#), ymateb, t. 6

niwed ar eu gwasanaeth. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn cynnwys amryw o ddarpariaethau eraill sy'n ceisio hyrwyddo profiadau mwy diogel ar-lein, er enghraifft mae'r broses asesu risg yn mynnu bod gwasanaethau ar-lein yn asesu a oes unrhyw nodweddion neu swyddogaethau penodol o ran dyluniad neu weithrediad y gwasanaeth a allai gynyddu'r risg o niwed, gan gynnwys 'Casineb' fel niwed.²⁷⁰ Mae Ofcom hefyd wedi cyhoeddi argymhellion ymarferol ar gyfer cwmnïau technoleg a amlinellir yng nghanllawiau Ofcom ar *Fywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched*, ynghylch sut gall dewisiadau dylunio darparwyr gwasanaethau sicrhau bod diogelwch ar-lein defnyddwyr yn ystyriaeth allweddol a mynd ati'n effeithiol i liniaru niwed ar-lein ar sail rhywedd.²⁷¹

- 3.159 Rydym yn cytuno y byddai sicrhau bod unrhyw werthusiad yn hygyrch i'w ddefnyddwyr yn dod â manteision i randdeiliaid. Mae'r pwyslais yn Argymhelliad 1 ar wneud dewisiadau dylunio hygyrch mewn polisi yn trosi'n werthusiad hygyrch, wrth gynllunio, casglu data a chyhoeddi.
- 3.160 Nid ydym yn cytuno y dylid cryfhau'r argymhellion mewn perthynas â disgwyliadau o ran cyhoeddi, hygyrchedd a metrigau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Nid yw'r argymhellion hyn yn rai rhwymol, ac rydym eisiau i wasanaethau eu mabwysiadu mewn ffyrdd cymesur, arloesol ac effeithiol. Mae hyn yn golygu osgoi bod yn rhy ragnodol a pharhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar yr hyn sy'n gweithio, a'r ffordd orau o werthuso eu mentrau llythrennedd yn y cyfryngau ac adrodd arnynt mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ehangach a'u defnyddwyr.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.161 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid, mae testun ein hargymhelliad terfynol ar ôl cael ei ddiweddarau yn y blwch isod.

Argymhelliad Terfynol 10: Cynnal a chyhoeddi gwerthusiadau o effeithiau eu dewisiadau a'u gweithgareddau

Mae gwerthuso'n chwarae rôl bwysig o ran deall yr effaith y mae dewisiadau dylunio ac ymyriadau'n ei chael ar wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad pobl. Mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau yn gwerthuso effaith eu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau. Mae gwerthuso dewisiadau dylunio yn eu galluogi i ddeall beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio, a lle mae angen gwelliannau.

Dylai dulliau gwerthuso fod yn berthnasol ac yn gymesur. Er enghraifft, er y gallai gwasanaethau ar-lein mwy o faint ddefnyddio dulliau uwch fel profion A/B neu dreialon rheoli ar hap (RCTs), gall darparwyr gwasanaethau llai ganolbwyntio ar ddulliau symlach i asesu manteision ymyriadau ar gyfer eu cynulleidfaoedd targed.

Mae adrodd a rhannu canfyddiadau yn helpu i greu darlun cliriach o raddfa a natur gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau ledled y DU. Rydym yn cydnabod bod rhai darparwyr gwasanaeth yn gwreiddio llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio neu'n darparu ymyriadau wedi'u targedu. Fodd bynnag, mae'r ymdrechion hyn yn aml yn rhan o fentrau ehangach ac efallai na fyddant yn cael eu hadrodd fel gwaith llythrennedd yn y cyfryngau. Mae cofnodi ac adrodd ar y gweithgareddau hyn yn lleihau dyblygu, yn gosod meincnodau i eraill ac yn tynnu sylw at ymrwymyadau presennol o ran mesurau ac adnoddau. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i nodi lle mae angen cymryd camau pellach. Os

²⁷⁰ [Datganiad: Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein](#) Ofcom, 2024

²⁷¹ [Datganiad a Chanllawiau: Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched](#), Ofcom, 2025

caiff canfyddiadau eu cyhoeddi, gallant hefyd gyfrannu at gorff ehangach o wybodaeth am effaith llythrennedd yn y cyfryngau.

Rydym yn argymhell bod darparwyr gwasanaethau'n asesu effaith eu dewisiadau dylunio a'u gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau yn rheolaidd, ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau.

Rydym hefyd yn argymhell bod darparwyr gwasanaeth yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar eu gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau, gan gynnwys:²⁷²

- Llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddewisiadau dylunio sy'n cynnig dewis a rheolaeth ystyrlon i bobl o'r cychwyn cyntaf;
- Unrhyw gynnwys rhaglennol sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau, fel y diffinnir gan [fanc canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom](#);
- Darparu ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau ar raddfa fawr i'w cynulleidfaoedd targed, gan gynnwys manylion am nifer y bobl a gyrrhaeddwyd, metrigau cyllido, a lle cawsant eu darparu; a
- Cydweithio a chymorth i sefydliadau y mae cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn ymddiried ynddynt, gan gynnwys eu cyfraniadau cyllid.

Drwy groesawu'r her o adrodd ar weithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau, gall y darparwyr gwasanaeth mwyaf arwain drwy esiampl ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach o'r hyn sy'n gweithio. Yn yr un modd â'r holl waith gwerthuso, dylai'r dulliau fod yn berthnasol ac yn gymesur.

Byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r argymhellion yn 2029. Cyn hynny, byddwn yn adrodd ar sut mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr wedi mabwysiadu'r argymhellion a allai gyfeirio at y datganiadau blynyddol a wneir gan wasanaethau sy'n mabwysiadu'r argymhellion.

Ystyriaethau eraill

- 3.162 Cyfeiriodd rhanddeiliaid at ystyriaethau eraill drwy eu hymatebion i'r ymgynghoriad, nad oeddent yn cyfeirio at unrhyw argymhelliad penodol nac adran ymgynghori. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion hyn yn yr adran hon.

Crynodeb o'r ymatebion

- 3.163 Awgrymodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) a Sefydliad Addysgol Economegwyr y dylid ychwanegu argymhelliad penodol sy'n annog cydweithio ar draws y diwydiant a rhannu gwybodaeth i ddatblygu arferion gorau a rennir.²⁷³

²⁷² Ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig - deiliaid trwyddedau Channel 3, Channel Four Television Corporation a Channel 5 - edrychwch ar [Ganllawiau Polisi Datganiad o Raglenni](#) Ofcom, adran 2.57

²⁷³ [Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman \(Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain\)](#), ymateb, tt.4-5

- 3.164 Gofynnodd Cymdeithas yr Advertising Association a Media Smart am gydnabyddiaeth o sut mae'r sector masnachol a hysbysebu yn rhan o lythrennedd yn y cyfryngau ac argymhellion penodol ar gyfer labelu ac egluro hysbysebion a chynnwys a noddir yn glir.²⁷⁴
- 3.165 Gofynnodd Parent Zone am argymhelliad sy'n annog gwasanaethau i rannu eu mapiau cynnyrch er mwyn galluogi trydydd partïon i ragweld anghenion gwybodaeth a pharatoi ar gyfer newidiadau technolegol.²⁷⁵
- 3.166 Dywedodd y Cyngor ar gyfer Mynd i'r Afael â Thwyllwbyodaeth Ar-lein (CCOD) y byddai croeso i fesurau ychwanegol o dan 'ddylunio ar gyfer gwell dewis i ddefnyddwyr', fel adnodd i hidlo cynnwys nad yw'n cyrraedd safonau newyddiadurol rhyngwladol ar gywirdeb ffeithiol ac awgrymu cynnwys newyddion o wahanol safbwyntiau i atal algorithmau rhag gwobrwyo cynnwys eithafol ac ymgysylltu unochrog.²⁷⁶

Ein hymateb

- 3.167 Rydym yn cytuno ar bwysigrwydd cydweithio ar draws y diwydiant a rhannu arferion gorau. Oherwydd sensitifrwydd masnachol posibl, nid yw'n briodol i ni argymhell rhannu gwybodaeth yn benodol.
- 3.168 Nodwn yr awgrym ynghylch labelu a hysbysebu ar gynnwys noddedig. Mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori yn 2026 ar ddyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi'u categorio, gan gynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â hysbysebu twyllodrus, telerau gwasanaeth, a grymuso defnyddwyr. Disgwylir i'r datganiad hwn gael ei gyhoeddi yn 2027.²⁷⁷ Pan fyddwn yn adolygu ac yn diwygio'r argymhellion hyn yn y dyfodol, efallai y byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hyn eto yng ngoleuni'r dyletswyddau newydd ac unrhyw ddatblygiadau eraill.
- 3.169 Oherwydd sensitifrwydd masnachol posibl, nid yw'n briodol i ni argymhell bod gwasanaethau ar-lein yn rhannu mapiau cynnyrch.
- 3.170 Nid ydym wedi ychwanegu unrhyw argymhellion pellach o dan 'dylunio er mwyn rhoi gwell dewis i ddefnyddwyr', gan ein bod o'r farn bod Argymhellion 1 a 2 yn rhoi digon o sylw i'r awgrymiadau.

Ein penderfyniad terfynol

- 3.171 Ar ôl ystyried yr ymatebion a roddwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu peidio ag ychwanegu unrhyw argymhellion pellach. Byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r argymhellion, a'n bwriad yw cwblhau'r adolygiad hwn yn 2029.

²⁷⁴ [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, t.7

²⁷⁵ [Parent Zone](#), ymateb, tt.15-16

²⁷⁶ [Cyngor ar gyfer Gwrthweithio Twyllwbyodaeth Ar-lein](#), ymateb, tt.4-5

²⁷⁷ Ofcom, 2025 [Dulliau Ofcom ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein](#)

4. Gweithredu'r argymhellion

- 4.1 Rhoddodd rhanddeiliaid adborth ynghylch sut y dylai gwasanaethau o fewn y cwmpas weithredu'r argymhellion, a sut y dylid annog mabwysiadu'r argymhellion, sy'n cael ei grynhoi yn yr adran hon.

Crynodeb o'r ymatebion

- 4.2 Dywedodd Google, Wikimedia UK a'r Middle Tech Coalition (MTC) y dylai Ofcom ddefnyddio dulliau gwirfoddol i sbarduno mabwysiadu. Awgrymodd Google y dylem sefydlu disgwyliadau sylfaenol ar gyfer ein hargymhellion a chaniatáu hyblygrwydd wrth ei roi ar waith.²⁷⁸ Dywedodd Wikimedia UK eu bod yn argymhell dulliau gwirfoddol o sbarduno mabwysiadu sy'n dangos bod darparwyr yn cyrraedd safon uchel gyda chymorth trydydd partion annibynnol.²⁷⁹ Dywedodd MTC, er mwyn osgoi dargyfeirio adnoddau oddi wrth fesurau cydymffurfio hanfodol o ran diogelwch, y dylai Ofcom sicrhau bod unrhyw gynllun adrodd yn y dyfodol yn wirfoddol ac yn gydweithredol.²⁸⁰
- 4.3 Yn yr un modd, dywedodd yr Advertising Association/Media Smart y dylai Ofcom ddefnyddio cymdeithasau masnach i hyrwyddo mabwysiadu ymysg aelodau ac y dylai argymhellion fod yn wirfoddol, ond y dylem ystyried eu gwneud yn orfodol os nad oes llawer yn eu defnyddio.²⁸¹
- 4.4 Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth, y BFI, Sefydliad Good Things, Dr Elinor Carmi, Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) a Parent Zone na fydd dull gwirfoddol o sbarduno'r gwaith o fabwysiadu'r argymhelliad yn ddigon.²⁸² Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth, gan nad yw'r argymhellion yn orfodol, y gallai fod yn annhebygol y bydd gwasanaethau yn eu mabwysiadu'n llawn ac fe wnaethant alw ar Ofcom i fynd ymhellach i'w codeiddio.²⁸³ Dywedodd y BFI eu bod yn deall natur wirfoddol argymhellion Ofcom ond eu bod yn credu y dylai Ofcom sicrhau bod yr argymhellion yn seiliedig ar ofynion neu fandadau cryfach i sicrhau eu bod yn effeithiol.²⁸⁴ Dywedodd Sefydliad Good Things fod gan Ofcom rôl o ran gorfodi'r argymhellion ac nid eu hannog yn unig.²⁸⁵ Maent yn dweud bod gan Ofcom rôl bwysig yn gorfodi 'dyluniad safonol wedi'i gyd-ddylunio' sy'n sicrhau y gall defnyddwyr a chynulleidfaeoddd ganfod eu ffodd drwy wasanaethau ar-lein. Dywedodd Dr Elinor Carmi, o ystyried bod gwasanaethau ar-lein yn seiliedig ar elw, na fydd trefn o ddisgwyl iddynt ddatblygu rhaglenni llythrennedd yn y cyfryngau o'u gwirfodd yn gweithio a bod yn rhaid i argymhellion fynd ymhellach na bod yn wirfoddol.²⁸⁶ Dywedodd y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein mai'r unig ffordd y gellir gwneud newid ystyrion yw drwy ddefnyddio mesurau deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n codeiddio rhwymedigaethau i annog mabwysiadu.²⁸⁷ Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) eu bod yn siomedig mai argymhellion yn unig yw'r cynigion a amlinellwyd gan Ofcom ac y

²⁷⁸ [Google](#), ymateb, t.7; [Wikimedia UK](#), ymateb, t.6; Middle Tech Coalition (MTC), ymateb

²⁷⁹ [Wikimedia UK](#), ymateb, t.6

²⁸⁰ Ymateb Middle Tech Coalition (MTC)

²⁸¹ [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, t.7

²⁸² [Yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth](#), ymateb, t.6; [BFI](#), ymateb, tt.9-10; [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.11; [Dr. Elinor Carmi](#), ymateb, tt.4-5; [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.7; [Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon \(NAHT\)](#), ymateb, t.5; [Parent Zone](#), ymateb, tt.16-17

²⁸³ [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth](#), ymateb, t.6

²⁸⁴ [BFI](#), ymateb, tt.9-10

²⁸⁵ [Sefydliad Good Things](#), ymateb, t.11

²⁸⁶ [Dr. Elinor Carmi](#), ymateb, tt. 4-5

²⁸⁷ [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.7

byddent yn croesawu eu cryfhau i fod yn god ymarfer gorfodol.²⁸⁸ Dywedodd Parent Zone y dylai Ofcom symud y tu hwnt i argymhellion sy'n cefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ac yn hytrach nodi'r rhain fel dyletswyddau gorfodol.²⁸⁹

- 4.5 Dywedodd Shout Out UK, yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth, a Phrifysgol Glasgow fod adroddiadau'n bwysig ar gyfer sbarduno mabwysiadu.²⁹⁰ Dywedodd Shout Out UK y dylem gysylltu cydymffurfiaeth â chosbau ariannol ac y dylem fynnu bod gwasanaethau ar-lein mawr yn cyhoeddi adroddiadau manwl wedi'u harchwilio'n annibynnol sy'n amlinellu eu buddsoddiad blynyddol (o ran amser ac arian) mewn mentrau llythrennedd yn y cyfryngau y tu allan i'w gwasanaeth.²⁹¹ Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth y gallai Ofcom gynhyrchu adroddiadau a chanllawiau i helpu gwasanaethau i roi'r argymhellion ar waith.²⁹² Dywedodd Prifysgol Glasgow y dylem gael cynlluniau cydnabod neu adroddiadau cyhoeddus ac awgrymodd y dylem gymell ymgysylltu gweithredol yn hytrach na thawelwch drwy dynnu sylw at ymatebwyr cyfrannol fel enghreifftiau o arferion da.²⁹³
- 4.6 Dywedodd y Gynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth (MILA) a VoiceBox y gallai Ofcom ddefnyddio achrediad gyda manteision i wasanaethau drwy arddangos arferion da, gyda gwobrau a chanmoliaethau.²⁹⁴ Yn yr un modd, dywedodd Sefydliad Addysgol The Economist y dylid ardystio'r rheini sy'n dangos arferion da.²⁹⁵ Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn ein gweithdai yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu safonau cyffredin neu achrediad ar gyfer gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau.
- 4.7 Dywedodd Internet Matters y dylai Ofcom ddilyn dull tebyg i'r adroddiadau Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG), gan gynhyrchu fframwaith olrhain cynnydd, fel adroddiad/datganiad blynyddol neu adolygiad cyfnodol, gan dynnu sylw at lle mae cynnydd yn cael ei wneud a lle mae angen cymryd camau pellach. Dywedodd Internet Matters y dylid ategu'r adroddiad gydag astudiaethau achos sy'n dangos sut mae gwahanol fathau o wasanaethau wedi gwreiddio egwyddorion llythrennedd yn y cyfryngau yn effeithiol.²⁹⁶ Dywedodd REPHRAIN y dylai Ofcom ddarparu canllawiau a pheynnau cymorth penodol i ddatblygwyr i gefnogi eu gwaith ym maes Llythrennedd yn y Cyfryngau, a fyddai'n eu hannog i fabwysiadu'r argymhellion hyn.²⁹⁷
- 4.8 Dywedodd Parent Zone, OSAN, Advertising Association/Media Smart, y Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth, Internet Matters a Llywodraeth Cymru y gallai Ofcom sicrhau cydymffurfiaeth drwy gysylltu'r argymhellion â chyfrifoldebau rheoleiddio eraill fel y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.²⁹⁸
- 4.9 Dywedodd Google ac OSAN y dylid cael mwy o gysondeb rhwng Ofcom a'r Llywodraeth ar strategaeth gydgysylltiedig ar lythrennedd yn y cyfryngau, gan weithio gyda gwasanaethau

²⁸⁸ [Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon \(NAHT\)](#), ymateb, t.5

²⁸⁹ [Parent Zone](#), ymateb, tt.16-17

²⁹⁰ [Shout Out UK](#), ymateb, t.4; [yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth](#), ymateb, t.6; [Prifysgol Glasgow](#), ymateb, t.3

²⁹¹ [Shout Out UK](#), ymateb, t.4

²⁹² [Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth](#), ymateb, t.6

²⁹³ [Prifysgol Glasgow](#), ymateb, t.3

²⁹⁴ [Cynghrair Llythrennedd yn y Cyfryngau a Gwybodaeth \(MILA\)](#), ymateb, t.6; [VoiceBox](#), ymateb t.13

²⁹⁵ [Sefydliad Addysgol The Economist](#), ymateb, t.12

²⁹⁶ [Internet matter](#), ymateb, tt.14-15

²⁹⁷ [REPHRAIN](#), ymateb, t.2

²⁹⁸ [Parent Zone](#), ymateb, tt.17-18; [OSAN](#), ymateb, t.7; [Advertising Association/Media Smart](#), 2025, ymateb, t.8; [Rhwydwaith Ymchwil Cywirdeb Gwybodaeth](#), ymateb, tt.6-7; [Internet Matters](#), ymateb, tt.14-15; Ymateb Llywodraeth Cymru

technolog i symleiddio ein dull gweithredu ac y gallai hyn helpu i sicrhau cysondeb a'r effaith fwyaf bosibl.²⁹⁹

- 4.10 Dywedodd yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain) y gellid gwella cydymffurfiaeth drwy roi enghreifftiau penodol o'r hyn y byddai pob argymhelliad yn ei olygu i wahanol wasanaethau neu wahanol gynulleidfaoedd, gan gynnig enghreifftiau i arddangos arfer gorau i wasanaethau, a sut dylai'r safonau gofynnol edrych.³⁰⁰

Adborth eilaidd am y digwyddiad

Roedd nifer o'r rheini a oedd yn bresennol yn ein gweithdai yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu safonau cyffredin neu achrediad ar gyfer gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau.

Yn yr un modd, nododd adborth gan ein panel cyngori ar lythrennedd yn y cyfryngau y posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys y risg y gallai rhai gwasanaethau ddefnyddio mentrau llythrennedd yn y cyfryngau i gryfhau canfyddiad y cyhoedd heb fynd i'r afael â materion diogelwch sylfaenol.

Ein hymateb

- 4.11 Rydym yn gwybod bod manteision ac anfanteision i beidio â gwneud yr argymhellion hyn yn rhwymol. Gan nad ydynt yn rhwymol, gallwn weithio'n agosach gyda gwasanaethau ar-lein, gwasanaethau darlledu a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys wrth iddynt dreialu, arloesi ac ailadrodd eu dull o ymdrin ag llythrennedd yn y Cyfryngau. Gall yr argymhellion ddarparu fframwaith sy'n cefnogi deialog agored am yr hyn sy'n gweithio a dull cyfranogol o reoleiddio, sy'n gallu cefnogi canlyniadau gwell o ran llythrennedd yn y cyfryngau ar draws y boblogaeth. Yn ein barn ni, gallai rhai darparwyr gwasanaethau wneud mwy, a dylent wneud hynny, felly nid ydym wedi argymhell dull gweithredu safonol. Rydym yn edrych yn fanylach ar hyn wrth gyflwyno [Sut mae hybu llythrennedd yn y cyfryngau](#).
- 4.12 Mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cynhyrchu datganiad o argymhellion. Nid yw'r argymhellion hyn yn rhwymol ac ni allwn orfodi gwasanaethau i'w mabwysiadu. Byddwn yn diwygio ac yn adolygu'r argymhellion, a'n bwriad yw cwblhau'r adolygiad hwn yn 2029. Cyn hynny, byddwn yn adrodd ar sut mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr wedi mabwysiadu'r argymhellion.
- 4.13 Rydym yn cydnabod bod awydd ymysg rhai o randdeiliaid Ofcom i ddatblygu cynllun achredu. Yn hytrach na chanolbwyntio ar fewnbwn, rydym wedi dewis canolbwyntio ar werthuso fel y gellir dysgu gwersi o raglenni peilot ar draws y sector. Mae ein [pecyn gwerthuso a'n banciau canlyniadau](#) wedi cael derbyniad da a chawsant eu diweddarau'n gynharach eleni i gynnwys deallusrwydd artifisial a newyddion.
- 4.14 O ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau y mae'r argymhellion hyn yn berthnasol iddynt, nid ydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol rhoi enghreifftiau nac astudiaethau achos. Yn hytrach, rydym yn disgwyl i wasanaethau ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r argymhellion hyn ar draws eu cynnyrch a'u gwasanaethau gan ddefnyddio'r testun esboniadol a'r adnoddau rydym wedi'u darparu. Efallai y bydd gwasanaethau chwilio cymdeithasol a gemau yn gweld bod yr [Egwyddorion Dylunio Arfer](#)

²⁹⁹ [Google](#), ymateb, t.8; [OSAN](#), ymateb, t.7

³⁰⁰ [Yr Athro Lee Edwards ac Emma Goodman \(Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain\)](#), ymateb, tt.6-7

[Gorau ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau](#) yn darparu mwy o fanylebau i ddylunwyr. Cafodd ei greu ar y cyd ag arbenigwyr o Google, Meta, Roblox, TikTok a Grŵp Lego.

- 4.15 Mae'r Datganiad o Argymhellion yn un o ofynion penodol y Ddeddf. Nid yw'n fwriad iddo ddisodli na chymryd lle unrhyw ofynion rheoleiddio a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau. Gallai darparwyr gwasanaethau sy'n methu ag ateb eu rhwymedigaethau cyfreithiol wynebu camau gorfodi. Ni ddylid ei dehongli fel datganiad o bolisi Ofcom ar ganllawiau neu Godau Ymarfer eraill (gan gynnwys o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein), na'i hystyried fel rhywbeth sy'n achub y blaen ar unrhyw waith datblygu polisi yn y dyfodol. Dylid nodi hefyd bod y rhain yn argymhellion ehangach o ran eu perthnasedd, a'u bod wedi'u hanelu at ystod ehangach o ddarparwyr gwasanaeth y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, gan roi sylw i ddarlledwyr, gwasanaethau deallusrwydd artifisial cynhyrchiol, gwasanaethau ffrydio, ac ati.
- 4.16 Mae nodi sut beth yw da wrth hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau gan wasanaethau ar-lein, gwasanaethau darlledu a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys yn cynnig cyfle sylweddol. Rydym wedi nodi 10 disgwyliad clir a allai, gyda'i gilydd, wneud gwahaniaeth sylweddol o ran cefnogi poblogaeth y DU i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau.
- 4.17 Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau ar-lein, darlledu a darparwyr gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynnwys i archwilio sut gallwn gydweithio â nhw i fynd ati'n greadigol i fabwysiadu, arloesi ac ailadrodd eu hymatebion i'r argymhellion hyn. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a, lle bo hynny'n briodol, adrannau eraill o'r llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig ar faterion sy'n ymwneud ag llythrennedd yn y cyfryngau. Byddwn yn diwygio ac yn adolygu'r argymhellion, a'n bwriad yw cwblhau'r adolygiad hwn yn 2029. Cyn hynny, byddwn yn adrodd ar sut mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr wedi mabwysiadu'r argymhellion. Os byddwn yn canfod bod natur nad yw'n rhwymol yr argymhellion hyn yn atal cynnydd tuag at y canlyniadau polisi a fwriedir, byddwn yn tynnu sylw'r Llywodraeth at hyn.
- 4.18 Yn ogystal â gweithio'n ddwyochrog gyda gwasanaethau ar-lein, darlledu a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys, edrychwn ymlaen at weithio gyda'r gymuned llythrennedd yn y cyfryngau ehangach wrth i'r argymhellion hyn gael eu mabwysiadu. Mater i'r Llywodraeth a'r Senedd yw penderfynu gwneud yr argymhellion hyn yn rhai nad ydynt yn rhwymol, ac nid yw'n rhywbeth y mae gan Ofcom y disgrisiwn i'w newid.

5. Asesiadau Effaith

- 5.1 Mae'r adran hon yn nodi ein hasesiadau effaith terfynol, gan ystyried adborth rhanddeiliaid a'n hymatebion.

Crynodeb o'r ymatebion

- 5.2 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi bwriadau Ofcom ar y cyfan ond yn nodi sawl maes ar gyfer cryfhau'r asesiadau. Dywedodd ymatebwyr academiaidd, gan gynnwys REPHRAIN, fod angen mynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol drwy gael ystyriaethau hygrychedd a chynhwysiant cryfach, a dywedodd y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein y dylid cael adlewyrchiad cliriach o effeithiau ar sail rhywedd a chysondeb â rhwymedigaethau o dan CEDAW a Chonfensiwn Istanbul i helpu i atal trais yn erbyn menywod a merched sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg.³⁰¹
- 5.3 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd mynd ymhellach o ran y Gymraeg. Dywedodd S4C y dylai'r argymhellion roi mwy o amlygrwydd i gynnwys Cymraeg ar-lein i gefnogi canlyniadau teg a chryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.³⁰² Dywedodd Llywodraeth Cymru fod angen cymorth clir i'r Gymraeg, cydnabyddiaeth o "fannau di-gyswllt" gwledig, a mwy o ymchwil i ddod o hyd i gynnwys niweidiol yn y Gymraeg i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed.³⁰³
- 5.4 Gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sylw ar yr asesiadau preifatrwydd a diogelu data. Nododd effeithiau pellach a thynnodd sylw at ffyrdd y gellid cael mwy o eglurder ynghylch y ffyrdd y mae'r argymhellion a'r ddeddfwriaeth bresennol ar breifatrwydd a diogelu data yn ategu ei gilydd. Ar ben hynny, dywedodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y dylai Ofcom egluro y gallai gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol, ddefnyddio data dienw i leihau'r gwaith o brosesu data personol ac y dylent gyfeirio sefydliadau at ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar anhysbysedd.³⁰⁴
- 5.5 Tynnodd grwpiau cymdeithas sifil sylw at bwysigrwydd seilio asesiadau ar brofiad bywyd. Dywedodd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) fod gwerth mewn cynnwys elusennau dibynadwy sy'n cefnogi cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, a dywedodd yr Advertising Association/Media Smart y dylid cael dadansoddiad economaidd mwy trylwyr a chydlynw gwell â rheoleiddwyr i osgoi beichiau sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd ar draws trefniadau diogelu data, cydraddoldeb, hysbysebu a diogelwch ar-lein.³⁰⁵ Dywedodd Fundamentally Children y dylai Ofcom adlewyrchu anghenion plant ag AAAA yn well ac ymgorffori hawliau datblygiadol fel yr hawl i chwarae a chymryd rhan, gan nodi y gallai'r heriau gweithredu fod yn fwy na'r disgwyl.³⁰⁶
- 5.6 Nododd y diwydiant a chyrrff masnach bryderon gweithredu a chymesuredd. Dywedodd PayPal fod dull gweithredu Ofcom yn gydnaws â gofynion presennol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ac roeddent yn cefnogi'r pwyslais ar breifatrwydd drwy ddylunio a chynhwysiant, gan annog parhau i

³⁰¹ [REPHRAIN](#), ymateb, p.8; [Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein](#), ymateb, t.8

³⁰² [S4C](#), ymateb, t.5

³⁰³ Ymateb Llywodraeth Cymru

³⁰⁴ [ICO](#), ymateb i Sut mae hybu Llythrennedd yn y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar argymhellion ar gyfer darlledwyr, gwasanaethau a phlatfformau ar-lein, 2025, tt. 6-7

³⁰⁵ [Cymdeithas Addysg y Gweithwyr \(WEA\)](#), ymateb, t.3; [Advertising Association/Media Smart](#), ymateb, tt.6-7

³⁰⁶ [FUNDamentally Children](#), ymateb, t.6

gydlynu i atal dyblygu ar draws cyfundrefnau rheoleiddio.³⁰⁷ Yn y cyfamser, dywedodd y COBA y gallai'r costau tebygol fod yn uwch nag y mae Ofcom yn eu rhagweld, yn enwedig o ran rhoi gwybod am feichiau a heriau sy'n gysylltiedig â labelu cynnwys deallusrwydd artifisial.³⁰⁸

Ein hymateb

- 5.7 Rydym wedi cryfhau'r argymhellion i adlewyrchu'n well y ffordd orau i wasanaethau hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau mewn perthynas â hygyrchedd a chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys diweddarau Argymhellion 1 a 2 i bwysleisio 'dylunio cynhwysol a hygyrch' a diweddarau Argymhelliad 4 i annog gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chynnwys i ymgysylltu ac ymgynghori ymhellach â grwpiau sy'n llai tebygol o ddefnyddio eu hadnoddau.
- 5.8 Mewn ymateb i adborth gan S4C a Llywodraeth Cymru, ynghylch mynd ymhellach dros y Gymraeg, ni fydd yr Argymhellion Llythrennedd yn y Cyfryngau yn cynnwys argymhellion sy'n benodol i Gymru. Byddwn yn ystyried anghenion defnyddwyr sy'n siaradwyr Cymraeg drwy gydol ein holl waith llythrennedd yn y cyfryngau i gefnogi canlyniadau teg ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys cydnabod cyd-destun lleol, fel heriau'n ymwneud â chysylltedd gwledig a'r angen am ymchwil a thystiolaeth barhaus i ddeall a mynd i'r afael yn well â risgiau a niwed sy'n effeithio ar ddefnyddwyr y Gymraeg.
- 5.9 Rydym yn cydnabod bod angen tynnu sylw at ble mae'r argymhellion a'r ddeddfwriaeth bresennol ar breifatrwydd a diogelu data yn ategu ei gilydd. Yn ein hasesiad effaith terfynol, rydym yn gwahaniaethu'n fwy llawn rhwng hawliau preifatrwydd o dan Erthygl 8 ECHR a hawliau diogelu data. Rydym yn nodi bod cydymffurfio â chyfraith diogelu data, gan gynnwys tryloywder a phreifatrwydd drwy ddylunio ac yn ddiodyn, yn dal yn rhwymedigaeth gyfreithiol i wasanaethau ni waeth beth fo'r argymhellion. Rydym wedi egluro hyn yn yr argymhellion, gan nodi mai eu bwriad yw cefnogi dulliau sy'n lleihau faint o ddata personol sy'n cael ei brosesu lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys defnyddio data dienw. Rydym wedi cyfeirio at ganllawiau perthnasol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar anhysbysedd yn y deunyddiau asesu.
- 5.10 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd seilio'r asesiadau ar brofiad bywyd ac adlewyrchu anghenion grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys plant ag AAAA. Rydym hefyd yn nodi adborth ar werth cydlynu â sefydliadau dibynadwy. Byddwn yn diwygio ac yn adolygu'r argymhellion, a'n bwriad yw cwblhau'r adolygiad hwn yn 2029. Cyn hynny, byddwn yn adrodd ar sut mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr wedi mabwysiadu'r argymhellion. Yn hyn o beth, byddwn yn cymryd camau i adolygu effeithiau'r argymhellion ar y rheini sydd â phrofiadau uniongyrchol a diwygio'r argymhellion yn unol â hynny.
- 5.11 Rydym yn cytuno ynghylch gwerth cydgysylltu â rheoleiddwyr eraill i gefnogi gweithredu cymesur a chydlynol. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y diwydiant a chyrrff masnach ynghylch cost ac effeithiau gweithredol posibl, gan gynnwys mewn meysydd fel adrodd a labelu deallusrwydd artifisial. Bwriad yr argymhellion yw cefnogi dulliau hyblyg a graddadwy, a byddwn yn parhau i ystyried cymesuredd a chydlynu wrth i ni fireinio ein deunyddiau ategol. Rydym wedi nodi'n fanwl sut bydd cymesuredd yn cael ei gymhwyso yn adran Holi ac Ateb yr argymhellion terfynol.

³⁰⁷ Ymateb PayPal

³⁰⁸ [Y COBA](#), ymateb, t. 3

Ein Hasesiadau Effaith terfynol

- 5.12 Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, nodir ein hasesiadau effaith terfynol isod:

Effaith ar fusnesau a'r cyhoedd

- 5.13 Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maen nhw'n rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod Ofcom yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Roeddem wedi cynnwys yr asesiad hwn yn adran 5 o'n hymgyngoriad.
- 5.14 Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi ac mae ganddo ddisgresiwn o ran sylwedd a ffurf asesiad effaith. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.³⁰⁹
- 5.15 Cynhelir yr asesiad effaith hwn yn unol â'r arferion gorau. O ystyried natur anorfodol yr argymhellion, nid ydym yn rhag-weld effaith sylweddol ar fusnesau. Mae'n bosib y bydd darparwyr gwasanaethau sy'n rhoi sylw i'r argymhellion yn wynebu mân gostau gweinyddol, yn bennaf yn sgil adolygu'r ddogfen hon. Gall unrhyw effaith ar y cyhoedd amrywio, yn dibynnu i ba raddau y mae darparwyr gwasanaethau yn dewis mabwysiadu'r argymhellion. Ar ben hynny, mae rhai o'r argymhellion yn defnyddio mesurau sydd eisoes wedi'u nodi mewn rheoliadau diogelwch ar-lein a gofynion diogelu data, a bydd eisoes disgwyl i wasanaethau sydd o fewn cwmphas y gofynion hynny eu rhoi ar waith, sy'n golygu na fyddent yn creu unrhyw effeithiau pellach.
- 5.16 Ar gyfer y darparwyr gwasanaethau hynny sy'n mynd ymhellach ac yn gweithredu'r argymhellion hyn pan nad ydynt eisoes yn dilyn yr arferion hyn, yn enwedig Argymhellion 1 i 5, gallai costau ychwanegol godi yn dibynnu ar hyd a lled y gweithredu, maint a chymhlethdod y gwasanaeth, ac aeddfedrwydd y seilwaith presennol. Er enghraifft:
- 5.17 Mae'r effaith ar wasanaethau sy'n cyd-fynd â'r safonau dylunio presennol yn debygol o fod yn fach iawn.
- 5.18 Gall gwasanaethau sy'n dechrau o linell sylfaen isel wynebu costau mwy sylweddol, gan gynnwys buddsoddiadau un-tro a pharhaus. Gallai'r costau hyn gynnwys amser staff i adolygu ac aiddylunio teithiau defnyddwyr, defnyddio offer newydd neu ddiweddar seilwaith presennol, a mwy o ymdrechion ymgynghori, yn fewnol ac yn allanol, gan arwain at gostau logistaidd a staffio.
- 5.19 Yn yr un modd, gall newydd-ddyfodiaid hefyd wynebu costau mwy sylweddol os nad ydynt eto wedi gwreiddio rhai argymhellion yn nyluniad eu gwasanaeth fel rhan o'u trefn gychwynnol.
- 5.20 Efallai y bydd angen i rai darparwyr gwasanaethau hefyd addasu agweddau ar eu modelau busnes, yn enwedig ar gyfer Argymhellion 1 i 3, a allai arwain at oblygiadau ariannol tymor hirach. Er enghraifft, efallai y bydd effaith ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n dibynnu ar refeniw hysbysebu os bydd gwell gosodiadau preifatrwydd neu offer rheoli amser yn lleihau amlygrwydd neu effaith

³⁰⁹ Ofcom, [Canllawiau asesu effaith](#), 2023

hysbysebu. Yn yr un modd, gall mwy o dryloywder mewn systemau argymell neu fwy o reolaeth i ddefnyddwyr hefyd effeithio ar broffidioldeb gwasanaethau.

- 5.21 Rydym hefyd yn argymell bod darparwyr gwasanaethau'n cydweithio â thrydydd partïon ar gyfer ymgynghori, ariannu ac allgymorth i gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Bydd costau ymrwymadau o'r fath, yn enwedig gydag Argymhellion 6, 8 a 9, yn amrywio yn dibynnu ar eu cwmpas a'u natur. Rydym yn disgwyl i gyfranogwyr mwy o faint ysgwyddo cyfran fwy o'r cyfrifoldeb hwn, gan gydnabod bod rhai ohonynt eisoes yn cyd-fynd â'r argymhellion hyn, i sicrhau cymesuredd ar draws y sector.
- 5.22 Mae'n bwysig nodi, mae gweithredu'r 10 argymhelliad hyn yn anorfodol, gan ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau eu mabwysiadu mewn ffordd gymesur. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau hyblygrwydd o ran faint i'w fuddsoddi a phryd i wneud hynny. Rydym yn disgwyl y bydd cwmnïau'n pwysu a mesur y costau posib yn erbyn y manteision disgwylidig o ran llythrennedd yn y cyfryngau i bobl, ac iddyn nhw eu hunain, ac yn bwrw ymlaen lle mae'r manteision yn amlwg yn drech na'r costau.
- 5.23 Er gwaethaf y costau posib, mae'r argymhellion, yn enwedig Argymhellion 4, 5 a 9, yn cynnig cyfleoedd i ddarparwyr gwasanaethau. Drwy eu mabwysiadu, gall darparwyr gwasanaethau archwilio modelau refeniw mwy cynaliadwy, sy'n gwella ymddiriedaeth defnyddwyr a chryfhau enw da'r brand. Efallai y bydd cwsmeriaid newydd yn cael eu canfod drwy wneud darparwyr gwasanaeth yn fwy croesawgar i grwpiau defnyddwyr nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol heddiw, a chynyddu eu hyder ar-lein.

Asesu hawliau

- 5.24 Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i Ofcom weithredu'n unol â'i ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus i weithredu'n gyfreithlon, yn rhesymol ac yn deg, ac mae'n anghyfreithlon i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10) a'r hawl i breifatrwydd (Erthygl 8) sy'n arbennig o berthnasol i swyddogaethau Ofcom. Rhaid i unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol gael ei rhagnodi gan y gyfraith, fod yn angenrheidiol i gyflawni nod cyfreithlon, a bod yn gymesur â'r nod hwnnw.
- 5.25 Rydym wedi rhoi sylw penodol i'r hawliau hyn wrth ddatblygu'r argymhellion arfaethedig hyn i sicrhau bod y camau gweithredu rydym yn eu hargymell yn briodol ac yn gymesur, ac nad ydynt yn tarfu'n anghymesur ar y rhain nac ar hawliau eraill y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r argymhellion yn anorfodol, gan ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau eu mabwysiadu'n hyblyg ac yn gymesur, sy'n lliniaru ymhellach unrhyw ymyrraeth bosib.

Rhyddid Mynegiant

- 5.26 Wrth ddatblygu'r argymhellion hyn, rydym wedi ystyried yn ofalus yr effaith bosib ar ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er mai'r nod cyffredinol yw gwella gallu pobl i dderbyn a rhannu gwybodaeth, rydym yn cydnabod y gallai rhai argymhellion gyflwyno cyfyngiadau anuniongyrchol neu anfwriadol os cânt eu camddefnyddio. Er enghraifft:
- 5.27 Gallai argymhelliad 3 ac argymhelliad 4 ddylanwadu ar sut mae pobl yn gweld neu'n ymgysylltu â mathau penodol o gynnwys, yn enwedig os yw gosodiadau diofyn yn lleihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â safbwyntiau amrywiol, neu os yw systemau awtomataidd yn camlabelu cynnwys llafar dilys neu'n tynnu sylw'n anghywir at gynnwys synthetig dilys.

- 5.28 Gallai Argymhelliad 5 ac Argymhelliad 6 effeithio ar fynediad at gynnwys mewn ffyrdd anfwriadol os na chaiff ei weithredu gyda digon o hyblygrwydd.
- 5.29 Fodd bynnag, os byddant yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r bwriad, nid ydym yn disgwyl i'r argymhellion fod yn ddim mwy na risg isel o ymyrryd â hawliau i ryddid mynegiant, gan gynnwys gwasanaethau. Mae hyn yn arbennig o wir yng ngoleuni natur anorfodol yr argymhellion, y pwyslais ar roi mwy o reolaeth i bobl, a'r disgwyliad y bydd darparwyr gwasanaethau'n mabwysiadu'r argymhellion mewn modd cymesur sy'n parchu hawliau.
- 5.30 Yn gyffredinol, mae'r argymhellion wedi'u cynllunio i hybu rhyddid mynegiant drwy gynyddu gallu pobl i dderbyn ac ymgysylltu â gwybodaeth. Er enghraifft, gall argymhellion 1, 2 a 4 alluogi pobl i ddeall a defnyddio cynnwys yn fwy hyderus ac i ymgysylltu'n feirniadol â newyddion, cynnwys newyddiadurool a deunydd o bwysigrwydd democrataidd, ac felly rydym yn disgwyl effeithiau cadarnhaol ar wasanaethau sy'n cynnal deunydd o'r fath. Ar ben hynny, gall cam-drin ac aflonyddu ar-lein, yn enwedig pan fydd hyn yn effeithio ar grwpiau sydd ar y cyrion, gyfyngu ar allu pobl i fynegi eu hunain yn rhydd. Nod yr argymhellion hyn yw mynd i'r afael â hynny drwy annog darparwyr gwasanaethau i ddarparu offer er mwyn i bobl gymryd rheolaeth dros eu profiad ar-lein.
- 5.31 Yn y cyd-destun hwn, rydym yn credu bod cyfiawnhad dros unrhyw ymyrraeth bosib a'i bod yn gymesur, yng ngoleuni'r manteision sylweddol i bobl yn y DU pan fydd yr argymhellion yn cael eu mabwysiadu, gan gynnwys o ran eu galluogi i gymryd rhan fwy gweithredol a mwy gwybodus ar-lein.

Diogelu data a phreifatrwydd

- 5.32 Ynghylch diogelu data, efallai y bydd rhai o'r argymhellion yn cynnwys casglu a phrosesu data personol, fel argymhellion 1, 2, 4 a 5. Nid ydym yn rhag-weld y bydd angen casglu neu brosesu data personol er mwyn rhoi argymhellion eraill fel 6, 7 ac 8 ar waith. Drwy gydol y broses weithredu, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried a, lle bo'n briodol, defnyddio data dienw i leihau'r gwaith o brosesu data personol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi canllawiau ar y broses o wneud pobl yn ddiennw. Mae'n orfodol cydymffurfio â chyfraith diogelu data ac mae'n cynnwys tryloywder a phreifatrwydd drwy ddylunio ac yn ddiodyn.
- 5.33 Wrth ystyried yr effaith ar hawl defnyddwyr i breifatrwydd yn ehangach, lle mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod unrhyw brosesu'n cael ei wneud yn unol â chyfraith diogelu data, a dylai effaith y prosesu ar breifatrwydd defnyddwyr felly fod yn fach iawn. Ar ben hynny, gallai ein ffocws ar osodiadau preifatrwydd cryf diodyn leihau unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau preifatrwydd. Er enghraifft, caiff gwasanaethau eu hannog i ddefnyddio patrymau defnydd nad oes modd eu hadnabod, dangosyddion cyd-destunol, neu signalau ymddygiad cyfunol i lywio penderfyniadau dylunio, yn hytrach na dibynnu ar gasglu data personol yn uniongyrchol.
- 5.34 Gallai rhai effeithiau ar breifatrwydd defnyddwyr ddeillio o unrhyw waith monitro a chasglu gwybodaeth. Er enghraifft, fel y trafodwyd ym mharagraff 5.34. Mae argymhellion 1, 2, 4 a 5 yn cyfeirio at gasglu data personol fel cofrestru. Gallai hyn effeithio ar breifatrwydd defnyddiwr yn ogystal â goblygiadau o ran diogelu data.
- 5.35 Mae argymhelliad 4 yn galw'n benodol am brosesu metaddata i ganfod cynnwys synthetig gan ddefnyddio offer, awtomatig neu fel arall, i fonitro a phrosesu data defnyddwyr, y gellid eu categorio fel data personol. Fel y nodwyd, dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod unrhyw brosesu'n cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth diogelu data ac y dylai ddilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ystyried a, lle bo hynny'n briodol, defnyddio data dienw i leihau'r gwaith o brosesu data personol. Pan fydd darparwyr gwasanaeth yn prosesu'r metaddata hwn mewn

ffordd ddilys sy'n cydymffurfio, mae unrhyw ymyrraeth â hawliau preifatrwydd yn fwy tebygol o fod yn gymesur wrth helpu defnyddwyr i ganfod cynnwys synthetig dilys.

- 5.36 Yn gyffredinol, rydym yn credu bod yr argymhellion yn taro cydbwysedd teg a chymesur rhwng ein dyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau a'r budd i'r cyhoedd maen nhw'n ceisio ei sicrhau, a diogelu hawliau dynol.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 5.37 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig. Mae hefyd yn mynnu bod Ofcom yn hybu cyfleoedd cyfartal ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.
- 5.38 Ar ben hynny, mae adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.
- 5.39 Wrth asesu'r effaith ar gydraddoldeb, rydym yn ystyried effaith ein cynigion nid yn unig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, ond hefyd ar ystod ehangach o grwpiau demograffig a chymdeithasol. Mae adran 3(4) o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol. Rydym yn edrych ar yr effaith y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.
- 5.40 Rydym yn credu y bydd yr argymhellion hyn yn creu manteision ystyrlon i amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai mewn perygl o allgáu digidol. Drwy hybu dylunio cynhwysol a hygyrch, gwella hygyrchedd a chefnogi Llythrennedd yn y Cyfryngau, gall darparwyr gwasanaethau rymuso amrywiaeth ehangach o bobl i gymryd rheolaeth dros eu profiadau ar-lein. Mae'r dull hwn nid yn unig yn gwneud gwasanaethau'n decach ond mae hefyd yn cyfrannu at amgylchedd digidol iachach a mwy cynhwysol. Mae ein hargymhellion wedi'u cynllunio i rymuso defnyddwyr, hybu cyfleoedd cyfartal, a meithrin rhyngweithio cadarnhaol rhwng pobl. Gyda'i gilydd, eu nod yw rhoi mwy o reolaeth i unigolion dros eu profiadau ar-lein.
- 5.41 Rydym yn disgwyl i'r argymhellion hyn gael effaith gadarnhaol iawn ar bobl sy'n wynebu anfantais ariannol, oedolion hŷn, plant, a phobl ag anabledau dysgu a/neu amhariadau gwybyddol. Mae'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod angen cymorth llythrennedd yn y cyfryngau na'r boblogaeth gyffredinol, fel y dangosir gan ein hymchwil ein hunain ac ymchwil ehangach.
- 5.42 Drwy annog darparwyr gwasanaethau i fabwysiadu dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac ymgysylltu â grwpiau amrywiol, mae'r argymhellion yn helpu i leihau rhwystrau mynediad ac i feithrin amgylcheddau digidol mwy teg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Argymhelliad 1, 2 a 3. Mae'r argymhellion hyn yn hybu'r defnydd effeithiol o offer fel rhwystro a thewi, a allai helpu i ddiogelu defnyddwyr rhag aflonyddu ar sail hil, crefydd neu nodweddion eraill.
- 5.43 Mae plant yn elwa ar adnoddau sy'n briodol i'w hoedran, tra bo rhieni'n cael cymorth drwy Argymhellion 1, 3 a 5. Gellir cynnwys grwpiau ar y cyrion drwy bartneriaethau â thrydydd partïon arbenigol, rhaglenni addysgol ac ymgyrchoedd cymunedol (Argymhellion 6, 7 ac 8). Ar ben hynny, efallai y bydd grwpiau ymylol yn ymgysylltu ymhellach o ganlyniad i Argymhelliad 4 sy'n annog

ymgyngori ac ymgysylltu ar gyfer y rheini sy'n llai tebygol o ddefnyddio eu hadnoddau. Mae Argymhelliad 9 yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion cynulleidfaoedd croestoriadol a chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Os caiff yr argymhelliad hwn ei roi ar waith, gallai leihau'r rhwystrau i bobl â nodweddion gwarchoddedig drwy wella hygyrchedd a meithrin cydweithio â chymunedau ar y cyrion. Gall prosesau gwerthuso helpu i nodi gwahaniaethau a gwella canlyniadau (Argymhelliad 10).

- 5.44 Drwy gydol yr argymhellion a, lle bo hynny'n berthnasol, rydym wedi cyfeirio'n benodol at ddyletswyddau eraill o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Dylai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ystyried risgiau i ddefnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anabledau, wrth gynnal eu hasesiadau risg.
- 5.45 Er bod disgwyl i'r effaith gyffredinol fod yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod y risgiau posib. Gall offer sydd wedi'u dylunio'n wael neu sy'n ormodol achosi gorlwytho gwybyddol, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr iau neu bobl anabl. Yn yr un modd, os bydd gosodiadau preifatrwydd, rheolaethau rhieni, neu nodweddion eraill yn cael eu rhoi ar waith heb ddigon o arbenigedd, mewnbwn defnyddiwr neu brofion, gallant arwain at flinder i ddefnyddwyr, lleihau galluedd plant neu roi straen ar y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rydym wedi rhoi pwyslais ar ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac wedi annog darparwyr gwasanaethau i ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr amrywiol yn ystod y gwaith datblygu i sicrhau bod offer yn reddfodol ac yn gymesur. Rydym hefyd yn cydnabod efallai na fydd cynnwys addysgol ac adnoddau trydydd parti ar gael i bob defnyddiwr os nad ydynt wedi'u dylunio'n gynhwysol. Fodd bynnag, mae darparwyr gwasanaethau'n cael eu hannog i ddefnyddio iaith syml, isdeitlo, disgrifiadau sain a fformatau sy'n sensitif i ddiwylliannau.
- 5.46 Yn olaf, rydym yn cydnabod nad oes unrhyw ddull o wella hygyrchedd cynnwys ar-lein sy'n gyfan gwbl heb risgiau. Bwriad offer, fel marciau dŵr neu labeli, sy'n cael eu defnyddio i ddangos a yw cynnwys yn ddibynadwy neu wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artifisial, yw helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am wybodaeth maen nhw'n ei gweld ar-lein. Fodd bynnag, gallai'r offer hyn gael eu camddefnyddio gan weithredwyr gwael, er enghraifft i ddilysu cynnwys camarweiniol yn ffug.
- 5.47 Yn gyffredinol, rydym yn credu bod manteision yr argymhellion hyn yn drech na'r risgiau posib ac yn cynnig cyfle gwerthfawr i hybu cyfleoedd cyfartal, lleihau allgáu digidol a meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl heb nodweddion gwarchoddedig.

Y Gymraeg

- 5.48 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydabod yn swyddogol yng Nghymru. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).
- 5.49 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosib cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo greu neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.
- 5.50 Rhaid arfer pwerau a dyletswyddau Ofcom mewn perthynas ag llythrennedd yn y cyfryngau a nodir yn y Ddeddf yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 y Ddeddf. Wrth lunio ein hargymhellion, lle bo hynny'n berthnasol ac i'r graddau y mae gennym ddisgresiwn i wneud hynny

wrth arfer ein swyddogaethau, rydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 5.51 Rydym wedi asesu'r argymhellion ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau niweidiol hysbys.
- 5.52 Rydym yn argymhell y dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion pobl wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen wrth gefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ymysg cynulleidfaoedd amrywiol a rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol (Argymhelliad 9). At y diben hwn, rydym yn credu y bydd ein hargymhellion yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydym yn credu bod unrhyw effeithiau niweidiol yn debygol o godi o ganlyniad i'n cynigion.
- 5.53 Yn gyffredinol, rydym yn credu bod yr argymhellion yn taro cydbwysedd teg a chymesur rhwng ein dyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau a'r budd i'r cyhoedd maen nhw'n ceisio ei sicrhau, a diogelu hawliau dynol.